# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Hydref 2018

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## (Rhag-gyfarfod)

(13.00 - 13.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.15 - 13.20) (Tudalennau 1 - 3)

**2.1 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (3 Hydref 2018)**

(Tudalen 4)

**2.2 Llywodraethu a goruchwylio cyrff hyd braich: Diweddariad gan yr Ysgrifennydd Parhaol (25 Medi 2018)**

(Tudalennau 5 - 11)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Llywodraeth Cymru

(13.20 - 15.30) (Tudalennau 12 - 180)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil - Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil - Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd

PAC(5)-27-18 Papur 1 - Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

PAC(5)-27-18 Papur 2 - Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2017-18

PAC(5)-27-18 Papur 3 - Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol (22 Awst 2018)

Shan Morgan – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethiant, Llywodraeth Cymru

Peter Kennedy - Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru

Peter Ryland - Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(15.30)

Eitemau 5, 6 a 7

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.30 - 15.45)

## 6 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: trafod yr adroddiad drafft

(15.45 - 16.15) (Tudalennau 181 - 198)

PAC(5)-27-18 Papur 4 – Adroddiad drafft

## 7 Blaenraglen Waith

(16.15 - 16.30) (Tudalennau 199 - 214)

PAC(5)-27-18 Papur 5 – Blaenraglen Waith

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Hydref 2018

Amser: 13.17 - 16.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5034

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Jack Sargeant AC |
| Tystion: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Suzy Davies AC, Comisiynydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Katrin Shaw, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>David Meaden, Public Services Ombudsman for Wales Office |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Ann-Marie Harkin |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC ac Adam Price AC. Ni chafwyd dirprwyon.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Llywodraeth Cymru yn Ariannu Kancoat Ltd: Gohebiaeth gan Llywodraeth Cymru (6 Medi 2018)

### 2.2 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Craffu ar Gyfrifon Llyfrgell Genedlaethol Cymru (6 Medi 2018)

### 2.3 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru (20 Medi 2018)

### 2.4 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Gohebiaeth gan Bethan Sayed AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (28 Medi 2018)

## 3 Addasiadau tai: ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Trafododd yr Aelodau yr ymateb a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn gofyn am ddiweddariad pellach am weithredu'r argymhellion yn ystod gwanwyn 2019.

## 4 Caffael Cyhoeddus yng Nghymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

4.1 Trafododd yr Aelodau y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a chytunwyd i gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach y tymor hwn.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Comisiwn y Cynulliad

5.1 Craffodd yr Aelodau ar waith Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Suzy Davies AC, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2017-18.

5.2 Cytunodd Manon Antoniazzi i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda barn Comisiwn y Cynulliad unwaith y bydd wedi ystyried y papur yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ynghylch Dangosyddion Perfformiad Allweddol y contract newydd ar gyfer caffael.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

6.1 Craffodd yr Aelodau ar waith Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Katrin Shaw, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfreithiol a Llywodraethu a David Meaden, Cyfrifydd Ariannol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Eitem 2.1

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg University Health Board

Our Ref: AD/DE/cw

Date: 3rd October 2018

ABMU Health Board
Headquarters
One Talbot Gateway, Seaway Parade,
Port Talbot
SA12 7BR

01639 683302
WHTN: 1787 3302

Nick Ramsay AM
Chair of the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Mr Ramsay

I am writing further to my letter dated 20th July 2018.

I recognise that my earlier correspondence was not as clear as it could have been in confirming the value of the payment made to the former Chief Executive of the Health Board who left the organisation in March 2017. The Chief Executive's annual salary for the year April 2016 to March 2017 was £187,096.81 and on leaving the organisation a payment of £3,452.06 was made in lieu of annual leave. The value of the payment made under the Compromise Agreement was £113,213 which reflected an ex gratia payment and £50,000 in lieu of notice, which totals £163,213. These payments are set out within our annual accounts.

Please accept my apologies for any confusion caused.

Yours sincerely

Andrew Davies

**ANDREW DAVIES**
**CHAIRMAN**

- Chairman/Cadeirydd: **Andrew Davies**
- Chief Executive/Prif Weithredwr: **Tracy Myhill**

ABM Headquarters/ Pencadlys ABM, One Talbot Gateway, Seaway Parade, Baglan Energy Park, Port Talbot. SA12 7BR.
Telephone: 01639 683344 Ffon 01639 683344 FAX: 01639 687675 and 01639 687676
Bwrdd Iechyd ABM yw enw gweithredu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
ABM University Health Board is the operational name of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board
www.abm.wales.nhs.uk

Eitem 2.2

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Medi 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Ysgrifennais atoch ar 17 Ionawr eleni i sôn am y gwaith oedd yn cael ei ddatblygu yn ymwneud â'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'i gyrff Hyd Braich yn dilyn ein hadolygiad "Delivering Together". Yn unol â'r cais yn eich llythyr dyddiedig 2 Chwefror eleni, rwyf nawr yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r newyddion diweddaraf.

Awgrymaf y gallai fod yn fuddiol i'r Pwyllgor pe bawn yn rhannu fy niweddariad o dan yr wyth prif argymhelliad yn ein hadolygiad a nodwyd gennyf yn fy llythyr blaenorol gan eu bod, gyda'i gilydd, yn cwmpasu byrdwn y gwaith. Daw'r penawdau isod felly o'r pwyntiau bwled yn yr ohebiaeth flaenorol.

***Argymhelliad 1 - "Meithrin mwy o allu yn ganolog, drwy Uned Cyrff Cyhoeddus a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am rai swyddogaethau nawdd, gweithredu fel canolfan ragoriaeth, bod yn ffynhonnell o gyngor cyson a rhoi mwy o dryloywder a sicrwydd imi. Bydd yr Uned hon yn niwtral o ran cost ac yn cael ei hariannu drwy ad-drefnu adnoddau gan dimau nawdd a fydd yn ein galluogi i wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud nawr yn well ac yn sicrhau hefyd fod gennym gapasiti i ymgymryd â swyddogaethau newydd."***

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi'i sefydlu ac mae'n cyflawni ei rôl yn unol â'r hyn a argymhellwyd. Mae'n rhan o Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol ac mae'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sydd, yn ei dro, yn adrodd i mi. Mae bellach

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

wedi'i staffio'n llawn gyda swyddogion o bob cwr o'r sefydliad drwy ad-drefnu adnoddau. Roedd pob un o'r rhain eisoes yn cyflawni swyddogaeth nawdd neu swyddogaeth polisi perthnasol mewn perthynas â chorff Hyd Braich ac, fel y rhagwelwyd, mae wedi bod yn ymarfer niwtral o ran cost. Rydym wedi gallu creu peth capasiti i ymgymryd â swyddogaethau yn well ac yn fwy cost effeithiol, felly yr Uned sydd hefyd yn gyfrifol am drosolwg Llywodraeth Cymru o gyflogau ac amodau cyrff Hyd Braich ac mae'n cynnwys y gwaith o weithredu'r system anrhydeddau yn Llywodraeth Cymru. Mae trefniadau newydd ar y gweill yn cynnwys:

- Cael gwared ar 'Weithdrefnau Galw i Mewn' h.y. gofyniad i'n Cyrff Hyd Braich gyfeirio penderfyniadau mewn categorïau penodol atom, megis tendrau unigol sydd uwchlaw trothwy penodol neu faterion newydd a dadleuol, i'w cymeradwyo. Bydd hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i Lywodraeth Cymru o ran amser a dreulir yn darparu cyngor a chymeradwyaeth ac yn caniatáu i Brif Weithredwyr wneud penderfyniadau sy'n gyfrifoldeb iddynt yn eu rolau fel Swyddogion Cyfrifyddu.
- Datblygu trefniant sefydlu i Fyrddau cyrff cyhoeddus. Mae'n cael ei gyflwyno ar draws ein cyrff cyhoeddus i gyd-daro â'u cyfarfodydd bwrdd. Yn ychwanegol, mae'n rhan o hyfforddiant cynefino Swyddogion Cyfrifyddu newydd. Mae sesiynau diweddar wedi cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Chwaraeon Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.
- Cynllunio proses Adolygu wedi'i theilwra i'w defnyddio gyda Chyrff Hyd Braich i ddarparu sicrwydd i Weinidogion, y Prif Swyddog Cyfrifyddu ac Arweinwyr y cyrff eu hunain ynghylch a yw ein cyrff yn dal i fod yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n dda ac yn briodol atebol. Bydd y broses adolygu yn gymesur i faint y corff Hyd Braich ac yn hyblyg o ran amseru a dull gweithredu. Rydym wedi datblygu offeryn risg, a fydd yn cael ei fireinio gydag arweinwyr ein Cyrff Cyhoeddus, i adnabod pryd y byddai adolygiad o gorff Hyd Braich yn fuddiol. Bydd yr offeryn yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â chyrff hyd braich er mwyn cytuno ar broffil risg y sefydliad ac i helpu i lywio trafodaethau gyda Gweinidogion o ran amseru adolygiad y sefydliad. Rwy'n gobeithio y bydd y broses adolygu ar waith erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf.
- Cyflogau, gwobrau a chydnabyddiaeth cyrff cyhoeddus. Gwelais hwn fel cyfle i gysoni trefniadau ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a darparu un pwynt cyswllt cyffredin ar gyfer y cyrff hyn. Y nod yw darparu cyngor ar arfer gorau ar draws y sector, gan gydnabod er bod cysondeb yn bwysig, nad yw yr un ffordd yn addas ym mhob achos. Rydym ar hyn o bryd wrthi'n datblygu cynigion ar ganllawiau cylch cyflog cyrff hyd braich a chyngor ar systemau tâl, gwobrwyo a diswyddo.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae symud y gwaith hwn i uned bwrpasol eisoes yn ein galluogi i ganolbwyntio mwy ar gasglu gwybodaeth a deall y problemau; gofynion adrodd ar Dryloywder Tâl Uwch Reolwyr a'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau; polisi cyflog sector cyhoeddus Cymru; a newidiadau pensiwn.

- Rydym yn sefydlu Rhwydwaith o Gefnogwyr i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cwrdd yn rheolaidd ac yn rhannu arfer gorau. Bydd yn cael ei reoli a'i arwain gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Bydd ar waith erbyn mis Tachwedd. Rwyf wedi cytuno bod yn rhaid i gefnogwyr arweiniol fod ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr fan leiaf a byddant yn cyflawni rôl i wella perthynas. Mae'r rôl rheoli perthynas hon yn cael ei chynnwys wrth lunio fframwaith cymhwysedd a pherfformiad yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn cydweithio ag Academi i gyflwyno rhaglen ddysgu a datblygu ar Adeiladu Perthnasoedd Effeithiol ar gyfer ein rheolwyr perthnasoedd newydd

***Argymhelliad 2 - "Datblygu cynigion gyda'n cyrff Hyd Braich i gyflawni swyddogaethau 'swyddfa gefn' Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru mewn ffordd gydgysylltiedig a defnyddio contractau fframwaith mawr yn well er mwyn ysgogi arbedion effeithlonrwydd."***

Rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd gyda'r argymhelliad hwn er y bydd yn cymryd cryn amser i'w roi ar waith ac mae'n debyg y bydd angen ei ymestyn dros sawl blwyddyn. Yn y tymor byr, mae cyrff Hyd Braich yn gaeth fel arfer i'w contractau eu hunain nad oes modd eu diddymu heb gosbau sylweddol. Ond rydym wedi dechrau sgwrs gyda'n cyrff ynghylch lle y gellir dod o hyd i'r cyfleoedd gorau a chyflymaf i sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy gontractau fframwaith.
Mae'r Prif Weithredwyr ar y cyd yn awyddus i ganolbwyntio ar yr agenda effeithlonrwydd ac roeddent wedi dechrau edrych ar eu gweithgareddau a'u hadnoddau - pobl, egni ac ymrwymiad ac nid arian yn unig – a sut, drwy gydweithio, y gallent ryddhau'r rhain i gynyddu gwerth cyhoeddus. Cafwyd trafodaethau cadarnhaol iawn a chytundeb cyffredinol y byddwn yn parhau i gydweithio ar yr agenda cydwasanaethau ar sail 'dewis a dethol' sy'n esblygu. Rwy'n cydnabod efallai y bydd angen modelau a dulliau gweithredu gwahanol arnom ledled Cymru, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Mae darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn gyfle cynnar. Nid yw'r rhan fwyaf o'n cyrff Hyd Braich yn rheoli eu gwasanaethau archwilio mewnol eu hunain, yn hytrach, mae pob un yn unigol yn gosod gwaith ar gontract allanol, i'r sector preifat gan amlaf. Mae modelau yn y GIG yng Nghymru, ac Adrannau'r Llywodraeth yn Whitehall, sy'n dangos y gellir darparu cydwasanaeth archwilio mewnol effeithiol ac effeithlon ar draws ystod o gyrff. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn arwain yr agwedd benodol hon ar y cynigion ar ein rhan ond rydym yn ei drin fel prosiect ar y cyd

gyda'r cyrff Hyd Braich eu hunain. Y gobaith yw y bydd gennym gynlluniau pendant i'w rhoi ar waith erbyn mis Ebrill nesaf.

***Argymhelliad 3 - "Asesu pa mor gost-effeithiol ydyw i swyddogion Llywodraeth Cymru ddarparu gwasanaethau 'ysgrifenyddiaeth' i'r 16 o bwyllgorau, paneli apelio a thribiwnlysoedd a gwneud cynigion i gydgrynhoi'r adnodd hwn".***

Rwyf wedi sefydlu ysgrifenyddiaeth gyffredin, dan oruchwyliaeth fy swyddfa i, ar gyfer prif bwyllgorau swyddogol mewnol Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu o dan fy Mhwyllgor Gweithredol. Rwy'n rhagweld y bydd y trefniadau newydd hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ac at weithredu'r grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i'm cefnogi yn y gwaith o redeg Llywodraeth Cymru mewn modd mwy effeithiol. Ar ôl i hyn ymsefydlu byddwn yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd ac yn ceisio eu cymhwyso er mwyn cydgrynhoi gwasanaethau ysgrifenyddiaeth ar raddfa ehangach ar draws Llywodraeth Cymru.

***Argymhelliad 4 - "Symleiddio'r ffordd y caiff y taliad cymorth grant ei weinyddu gan barhau â threfniadau craffu trwyadl".***

Rwyf wedi sefydlu ffrwd waith Grantiau a Sicrwydd i adnabod grantiau sydd â chylch gwaith neu gyfrifoldebau tebyg neu sy'n gorgyffwrdd, a/neu sail arall dros gyfuno, rhesymoli neu ddod â'r gwaith i ben, os yw'n briodol. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau gyda chefnogaeth Gweithgor Grantiau. Mae'r Gweithgor Grantiau wedi datblygu Model Gweithredu Targed sy'n adlewyrchu'r prosesau gwneud cais a rheoli grant o'r dechrau i'r diwedd.

Gwnaed cynnydd da o ran datblygu Panel Sicrwydd Grantiau. Mae'r Panel wedi'i sefydlu ac mae'n darparu cyngor, her a sicrwydd i reolwyr grantiau wrth iddyn nhw sefydlu eu cynlluniau grant. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ym mis Medi.

Rwyf wedi cytuno i sefydlu Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog cyn bo hir i ddarparu "prawf iechyd" corfforaethol i'r sefydliadau a ariennir gennym gyda'r nod o wella cysondeb, darparu mwy o gefnogaeth i feysydd polisi ac i ddarparu mwy o unffurfiaeth o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn delio â chyrff allanol.

Rydym wrthi'n edrych ar wella cysondeb a chydymffurfiaeth, lleihau'r baich gweinyddol i randdeiliaid a gwella'r trywydd archwilio drwyddi draw. Fel rhan o hyn, mae fy nhîm grantiau wrthi'n ymchwilio i ddatrysiad TGCh a fyddai'n addas fel rhaglen ddigidol.

***Argymhelliad 5 - "Symud o ddefnyddio llythyrau cylch gwaith 'blynyddol', dyfarnu cyllidebau a chynlluniau busnes i fabwysiadu dull 'Telerau Llywodraeth' a fydd yn hwyluso cynllunio ar gyfer y tymor hwy ac yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i'n Cyrff***

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

***Hyd Braich, ac yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau trosolwg".***

Croesawyd y cam hwn tuag at berthynas fwy strategol, a fydd yn cysylltu gweithgareddau pob corff unigol â'r cyfraniad y gall wneud at Raglen y Llywodraeth ac sy'n annog mwy o weithio cydgysylltiedig rhwng cyrff, yn eang gan Gadeiryddion a Byrddau fel cam cadarnhaol ymlaen. Y bwriad yw cyhoeddi set gyntaf o lythyrau Telerau'r Llywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

***Argymhelliad 6 - "Sefydlu Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus (rhwydweithiau ar gyfer Cadeiryddion, Prif Weithredwyr a noddwyr ac arweinwyr polisi) i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn well, a fydd yn arwain at gynllunio mwy effeithlon a phenderfyniadau gwell".***

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus, a fynychwyd gan Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr y rhan fwyaf o gyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth. Roeddwn yn hynod falch o allu bod yno a chyfrannu at y digwyddiad, gan fy mod yn ei ystyried yn ddatblygiad pwysig sydd i'w groesawu. Daeth rhai themâu cyson i'r amlwg inni eu hystyried ymhellach ar y cyd:

- parchu 'annibyniaeth' pob sefydliad a chydnabod hefyd cyd-ddibyniaeth y naill ar y llall;
- gwella cyfathrebu dwy ffordd;
- cyd-gefnogaeth – gwir bartneriaeth;
- gweithio ar y cyd – "Tîm Cymru";
- rhannu adnoddau ar gyfer staff swyddfa gefn a rheng flaen;
- sesiynau sefydlu unigol a bwrdd a sesiynau ymwybyddiaeth llywodraethu;
- deall Model Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Ffyniant i Bawb;
- amrywiaeth; a
- rhannu problemau, atebion ac arfer gorau.

Roedd yr adborth gan y rhai a oedd yn bresennol yn hynod frwdfrydig a chadarnhaol ac mae cyfarfod nesaf y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus wedi'i drefnu yn Aberystwyth yn nes ymlaen eleni lle y byddwn yn trafod rhai o'r materion hyn yn fanylach.

***Argymhelliad 7 - "Datblygu 'Porthol Llywodraethu' Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso cyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws sectorau drwy roi platfform ar gyfer rhannu cynlluniau busnes a llythyrau cylch gwaith Cyrff Hyd Braich, ac i ddarparu fforwm ar gyfer trafodaethau ar-lein".***

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wrthi'n ymchwilio gyda noddwyr, Swyddfa'r Cabinet a'r Arweinwyr Cyhoeddus i ba wybodaeth fyddai o fudd ei rhannu er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gwell cydweithio ar draws y sectorau. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau byddwn yn datblygu'r platfform i alluogi hyn i ddigwydd – "dewis ffurf ar ôl dewis diben". Fy mwriad yw rhoi hyn ar waith erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

***Argymhelliad 8 - "Meithrin mwy o allu yn yr Uned Penodiadau Cyhoeddus er mwyn datblygu ffynhonnell o dalent ar ffurf darpar ymgeiswyr i'w penodi i fyrddau, gwella trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth ac amrywiaeth mewn penodiadau".***

Mae'r Uned Penodiadau Cyhoeddus wedi'i chryfhau ac mae bellach yn rhan o'r Uned Cyrff Cyhoeddus. Rydym wedi datblygu'r gallu i reoli penodiadau cyhoeddus yn ganolog o fewn yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac o 1 Tachwedd byddwn yn cynnal pob ymgyrch o fewn y tîm.

Rydym wedi symud 6 ymgyrch benodi i'r Uned Cyrff Cyhoeddus, fel lansiad meddal, i brofi ein cydnerthedd o ran adnoddau ac i sicrhau bod gennym y capasiti a'r gallu i reoli'r penodiadau hyn yn effeithiol ac yn effeithlon pan fyddwn yn dod yn gyfrifol am y cyfan.

Ei blaenoriaeth gyntaf, ar gais Gweinidogion, yw mynd ati i gynyddu amrywiaeth y gronfa o ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Rwyf wedi penodi rheolwr 'Estyn Allan' sy'n gyfrifol am greu llif o ymgeiswyr amrywiol ar gyfer penodiadau yn y dyfodol ac i ddatblygu trefniadau hyfforddi a mentora ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi'u penodi a'r rhai sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer penodiadau yn y dyfodol.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wrthi'n cynllunio cynllun gweithredu fydd yn cynnwys cyfathrebu'r cyfleoedd ar Fyrddau yn ehangach, mwy o bwyslais ar annog pobl o gefndiroedd amrywiol i ymgeisio a mynd ar drywydd y rhai y bu ond y dim iddynt fod yn llwyddiannus. Fel un o'i gweithgareddau cyntaf, mae'r Uned Penodiadau Cyhoeddus wedi trefnu seminar ar 24 Medi ac wedi gwahodd aelodau o Fyrddau Cyhoeddus sydd wedi datgelu, drwy'r broses benodi, bod ganddynt anabledd i drafod eu profiadau o ran ymgeisio am y rôl ac ymgymryd â'r swydd.

Bydd yr Uned hefyd yn canolbwyntio ar geisio cael gwell cydbwysedd o ran amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac yn cael cyngor yn y gwaith hwn gan Kathryn Bishop, Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru sydd hefyd yn gyn Gomisiynydd i'r Gwasanaeth Sifil.

Rwy'n gobeithio bod y diweddariad hwn yn rhoi blas i'r Pwyllgor o'r cynnydd rydym yn ei wneud. Byddaf, wrth gwrs, yn fwy na bodlon ymhelaethu ar bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad pan fyddaf yn ymddangos ger eich bron ar 15 Hydref pe bai hynny o fudd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# Eitem 3



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2017-2018













llyw.cymru

ISBN digidol 978-1-78937-437-7 © Hawlfraint y Goron 2018 WG34986

# Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol



Shan Morgan

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy ail gyfrifon cyfunol ar ran Llywodraeth Cymru. Gan i mi ymuno â'r sefydliad tua diwedd blwyddyn ariannol 2016-17, dyma fy mlwyddyn gyntaf lawn yn y swydd ac wrth edrych yn ôl, mae wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol gyda llawer i adrodd arno.

## Ein blaenoriaethau

Fy mhrif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn yw sicrhau bod y sefydliad yn gallu ymateb yn gyflym ac effeithiol i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ogystal â pharhau i gyflawni'n rhwymedigaethau statudol yn effeithiol ac o fewn y gyllideb.

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd y Prif Weinidog Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol ynghyd â'n hamcanion diwygiedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Am y tro cyntaf, mae gweledigaeth a phwrpas ein Llywodraeth, a'n prif flaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio i'w gweithredu, wedi'u nodi'n glir a chyson mewn un ddogfen. Mae'n golygu bod gan y sefydliad lasbrint i ysgogi'n gwaith am weddill y weinyddiaeth. Bu hyn o gymorth i mi egluro beth rwy'n ei ddisgwyl gan bawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru – mae angen i ni i gyd berfformio i safon uchel, gydag awydd cryf i wella, dysgu a datblygu. Sefydlais fenter Diogelu'r Dyfodol i'n cynorthwyo ni i gyflawni hyn ac mae eisoes yn sicrhau gwelliannau.

Mae Brexit yn parhau i fynd â llawer o sylw Llywodraeth Cymru ac mae nifer o gyhoeddiadau wedi'u cynhyrchu i fynd i'r afael â'r prif faterion. Gallwch ddarllen mwy am y rhain yn yr adroddiad blynyddol. Rwyf hefyd wedi cynnwys manylion am flaenoriaeth arall, yr Awdurdod Cyllid Cymru newydd, a gafodd ei lansio'n llwyddiannus ym mis Ebrill. Roedd y lansiad hwn yn garreg filltir bwysig yn hanes datganoli yng Nghymru, gyda chyflwyno'r trethi cartref cyntaf yng Nghymru ers 800 o flynyddoedd.

## Ein pobl

Yn ogystal â chynnal ymgyrch recriwtio llwyddiannus i lenwi dwy swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol gyfredol, rwyf hefyd wedi atgyfnerthu ein strwythur uwch arweinwyr drwy greu swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol ychwanegol i ganolbwyntio ar yr heriau strategol a chyfansoddiadol mawr a wynebwn. Bydd y tîm arwain cryfach hwn yn fy helpu i arwain y sefydliad drwy'r heriau y byddwn ni'n eu hwynebu'n ddi-os dros y blynyddoedd nesaf

Cefais gyfle i ymweld â llawer o'n swyddfeydd i siarad yn uniongyrchol â phobl am 'Diogelu'r Dyfodol' ac i glywed eu hawgrymiadau am sut gallwn ni wella'n perfformiad. Yn ogystal â chael adborth wyneb yn wyneb, roedd canlyniadau'r Arolwg Pobl blynyddol yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n falch iawn fod ein sgôr ymgysylltu yn parhau i fod yn uwch na'r meincnod ar gyfer y Gwasanaeth Sifil cyfan, ond rwy'n cydnabod bod lle i wella o hyd a byddwn yn gweithio ar hyn gydol y flwyddyn sydd i ddod.

Mae ein sgorau cynhwysiant a thriniaeth deg hefyd yn llawer uwch na meincnod y DU ond serch hynny mae yna ormod o bobl o hyd heb gael eu darbwyllo bod modd herio ymddygiad amhriodol neu fynd i'r afael ag ef yn effeithiol. Sefydlais adolygiad i sicrhau bod gennym weithle cynhwysol lle mae pawb yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i wneud ei orau – mae hyn yn bwysig iawn i mi.

Rwy'n falch o'r hyn a gyflawnwyd gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Rwy'n ddiolchgar i'm holl gydweithwyr am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb dros y 12 mis diwethaf. Rwy'n hyderus y gallwn barhau i adeiladu ar hyn yn ystod y cyfnod adrodd nesaf a thu hwnt.

# Cynnwys


**Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol** **ii**

**Cipolwg ar Lywodraeth Cymru** **1**

**Adroddiad Atebolrwydd**

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 29

Datganiad Llywodraethiant 30

Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 49

Datganiad Colledion 63

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau 64

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cenedlaethol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 67

**Adroddiad Ariannol**

Datganiadau Ariannol 70

Nodiadau ar y cyfrifon 74

Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu 99

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**


Caiff cyfrifon Llywodraeth Cymru eu paratoi yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â hwy.

Gosodwyd hwy gerbron y Cynulliad yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

# Llywodraeth Cymru mewn rhifau


## Cyllid

£16bn
biliwn o wariant

69%
O arian cyllideb gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol

## 28 eiddo

**20** swyddfa yng Nghymru
**1** swyddfa yn Llundain
**7** eiddo arbenigol yng Nghymru




## Cyfanswm asedau

£25bn

5,015
staff

## Yn 2017-18

57%
Gostyngiad mewn carbon ers 2010/11

11%
Gostyngiad yn lefel y dŵr a ddefnyddiwyd yn sgil strategaeth lleihau dŵr a ddechreuwyd yn 2016/17

88%
Cynnydd yn ein lefelau ailgylchu – wedi codi **6%** ers 2016/17

## Cyfanswm allyriadau

Cyfanswm allyriadau gros ('000 $tCO_2e$)

| 2013–14 | 2017–18 |
|---|---|
| 9.2 | 5.4 |

Cyfanswm gwastraff (tunelli)

| 2013–14 | 2017–18 |
|---|---|
| 583 | 350 |

Tirlenwi (tunelli)

| 2013–14 | 2017–18 |
|---|---|
| 184 | 41 |

## Llwyddiannau Allweddol

12fed
(allan o **434** o gwmnïau) – Mynegai Stonewall o 100 Cyflogwr Gorau'r DU (wedi codi **13 safle**)

Statws aur
yng ngwobrau a:gender

Lefel 3 'Arweinydd'
Hyderus o ran Anabledd

Tudalen y pecyn 54

# Cipolwg ar Lywodraeth Cymru

## Trosolwg

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gweithio ar draws meysydd allweddol bywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg, yr economi, amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Cafodd ei sefydlu'n ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a oedd yn rhannu swyddogaethau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth). Ers hynny, mae Deddf Cymru 2014 wedi newid yr enw'n gyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Mae setliad datganoli Cymru wedi esblygu'n ddramatig ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999 ac mae'n parhau i ehangu wrth i bwerau newydd gael eu datganoli.

Dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau ac yn gyfrifol am gyflawni yn y meysydd a ddatganolwyd iddi, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu polisïau; sefydlu a chyfeirio gwaith cyflawni a llywodraethu; cynnig Deddfau Cymru (Biliau Cynulliad); a llunio is-ddeddfwriaeth, fel rheoliadau a chanllawiau statudol. Mae hefyd yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

Ar 1 Ebrill 2018, daeth model datganoli cadw pwerau i rym yng Nghymru, gan roi mwy o benderfyniadau yn nwylo Gweinidogion Cymru. Mae'r model newydd yn nodi'n glir beth sydd wedi'i ddatganoli, ac yn gyfrifoldeb ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a beth sydd wedi'i gadw – ac yn gyfrifoldeb ar Senedd San Steffan.

Mae'r rheoliadau hefyd yn gweithredu llawer o'r pwerau pellach a ddatganolwyd i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017, yn cynnwys pwerau dros etholiadau, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

## Ffyniant i Bawb

Mae strategaeth genedlaethol drawsbynciol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb', a gyhoeddwyd ar 19 Medi 2017 yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor llywodraeth hwn, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer gweithredu pellach dros y tymor hirach.

Mae'r strategaeth yn seiliedig ar ddeuddeg amcan llywodraeth gyfan o dan bedair thema: ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, ac unedig a chysylltiedig. Y deuddeg amcan hyn sy'n ganolog i'r strategaeth yw amcanion llesiant diwygiedig y Llywodraeth, sy'n nodi ei chyfraniad at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r strategaeth hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth: y blynyddoedd cynnar, tai,iechyd meddwl, sgiliau a gofal cymdeithasol, fel meysydd lle y gallai dull Llywodraeth gyfan sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor pobl.

Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir bod angen dull gwahanol yn ystod y weinyddiaeth hon, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru. I sicrhau llwyddiant, rhaid i holl rannau'r llywodraeth gydweithio a chanolbwyntio ar y meysydd lle gall llywodraeth wneud gwahaniaeth.

Bydd adroddiad blynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni amcanion y Llywodraeth, fel mater i Weinidogion Cymru, yn cael ei gyhoeddi ar wahân ac yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2018.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015 a daeth i rym ym mis Ebrill 2016. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae llawer wedi'i wneud ar weithredu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â chyrff eraill a thrwy weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ledled Cymru a thu hwnt.

Cymerwyd camau yn y meysydd canlynol:

- Yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, mae pob maes polisi a phortffolio'n gyfrifol am ymgorffori'r Ddeddf yn ei weithgareddau, polisïau a rhaglenni. Mae hyn hefyd yn golygu cydweithio ar draws portffolios er mwyn cyflawni amcanion niferus y saith Nod Llesiant a'r pum Ffordd o Weithio o Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf.
- Mae'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, daeth y blynyddoedd cynnar, tai, iechyd meddwl, sgiliau a gofal cymdeithasol i'r amlwg mewn sawl cyd-destun fel meysydd lle gallai dull Llywodraeth gyfan sicrhau'r cyfraniad gorau at ffyniant a llesiant hirdymor pobl. Drwy gyflawni'r meysydd blaenoriaeth hyn rydym yn ystyried y ffordd orau o weithio ar draws y llywodraeth i wella sut rydym yn uno gwasanaethau, yn canolbwyntio'n hymdrechion ar y pethau pwysig ac yn gweithio'n wahanol gyda'n partneriaid i gael mwy o effaith.
- Penodwyd Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i arwain ystyriaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Hyrwyddwr hefyd yn arwain Grŵp Sicrwydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, grŵp trawslywodraeth sy'n cynnwys y rhai sy'n gyfrifol am elfennau statudol neu weithredol bwysig o ddyletswyddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf. Bydd y grŵp hwn yn gyfrwng ar gyfer integreiddio, cydweithio, newid a monitro cynnydd ar draws y llywodraeth yn ogystal â sbarduno newid mewn meysydd eraill fel datblygu ac integreiddio polisi. Bellach mae tîm canolog bychan yn cefnogi gwaith y sefydliad ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae'r sefydliad wedi gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu a mabwysiadu proses sicrwydd gryfach. Cyflwynwyd proses ar gyfer papurau allweddol y Cabinet gyda "sesiynau herio" yn cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i bapurau gael eu datblygu i sicrhau dull trawslywodraeth o lunio polisïau.
- Mae darn mawr o waith wedi'i gyflawni i ddatblygu Fframwaith Asesu Effaith Integredig newydd a chanllawiau sy'n ystyried gofynion llesiant cenedlaethau'r dyfodol ynghyd â dull symlach o asesu effaith ar gyfer rhwymedigaethau statudol eraill fel Cydraddoldeb a dyletswyddau Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig.
- Darparwyd pecyn cymorth i'r Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd, a sefydlwyd o dan y Ddeddf i gydweithio i wella llesiant ardal awdurdod lleol. Mae'r cymorth yn 2018-19 yn canolbwyntio ar gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gwblhau eu cynllun llesiant ac yna cyflawni yn ei erbyn.
- Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan yng Ngrŵp Rhannu Cyrff Cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Grŵp yn galluogi cyrff cyhoeddus sy'n destun y dyletswyddau i ddod ynghyd i drafod dulliau gweithredu cyffredin, cyfleoedd cydweithio

a rhannu arferion gorau yn achos cyflawni rhwymedigaethau. Mae hyn yn cynnwys meysydd strategaeth sefydliadol; ystyried synergeddau ar draws cyrff cyhoeddus ac amcanion llesiant; hyfforddiant a llywodraethu; cyd-gynhyrchu a gweithio gyda'r trydydd sector; cynlluniau caffael peilot; gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar ddull cyffredin o gyflawni gwaith peilot y Swyddfa; rhannu astudiaethau achos; ac anghenion ymchwil cyffredin a bylchau tystiolaeth.

- Darparwyd cymorth uniongyrchol i bob Corff Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd o dan y Ddeddf i edrych ar amcanion llesiant a chyflawni yn lleol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gydol y flwyddyn ar waith fel datblygu dull archwilio a methodoleg cyffredin ar gyfer archwiliadau llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar draws cyrff gwasanaethau cyhoeddus, a chyflwyno "Flwyddyn yn Ddiweddarach" i Archwilydd Cyffredinol Cymru fel rhan o'r broses adrodd ar gynnydd hyd yn hyn.
- Cyhoeddwyd yr adroddiad Llesiant Cymru cyntaf gan y Prif Ystadegydd ym Medi 2017, gan ddefnyddio'r 46 dangosydd cenedlaethol statudol fel sail. Nid yw'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn ymwneud â pherfformiad unrhyw sefydliad. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r newidiadau cyfunol yng Nghymru gyfan.
- Cyhoeddwyd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017 ac mae Grŵp Llywio Tueddiadau'r Dyfodol dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r adroddiad yn ceisio newid y ffordd o feddwl am gynllunio hirdymor ac yn cymryd golwg ehangach ar draws portffolios y llywodraeth, gan ddod â thueddiadau amrywiol ynghyd ac ystyried y rhyng-gysylltiadau rhyngddynt.
- Mae cyfres o weithdai llesiant cenedlaethau'r dyfodol wedi'u datblygu a'u darparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a WWF Cymru, rhan o brif sefydliad cadwraeth annibynnol y byd. Roedd y gweithdai'n dod ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch gynrychiolwyr y trydydd sector a sefydliadau anllywodraethol ynghyd. Roeddent yn nodi nifer o feysydd allweddol ar gyfer cynnydd yn cynnwys caffael, meithrin gallu a datblygu ac amrywiaeth o ffactorau eraill sy'n allweddol i sut y gellid cyflawni newid "Llywodraeth gyfan" systemig mewn ymateb i'r Ddeddf. Mae adroddiad yn cael ei gynhyrchu yn cwmpasu canlyniadau'r gweithdai hyn i fod yn sail ar gyfer gweithredu pellach.
- Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi bod yn hyrwyddo dull mwy cydweithredol o gyflawni llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy'r broses gyllidebu a blaenoriaethu strategol ac wedi cynnal cyfarfodydd gyda chydweithwyr yn y cabinet i bwysleisio ei bwysigrwydd ar draws y llywodraeth. Mae hyn yn helpu i gryfhau cydweithio, ymgysylltu a chyfranogiad ar draws meysydd portffolio.
- Mae'r fersiwn ddrafft newydd o Bolisi Cynllunio Cymru'n rhoi'r cysyniad o 'greu lleoedd' yn ganolog i bolisi cynllunio cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar sut y gall y system gynllunio helpu i wella llesiant pobl yng Nghymru a chyflawni ethos llesiant cenedlaethau'r dyfodol o fewn yr amgylchedd adeiledig. Yn ogystal, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gynllun defnydd tir cenedlaethol ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni nodau llesiant dros gyfnod o 20 mlynedd.

# Y Cabinet



**Cyn Tachwedd 2017, y Cabinet a'r Gweinidogion oedd:**

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones | Y Prif Weinidog |
| Jane Hutt | Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip |
| Mark Drakeford | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Vaughan Gething | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Lesley Griffiths | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Carl Sargeant | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Ken Skates | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |
| Kirsty Williams | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| Alun Davies | Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |
| Rebecca Evans | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Julie James | Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth |
| Mick Antoniw | Y Cwnsler Cyffredinol |


**O fis Tachwedd 2017 y Cabinet a'r Gweinidogion yw:**

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones | Y Prif Weinidog |
| Julie James | Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip |
| Alun Davies | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Mark Drakeford | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid |
| Vaughan Gething | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lesley Griffiths | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig |
| Ken Skates | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Kirsty Williams | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| Hannah Blythyn | Gweinidog yr Amgylchedd |
| Huw Irranca-Davies | Y Gweinidog Plant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Tai ac Adfywio |
| Eluned Morgan | Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |
| Dafydd Elis Thomas | Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon |
| Jeremy Miles | Y Cwnsler Cyffredinol |

# Gwariant Llywodraeth Cymru

Mae lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru'n cael ei bennu drwy Adolygiadau Gwariant Llywodraeth y DU. Proses dan arweiniad y Trysorlys yw hon i ddyrannu adnoddau ar draws holl Adrannau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae addasiadau i lefel cyllid Cymru – rhai negyddol neu gadarnhaol – yn cael eu pennu drwy Fformiwla Barnett.


## Gwariant Net yn 2017-18




Tudalen y pecyn 60

# Ffiniau Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru 2017-18

O ystyried cwmpas y cyfrifoldebau datganoledig, mae Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yn cynnwys craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) a Grŵp Llywodraeth Cymru (cyfuno gyda Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, Cyllid Cymru, Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, WG Holdco Ltd a Dewisiadau Gyrfa). Er bod Llywodraeth Cymru'n ariannu Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff Comisiynwyr, nid ydynt wedi'u cyfuno yn y Cyfrifon Blynyddol.



# Mantolen Llywodraeth Cymru

Mae Mantolen Llywodraeth Cymru, a ddisgrifir fel 'Datganiad o Sefyllfa Ariannol' yn y Cyfrifon, yn cynnwys tair prif eitem:

- Eiddo, peiriannau a chyfarpar – prisiad cyfredol yr ased Rhwydwaith Ffyrdd yn bennaf (£16 biliwn).
- Portffolio eiddo'r Byrddau Iechyd Lleol (£3 biliwn).
- Asedau ariannol – prisiad cyfredol llyfr Benthyciadau Myfyrwyr Cymru yn bennaf (£3 biliwn).

## Rhwydwaith Ffyrdd

Fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol gyfrifol am gynnal a chadw, gweithredu a rheoli'r ased hwn sy'n werth £16 biliwn. Mae yna dros 75 milltir o draffordd a thros 1,000 milltir o gefnffordd. Mae elfennau allweddol y rhwydwaith yn cynnwys pontydd, twneli, waliau cynnal a nenbontydd. Mae yna dros 3,700 o strwythurau o'r fath ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd ledled Cymru gyda gwerth amcangyfrifiedig o tua £4.8 biliwn. Mae yna bum twnnel ffordd ar y rhwydwaith yng Nghymru.

## Portffolio eiddo'r Byrddau Iechyd Lleol

Mae seilwaith y GIG yn cynnwys tir ac adeiladau, ac asedau ffisegol arwyddocaol eraill hefyd yn cynnwys cerbydau, cyfarpar meddygol, cyfarpar a seilwaith Technoleg Rheoli Gwybodaeth. Mae'r ased cyfunol yn werth £3.1 biliwn, ac mae hyn yn cwmpasu pob lleoliad gofal iechyd yn cynnwys gofal acíwt, gofal sylfaenol a gofal cymunedol. Mae gan y GIG 22 o brif safleoedd ysbytai ledled Cymru sy'n cael eu gweithredu gan y byrddau iechyd lleol er bod tua 22 o safleoedd ysbytai llai. Mae ystad y Byrddau Iechyd Lleol yn cynnwys yn bennaf adeiladau sy'n werth dros £2.3 biliwn, tir sy'n werth £0.3 biliwn, cyfarpar sy'n werth £0.3 biliwn ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu gwerth £0.2 biliwn.

## Llyfr Benthyciadau Myfyrwyr

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch yn y DU. Mae costau'n dibynnu ar alw ac yn gallu amrywio. At ddibenion cyllidebu, amcangyfrifir cost darparu benthyciadau myfyrwyr drwy ddefnyddio model rhagweld. Bydd dadansoddiad sensitifrwydd yn cael ei gynnal i fesur effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau modelu allweddol (er enghraifft, niferoedd myfyrwyr). Mae hyn yn unol â chanllawiau safonol Trysorlys EM.

# Y Trefniadau Pontio Ewropeaidd

Mae tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn arwain y gwaith o ddatblygu polisi strategol ac yn cydgysylltu gwaith Llywodraeth Cymru ar ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r tîm yn parhau i weithio'n agos â thîm Llywodraeth Cymru ym Mrwsel a chydag adrannau Whitehall.

- Mae'r Grŵp Cynghori Ewropeaidd allanol yn cynghori Llywodraeth Cymru ar sut bydd ymadawiad y DU â'r UE yn effeithio ar Gymru.
- Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn darparu cyfeiriad strategol ac yn sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol yn cael eu cymryd i sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru wrth i'r DU adael yr UE.
- Mae Grŵp Swyddogion Trefniadau Pontio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru, grŵp trawsadrannol, yn cefnogi Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.
- Mae'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn parhau drwy drefn gyfredol Cydbwyllgor y Gweinidogion a chyswllt uniongyrchol ar lefelau swyddogion.

**Mae tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn hyrwyddo buddiannau a blaenoriaethau strategol a nodwyd yn y Papur Gwyn, 'Diogelu Dyfodol Cymru' (Ionawr 2017), ac mae'r gwaith hyd yn hyn wedi arwain at y dogfennau polisi canlynol:**

- 'Brexit a Datganoli' – glasbrint i waith adnewyddu cyfansoddiadol mawr yn y DU i ymateb i heriau Brexit ar gyfer y gwledydd datganoledig a llywodraethu'r DU yn y dyfodol (15 Mehefin 2017).
- 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl' – mwy o fanylion a thystiolaeth i gefnogi cynigion ar gyfer polisi mudo'r dyfodol (7 Medi 2017).
- 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' – datblygu syniadau ar ddyfodol polisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru (14 Rhagfyr 2017).
- 'Y Polisi Masnach: materion Cymru' – mynd i'r afael â'r prif faterion i'w hystyried wrth i'r DU ddatblygu cysylltiadau masnachu'r dyfodol gyda'r UE a gweddill y byd (2 Chwefror 2018).

**Mae'r datganiadau polisi i'w gweld yn: www.beta.llyw.cymru/brexit**

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (y Bil Diddymu Mawr gynt), i drosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig adeg gadael yr UE. Datganodd Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd y Bil fel ag yr oedd yn dderbyniol ac ar ôl misoedd o drafodaethau dwys, cyhoeddwyd ar 24 Ebrill 2018 bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau newidiadau sylweddol i'r Bil a oedd yn diogelu datganoli. Fel rhan o gytundeb rhynglywodraethol ehangach, daeth Gweinidogion Cymru i gytundeb â Llywodraeth y DU ar y Bil arfaethedig gan sicrhau y bydd meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli yn parhau i fod felly. Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban i ddatblygu fframweithiau cyffredin ar gyfer meysydd polisi sy'n gweithredu o dan reoliadau'r UE ar hyn o bryd i sicrhau cydgysylltu effeithiol ledled y DU ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

Tra bod trafodaethau'n mynd yn eu blaen gyda Llywodraeth y DU, amlinellodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno Bil Brys i ddiogelu datganoli, a arferai gael ei alw yn Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru). Fodd bynnag, yn dilyn newidiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r cytundeb rhynglywodraethol, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gymryd camau i ddiddymu'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Ar 8 Ionawr 2018, lansiwyd Cronfa Bontio'r UE. Gyda chefnogaeth gychwynnol o £50 miliwn, bydd yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau allweddol eraill yng Nghymru, i ddarparu cymorth wedi'i deilwra wrth i'r DU baratoi i adael yr UE. Bydd y gronfa'n darparu cyfuniad o gymorth ariannol a benthyciadau ac, yn arbennig, bydd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu cyngor technegol, masnachol, sector-benodol a chysylltiedig ag allforio i fusnesau. Bydd yn canolbwyntio ar gefnogi prosiectau strategol ac arloesol.

Dylai parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU fod yn flaenoriaeth er mwyn osgoi bargen wael i Gymru, yn enwedig wrth i ail gam y trafodaethau gychwyn ar y berthynas â'r UE yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys ystyried amrywiaeth eang o faterion datganoledig.

Fel rhan o fenter Diogelu'r Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol, mae'r sefydliad yn ystyried yn ofalus rolau a chyfrifoldebau a'r set sgiliau angenrheidiol i ddiwallu anghenion Cymru wrth i'r DU adael yr UE.

# Cymru ddatganoledig

Newidiodd Deddf Cymru 2017 y dirwedd ddatganoledig yng Nghymru, yn enwedig y newid i fodel cadw pwerau o ddatganoli. Daeth y setliad datganoli newydd i rym ar 1 Ebrill 2018 a bellach gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu ar unrhyw bwnc nad yw wedi'i gadw i Senedd y DU. Mae hyn yn cysoni setliad datganoli Cymru â systemau datganoli'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal â diwygio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae Deddf Cymru 2017 yn gwella pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn nifer o feysydd polisi, yn cynnwys pwerau newydd dros etholiadau, dŵr, trafnidiaeth ac ynni, a chreu swydd newydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Trosglwyddwyd rhagor o bwerau gweithredol drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 a Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rheilffyrdd) 2018. Roedd y rhain yn cyd-fynd â gweithredu prif ddarpariaethau Deddf Cymru ac yn rhoi amrywiaeth o bwerau newydd i Weinidogion Cymru mewn meysydd fel etholiadau, argyfyngau sifil, cyflogau ac amodau athrawon a rheilffyrdd.

## Biliau'r Cynulliad a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol yn 2017-18

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Cyflwynwyd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn Rhagfyr 2016 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol yn Ionawr 2018. Mae'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc 0-25 oed drwy gyrff llywodraethu ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Bydd cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn disgrifio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen, a chan ba ddarparwr, yn cynnwys gan gyrff iechyd lle bo'n berthnasol. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft, plant sy'n derbyn gofal. Bydd y Ddeddf a'r system mae'n ei chreu'n disodli'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau ar wahân sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae'r Ddeddf yn parhau â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac yn ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

### Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

Derbyniodd y Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Bydd yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn dod i ben yng Nghymru ar 26 Ionawr 2019. Ar hyn o bryd, gall rhai tenantiaid cymdeithasol arfer yr hawliau hyn i brynu eu cartrefi gan eu landlord am bris gostyngol. Bydd dileu'r hawl i brynu yn diogelu'r stoc tai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn annog adeiladu stoc newydd o dai cymdeithasol heb y risg iddynt gael eu gwerthu o fewn cyfnod byr.

Cyflwynwyd y Biliau canlynol i'r Cynulliad gan Lywodraeth Cymru:

### Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

Cyflwynwyd Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017. Ers y cyfnod adrodd, mae'r Ddeddf wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 13 Mehefin 2018. Mae'n diwygio neu'n dileu'r pwerau y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r farn eu bod yn dangos rheolaeth gan lywodraeth ganolog a lleol dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi'r Swyddfa i ailddosbarthu'r Landlordiaid fel sefydliadau sector preifat ar gyfer cyfrifon cenedlaethol ac ystadegau economaidd eraill y Swyddfa.

### Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) Cymru

Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Hydref 2017 ac, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae wedi cyrraedd trydydd cam y broses ddeddfwriaethol. Os caiff ei basio gan y Cynulliad, bydd y Bil yn nodi isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan werthwyr alcohol ac yn ei gwneud hi'n drosedd gwerthu neu gyflenwi alcohol am lai na'r pris hwnnw.

Nod y Bil yw mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru am y niwed i iechyd a achosir wrth yfed gormod o alcohol. Yn arbennig, mae'r Bil yn targedu diogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol (yn cynnwys pobl ifanc) sy'n dueddol o yfed mwy o ddiodydd rhad sy'n cynnwys llawer o alcohol.

### Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod adrodd yn Ebrill 2018, cyflwynwyd Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio ac i lunio rheoliadau am drefniadau gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath. Bydd y Bil yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth er mwyn gallu asesu eu cymhwysedd i gael y cyllid a bydd yn gwneud darpariaeth a fydd yn galluogi adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU i rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru at ddibenion penderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys ai peidio. Mae'r llwybrau rhannu data hyn yn rhan annatod o'r broses lle gall rhieni cymwys ymgeisio am gyllid a darparu tystiolaeth o'u cymhwysedd drwy system ddigidol yn bennaf.

# Ystyried yr achos am dreth newydd i Gymru

Roedd Deddf Cymru 2014 yn datganoli amrywiaeth o bwerau trethu a benthyg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru greu trethi hollol newydd i Gymru, yn amodol ar gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd.

Yn haf 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y byddai'n ystyried yr achos dros ddatblygu treth newydd i Gymru. Yn ystod yr wythnosau canlynol, derbyniodd Llywodraeth Cymru ddwsinau o lythyrau ac e-byst gan aelodau'r cyhoedd, tra bod cannoedd o ymatebion pellach wedi'u rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol. Ym mis Hydref, ar ôl ystyried mwy na 60 o gynigion, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid restr fer o bedwar syniad y gellid dewis treth newydd o'u plith:

- Heriau mwy hirdymor i ariannu gofal cymdeithasol: ystyried ysgogiadau ariannol posibl yn cynnwys trethi i gefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Treth genedlaethol ar dir gwag: ystyried effeithlonrwydd treth i gyflawni amcan polisi Llywodraeth Cymru i wneud defnydd cynhyrchiol o dir a nodwyd fel tir addas i'w ddatblygu.
- Treth ar ddeunydd plastig untro i gyflawni amcanion amgylcheddol: ystyried opsiynau ar gyfer treth neu ardoll ar ddeunydd plastig untro i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thargedau lleihau ac ailgylchu gwastraff.
- Treth dwristiaeth i gefnogi busnesau lleol: ystyried darpariaethau ar gyfer pwerau caniataol ar gyfer trethi llywodraeth leol.





Tudalen y pecyn 67

Ar ôl ystyried y cynigion ymhellach, yn cynnwys trafodaethau cychwynnol â grwpiau rhanddeiliaid a phleidlais anffurfiol ar y cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid ym mis Chwefror 2018 y byddai'n mynd ar drywydd treth ar dir gwag gyda Llywodraeth y DU.

Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cyllid hefyd y byddai gwaith pellach yn parhau ar y tri syniad arall ar amserlenni gwahanol. O ran gofal cymdeithasol, sefydlwyd grŵp rhyngweinidogol, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, i ystyried yr opsiynau – yn cynnwys trethi – ymhellach. O ran y deunyddiau plastig untro, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried mesurau trethu posibl yn y DU gan ddefnyddio ymatebion i'r alwad ddiweddar am dystiolaeth ar ddeunydd plastig untro, gan barhau hefyd i ystyried yr achos am dreth i Gymru. O ran treth dwristiaeth, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yn y tymor hir a ddylai hwn fod yn opsiwn i lywodraeth leol.

Mae'r broses y cytunodd Llywodraethau Cymru a'r DU arni ar gyfer creu treth newydd i Gymru yn un newydd i'r DU. Bydd yn cynnwys dau gam – yn gyntaf, bydd rhaid i ddau dŷ'r Senedd a'r Cynulliad gytuno ar ddatganoli cymhwysedd, ac yn ail bydd rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynigion polisi a deddfwriaethol i'r Cynulliad.

Bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus trwyadl i sicrhau bod y dreth tir gwag wedi'i chynllunio i gyflawni'r hyn a ddisgwylir, heb ganlyniadau negyddol anfwriadol. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n gynyddol â rhanddeiliaid i sicrhau eu barn a thystiolaeth, ac i sicrhau eu bod yn cael clywed am gynnydd.




Tudalen y pecyn 68

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru yn Hydref 2017 a dechreuodd gasglu'r trethi datganoledig – y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi – ar 1 Ebrill 2018. Mae'r Awdurdod yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru ac mae ei fwrdd yn cynnwys pum cyfarwyddwr anweithredol a Chadeirydd.

- Mae'r 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig swyddogol yng Nghymru nawr wedi cofrestru ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi gyda'r Awdurdod. Ar 3 Ebrill 2018, cyflwynwyd y ffurflenni a'r taliadau cyntaf ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi yn llwyddiannus i'r Awdurdod gan ddefnyddio ei system drethi ddigidol ar-lein.
- Cyhoeddwyd Siarter yr Awdurdod ar 29 Mawrth 2018 a'i Gynllun Corfforaethol ddiwedd Ebrill. Mae'r Siarter a'r Cynllun Corfforaethol yn nodi dull partneriaeth yr Awdurdod i weithio gyda threthdalwyr a'u cynrychiolwyr a sut y byddant yn cydweithio i alluogi pobl i dalu'r swm priodol o dreth ar yr adeg gywir.
- Bydd gan yr Awdurdod tua saith deg o staff yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r rhain yn perthyn i 14 proffesiwn gwahanol yn cynnwys y proffesiynau cyfreithiol, treth, data, digidol, ariannol a chyfathrebu.

Yn ogystal â chasglu a gweinyddu trethi newydd Cymru, bydd yr Awdurdod yn:

- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth am drethi datganoledig i Weinidogion Cymru ac i drethdalwyr a'u hasiantiaid;
- galluogi trethdalwyr a'u hasiantiaid i dalu'r swm priodol o dreth ar amser, y tro cyntaf;
- gweithio gyda threthdalwyr a'u hasiantiaid i ddatrys cwynion ac anghydfodau;
- galluogi cydymffurfiaeth a lleihau achosion o efadu trethi ac osgoi talu trethi;
- cynorthwyo gyda datblygu polisi trethi Llywodraeth Cymru.

# Y gwasanaeth sifil

Y gwasanaeth sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Prif Weinidog, Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Cryfderau craidd y gwasanaeth sifil – amhleidioldeb gwleidyddol; gweinyddiaeth effeithlon; llywodraethu da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn – darparu sylfaen gadarn i gefnogi Llywodraeth Cymru.

## Staff Llywodraeth Cymru

Mae gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru 5015 o staff mewn swyddfeydd ledled Cymru a thu hwnt.

## Swyddfeydd Llywodraeth Cymru

Yn Ebrill 2018, roedd yna:

**28 eiddo**

yn cynnwys **21** swyddfa a **7** safle nad yw'n swyddfa o gymharu â 2010 pan roedd yna **75** eiddo – **65** swyddfa a **10** safle nad yw'n swyddfa.

Mae Strategaeth Leoli 2015-20 yn parhau i leoli'r ystad ar draws 5 ardal ddaearyddol yng Nghymru a swyddfa ychwanegol yn Llundain.

Mae'r Strategaeth yn rhoi'r potensial i leihau cyfanswm yr eiddo i **24** gydag arbedion gros amcangyfrifiedig o £3.46 miliwn ac arbedion o £2.52 miliwn mewn costau rhedeg blynyddol.




## Gweinyddu ariannol

Mae uchafbwyntiau gweinyddu ariannol yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:



**90,106**

o anfonebau wedi'u talu gyda chyfanswm gwerth o **£897 miliwn** a **95%** wedi'u talu o fewn **10** diwrnod.



**373** o gynlluniau grantiau wedi'u gweinyddu, cyfanswm o

**£14.3bn**

**44%** o wariant caffael Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn ariannol 2017-2018 yn wariant gyda chwmnïau o Gymru.

# Uwch dîm arwain

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad a phrif was sifil Cymru. Mae staff yn gweithio mewn un o bum Grŵp dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol a phedwar Cyfarwyddwr Cyffredinol.



## Andrew Goodall

Andrew yw Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth strategol y GIG yng Nghymru ac yn gyfrifol am warchod arian y GIG yn gadarn drwy saith Bwrdd Iechyd Lleol a 3 Ymddiriedolaeth GIG sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Brif Weithredwr GIG Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Andrew yw uwch hyrwyddwr y Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig hefyd.

## Des Clifford

Des yw Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa'r Prif Weinidog a Grŵp Brexit sy'n darparu gwasanaethau i'r Prif Weinidog, Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion, yn cynnwys gwasanaethau cyfathrebu, gwasanaethau cyfreithiol, materion cyfansoddiadol a chysylltiadau rhynglywodraethol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Brexit, Swyddfa'r Cabinet, busnes y Cabinet a'r Llywodraeth ac agenda ryngwladol y Llywodraeth. Des yw uwch hyrwyddwr y rhwydwaith staff Symudedd Cymdeithasol a Hyrwyddwr Cymraeg y Bwrdd hefyd.

## Shan Morgan

Mae Shan yn arwain y sefydliad cyfan a Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cynnwys Trysorlys Cymru a'r adrannau Cyllid, Llywodraethiant ac Adnoddau Dynol. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu sefydliad hyderus, galluog a chadarn yn ogystal â darparu cyngor proffesiynol i Weinidogion a gweddill y sefydliad. Shan yw uwch hyrwyddwr y rhwydwaith staff Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd hefyd.

## Tracey Burke

Tracey yw Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae portffolio'r Grŵp yn cynnwys: addysg, llywodraeth leol, cymunedau, tai ac adfywio. Mae gwaith y Grŵp yn cynnwys trechu tlodi a digartrefedd, creu mwy o gydraddoldeb, diogelwch cymunedol a chydlyniant, a sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu diogelu ac yn cael y cymorth angenrheidiol. Yn ogystal â phennu'r agenda polisi ehangach ar gyfer awdurdodau llywodraeth leol yng Nghymru, mae'r Grŵp yn arwain rhaglen o ddiwygiadau ym myd addysg ac mewn llywodraeth leol. Tracey yw uwch hyrwyddwr y rhwydwaith staff Menywod Ynghyd hefyd.

## Andrew Slade

Andrew yw Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am greu economi gref, cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, datblygu system drafnidiaeth o'r radd flaenaf a chreu Cymru hynod addysgedig a hynod fedrus sydd â chyfraddau cyflogaeth uchel. Mae'r Grŵp hefyd yn gyfrifol am reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, goruchwylio system gynllunio Cymru, cefnogi'r gwaith o reoli'n sectorau amaethyddiaeth a bwyd a'u gallu i gystadlu a sicrhau iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal â gweithredu polisi datblygu cynaliadwy. Andrew yw uwch hyrwyddwr PRISM, y rhwydwaith staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, hefyd.

# Perfformiad gweinyddol

Nod y sefydliad yw bod yn dryloyw, hygyrch ac effeithlon wrth weinyddu. Mae uchafbwyntiau perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Yn 2017/18 roedd cyfanswm o **14032** darn o ohebiaeth Weinidogol (Gweinidogol ac I'w Drin yn Swyddogol). Atebwyd 88.9% o fewn yr amser gofynnol sef 17 diwrnod gwaith.
- **932** o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u derbyn gyda 782 (85%) wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen statudol.
- **73,724** o alwadau ffôn wedi'u derbyn gan y Ganolfan Cyswllt Cyntaf.
- **106** o gwynion wedi derbyn sylw o dan bolisi Cwyno Llywodraeth Cymru – 65 heb eu cadarnhau, 21 wedi'u cadarnhau yn rhannol a 20 wedi'u cadarnhau. Mae hyn yn ostyngiad o 21% ar nifer y cwynion a dderbyniwyd yn y cyfnod adrodd blaenorol. Cyflwynwyd 69% o ymatebion o fewn yr amser gofynnol.

Caeodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **43** o gwynion yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn 2016-17 – gweler dadansoddiad yn ôl canlyniadau isod. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sydd ar ei wefan. Nid yw ffigurau 2017-18 wedi'u cyhoeddi eto.

| Y tu allan i'r awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'eraill' a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Datrys yn gynnar/ Setliad gwirfoddol | Adroddiad Arall wedi'i Gadarnhau – yn gyfan neu'n rhannol | Cyfanswm Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 9 | 20 | 1 | 4 | 43 |

## Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Yn y misoedd ers i Safonau'r Gymraeg ddod i rym yn 2016 mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r fframwaith newydd. Mae'r gofynion wedi'u hymgorffori mewn arferion gwaith bob dydd, ac mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gynyddol ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ymwneud â Llywodraeth Cymru'n ddwyieithog. Mae'r Gymraeg i'w gweld a'i chlywed fwyfwy ledled Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf bydd gwaith yn parhau i hyrwyddo a hwyluso'r iaith ymhellach yn fewnol yn y sefydliad.

# Diogelu'n sefydliad i'r dyfodol

Mae menter Diogelu'r Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol yn ddull hirdymor i feithrin gallu a sgiliau gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni Ffyniant i Bawb.

**Mae diogelu'r dyfodol yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:**

**Sut rydym yn gweithio** – sicrhau bod ein ffyrdd o weithio, perfformiad a chynllunio datblygiadau yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cabinet yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol a busnes hanfodol a statudol y Llywodraeth.

**Sut rydym yn arwain** – cefnogi arweinwyr cydweithredol, cynhwysol a hyblyg sy'n gallu ysgogi, datblygu a grymuso timau ac unigolion sy'n cyflawni'n dda.

**Sut rydym yn dysgu** – datblygu gweithlu galluog a gwydn sy'n gallu addasu ac sy'n barod am y dyfodol yn ogystal â'r swyddi sydd eu hangen heddiw.

**Sut rydym yn cyflawni** – creu dull cadarn a datblygiadol o reoli perfformiad sy'n helpu pobl i ragori a system ddatblygu deg a chyfiawn sy'n darparu'r arweinwyr, rheolwyr ac arbenigwyr y bydd y sefydliad eu hangen yn y dyfodol.




Tudalen y pecyn 73

Ers lansio Diogelu'r Dyfodol ym Mehefin 2017, cyflwynwyd nifer o welliannau eisoes, gyda'r canlynol yn eu plith:

- Cymerodd bron pob tîm yn y sefydliad ran mewn diwrnod datblygu Diogelu'r Dyfodol i edrych ar flaenoriaethau eu tîm a beth fyddant ei angen i'w cyflawni. Coladwyd a dadansoddwyd adborth o'r sesiynau hyn i helpu i lywio cynlluniau gweithlu, gallu a dysgu a datblygu corfforaethol.
- Cymerodd dros 2000 o bobl ran mewn gweithdai a digwyddiadau ledled Cymru i edrych ar ddau faes allweddol o waith Diogelu'r Dyfodol – rheoli perfformiad a pharatoi ac asesu pobl am ddyrchafiad. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, datblygwyd dull newydd o reoli perfformiad yn cynnwys sgyrsiau mwy rheolaidd mewn amser real ynglŷn â pherfformiad sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau busnes wrth edrych tua'r dyfodol a'r cryfderau a'r datblygiad sydd eu hangen ar bobl i'w cyflawni. Cyflwynwyd y dull hwn ym mis Gorffennaf 2018. Mae system ddyrchafiadau newydd yn cael ei chyflwyno hefyd, un sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r gallu a'r rolau y mae'r sefydliad eu hangen yn awr ac yn y dyfodol ac sy'n gwobrwyo'r ymddygiad a'r sgiliau a werthfawrogir gan Lywodraeth Cymru.
- Ers mis Medi, mae pob uwch reolwr wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau Dyfodol-Tanio-Cyflawni gyda'i sefydlydd, Steve Radcliffe. Mae'r dull arwain uchel ei barch hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a chydweithredu gwell ar bob lefel ac yn sail i ddull newydd y sefydliad o reoli perfformiad yn barhaus.
- Lansiwyd y Rhaglen Profiad Tymor Byr i gynnig ffordd fwy anffurfiol a hyblyg o gael blas ar feysydd eraill yn y sefydliad drwy gyfres o gyfleoedd tymor byr – fel gweithio mewn tîm arall am gyfnod cyfyngedig neu helpu tîm i gyflawni prosiect penodol. Yn ogystal â darparu profiadau dysgu ar draws Llywodraeth Cymru, bydd cyfleoedd yn cael eu cynnig gyda sefydliadau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn ddiweddarach eleni.
- Bu rhaglen gyffrous o siaradwyr rhyngwladol o fri yn rhannu syniadau mewn digwyddiadau TEDx annibynnol, arloesol ac ysbrydoledig. Cynhaliwyd dau ohonynt hyd yn hyn – un ar faterion polisi ac un ar faterion digidol – mae rhagor o ddigwyddiadau i'w trefnu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

# Digidol, Data a TGCh

Mae gwella arweinyddiaeth, sgiliau, gallu a gwasanaethau digidol yn un o feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae portffolio Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James, yn cynnwys seilwaith digidol, cynhwysiant digidol a thrawsnewid gwasanaethau digidol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Mae'n cadeirio Grŵp Digidol a Data Gweinidogol sy'n cynnwys uwch swyddogion o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru ac yn arwain ar gyflawni camau gweithredu Digidol yn Gyntaf a Chynllun Gweithredu Digidol mewnol Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp yn sicrhau bod digido yn gallu cael ei ystyried o fewn cyd-destun y maes polisi perthnasol, gan sicrhau nad yw cyfleoedd yn cael eu colli ar gyfer datblygiadau a dysgu cyffredin.

Mae Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am gymuned o arweinwyr digidol a data ledled y sefydliad sy'n darparu arweiniad yn eu meysydd polisi a chyflawni eu hunain ac yn cydweithio i weithredu blaenoriaethau cyffredin. Anogir staff i ddilyn rhaglenni hyfforddiant sy'n cefnogi trawsnewid digidol ac a fydd o gymorth i'r proffesiwn dyfu. Mae'r sefydliad hefyd yn rhedeg rhaglen brentisiaeth ddigidol ac yn datblygu cynnwys dysgu digidol newydd o fewn y Labordy Dysgu sy'n cael ei ddylunio fel rhan o fenter Diogelu'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu dros 20 o wasanaethau digidol yn uniongyrchol i bobl Cymru. Un o'r rhai mwyaf yw gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein sy'n galluogi 18,000 o ffermwyr Cymru i wneud cais am daliadau amaethyddol uniongyrchol a rheoli eu taliadau ar-lein. Mae pob busnes fferm yn cwblhau ei ffurflenni ar-lein bellach – yr Asiantaeth Dalu gyntaf yn y DU i gyflawni hyn.

Roedd uchafbwyntiau gwasanaethau digidol pwysig yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Gwelliannau i'n gwasanaethau gwledig ar-lein yn cynnwys lansio gwasanaeth Rhifau Daliadau ym mis Chwefror 2018 – gwasanaeth cyfeirio tir sy'n cyfuno â gwasanaethau olrhain defaid ac iechyd anifeiliaid ar-lein.
- Rhaglen barhaus o welliannau ar-lein i blatfform dysgu digidol Hwb Llywodraeth Cymru sy'n parhau i ddarparu ystod eang o adnoddau digidol i rieni, athrawon a dysgwyr ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o drawsnewid dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- Lansiodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wasanaeth ar-lein newydd i alluogi darparwyr gwasanaethau oedolion a phlant i gwblhau ffurflen gais i gofrestru o'r newydd neu ailgofrestru ar-lein.
- Paratoi ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a'i lansio yn Ebrill 2018. Dyma'r corff sy'n casglu ac yn rheoli'r dreth trafodiadau tir a'r dreth dirlenwi ar-lein.

Cafwyd datblygiadau gwybodeg a digidol pwysig hefyd ym maes iechyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys dau adolygiad. Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygiad o systemau gwybodeg yn GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy roi amrywiaeth o gamau gweithredu ar waith, yn cynnwys adolygiadau o drefniadau llywodraethu a seilwaith ledled GIG Cymru.

Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru'n cydnabod bod digidol yn allweddol i alluogi trawsnewid y GIG ac yn amlygu pwysigrwydd seilwaith digidol cenedlaethol sydd wedi'i integreiddio'n llawn i gefnogi'r weledigaeth hon. Yn dilyn yr adolygiadau

ac ers y cyfnod adrodd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'Cymru Iachach' ym Mehefin 2018, a oedd yn disgrifio amrywiaeth o gamau gweithredu, yn cynnwys sefydlu Gweithrediaeth y GIG ac ymrwymiad i gynyddu cyllid ar gyfer y maes digidol. Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan Gronfa Drawsnewid flynyddol newydd gwerth £100 miliwn. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r model cenedlaethol a goruchwylio'r gwaith o ddyrannu cyllid.

Yn achos data, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r ymrwymiadau a amlinellwyd yn y Cynllun Data Agored, wedi parhau i ddatblygu platfformau data agored ystadegol a geo-ofodol, StatsCymru a Lle, ac wedi bod yn annog eraill mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i fod yn fwy agored. Mae yna waith parhaus yn cael ei wneud i weithredu deddfwriaeth newydd sy'n galluogi mwy o rannu data ac mae'r sefydliad yn cefnogi cynllun peilot gydag awdurdodau lleol sy'n eu galluogi i gysylltu a rhannu data dienw.

Ffocws mawr yn ystod rhan olaf y cyfnod adrodd oedd paratoi ar gyfer dod â rhai o'r wasanaethau TGCh oedd ar gontract allanol i gael eu darparu'n fewnol ar ddiwedd 2018. Mae'r sefydliad yn dilyn polisi system Cwmwl yn gyntaf, ac yn symud cymwysiadau busnes i'r system Cwmwl a datblygu gallu a sgiliau TGCh yn fewnol, gyda chymorth recriwtio o'r tu allan a chontractau ar raddfa fach ar gyfer sgiliau technegol arbenigol. Bydd y datblygiadau hyn yn galluogi gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i gefnogi arferion gwaith mwy hyblyg.

## Paratoi ar gyfer GDPR

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer GDPR cafodd archwiliad 'parodrwydd' ar gyfer y sefydliad ei gynnwys yng nghynllun archwilio mewnol Llywodraeth Cymru 2017-18. Comisiynwyd y gwaith gan gwmni allanol a chwblhawyd yr adroddiad yn Rhagfyr 2017. Yn ôl y gofyn, penodwyd Swyddog Diogelu Data ym mis Ionawr 2018. Derbyniwyd holl argymhellion yr archwiliad yn ymwneud â chanllawiau, hyfforddiant ac adolygu prosesau a phenodwyd Rheolwr Prosiect i oruchwylio parodrwydd ym mis Chwefror 2018.

Bu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i hyfforddi uwch gydweithwyr a thimau mewn meysydd risg uchel er mwyn cefnogi paratoadau a rhoi cyngor ar GDPR.

Er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio â GDPR wrth symud ymlaen, mae strategaeth sicrwydd GDPR yn cael ei datblygu i gyd-fynd â strategaeth archwilio fewnol, gyda'r nod o weithredu dull sicrwydd integredig.

# Dod yn lle tecach i weithio

Yn ystod 2017-18, parhaodd gwaith o dan Gynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016-2020 Llywodraeth Cymru ac amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i fod yn esiampl i eraill. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad gweithredol i fod yn sefydliad mwy amrywiol gyda thargedau i gael 5.8% o staff anabl a 2.5% o staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig erbyn 2020 ac ymrwymiad i recriwtio a chadw staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol. Mae gweithgareddau'n cael eu goruchwylio gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant ac wedi cynnwys:

- Cyflwyno'r cynllun peilot mentora o chwith yn ehangach.
- Hyrwyddo sesiwn hyfforddi Stonewall i uwch staff ar gynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.
- Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant; cyflwyno sesiynau peilot.
- Datblygu rhwydwaith cymorth staff anffurfiol ar ymwybyddiaeth o Awtistiaeth.
- Datblygu rhwydwaith Maethu a Mabwysiadu anffurfiol.

Mae gan bob grŵp busnes hyrwyddwyr amrywiaeth i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu maes busnes yn ogystal â noddi rhwydwaith amrywiaeth.

Parhaodd gwaith i gyflawni'r targed o sicrhau bod hanner staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod erbyn 2020. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o bolisïau a chymorth mamolaeth a thadolaeth, datblygu canllawiau ar y menopos, arolwg o fenywod a ddyrchafwyd i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn y 5 mlynedd diwethaf ac arolwg o fenywod a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar arweinyddiaeth. Nodwyd bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 8.08% (yn seiliedig ar gyflogau cyfartalog) yn 2017-18. Mae'r ffigur bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y gwasanaeth sifil a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 12.7% (ar sail canolrif cyflogau). Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i feincnod Cyflogwr Chwarae Teg i helpu i nodi'r ffordd orau o unioni hyn. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn 2018-19.

Defnyddiwyd nifer o gynlluniau meincnodi i asesu'r gwaith amrywiaeth a chynhwysiant a wnaed. Cododd Llywodraeth Cymru 13 safle – i fyny i 12fed ym Mynegai 100 Cyflogwr Gorau Stonewall a chyflawni Achrediad Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd yn Hydref 2017. Ers diwedd y cyfnod adrodd, achredwyd statws aur i Lywodraeth Cymru yng ngwobrau rhywedd 2018, gyda Rhwydwaith Cymorth y Gwasanaeth Sifil yn cefnogi holl staff trawsryweddol a rhyngrywiol ledled y Llywodraeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei dull o recriwtio prentisiaid i annog mwy o ymgeiswyr o bob cefndir. Ymunodd dau gohort newydd o brentisiaid â Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn adrodd hon: roedd 23% o'r tranche cyntaf a 42% o'r ail tranche yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

# Rhwydweithiau Amrywiaeth

Mae gan Lywodraeth Cymru bum rhwydwaith amrywiaeth staff ar hyn o bryd. Mae'r rhwydweithiau'n rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn galluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd ac yn gweithredu fel corff cynghori i lunwyr polisïau mewnol.

Y rhwydweithiau staff yw:

- **Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd** – y rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr anabl, gofalwyr a'r rhai sydd â diddordeb mewn materion anabledd.
- **Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig** – y rhwydwaith ar gyfer staff o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- **Menywod Ynghyd** – rhwydwaith cynhwysol yn annog twf personol ac yn annog menywod i gefnogi ei gilydd i gyflawni'u potensial llawn a gweithio i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y sefydliad.
- **PRISM** – y rhwydwaith staff cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n arddel hunaniaeth lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu rywedd amrywiol.
- **Symudedd Cymdeithasol** – rhwydwaith newydd i hyrwyddo dealltwriaeth well o'r heriau y mae pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn eu hwynebu.

# Adrodd ar Gynaliadwyedd

## Rheolaeth Amgylcheddol o'r Ystad Weinyddol

Yn ystod 2017/18 mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wella perfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol. Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu arferion cynaliadwy drwy weithio'n agos â chydweithwyr mewnol, contractwyr craidd a sefydliadau allanol. Mae'r cysylltiadau hyn wedi helpu i ehangu'r ddarpariaeth o gyngor arbenigol, rhannu arferion gorau a chysylltu â strategaethau perthnasol.

Mae defnydd o ynni wedi'i leihau ymhellach a llwyddwyd i ragori'n sylweddol ar darged lleihau carbon 2020, gan leihau allyriadau 57% ers 2011. Mae ailgylchu wedi cynyddu i 88%, cynnydd o 6% ers 2016/17. Mae strategaeth lleihau dŵr, a oedd yn cynnwys gosod wrinalau di-ddŵr, wedi arwain at ostyngiad o 11% ers i'r prosiect ddechrau yn 2016/17. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal prosiectau bioamrywiaeth ar sawl safle ac mae'n ymdrechu i gefnogi bywyd gwyllt lleol drwy wella ardaloedd y tu allan i swyddfeydd drwy greu cynefinoedd newydd a phlannu planhigion brodorol.

Mae rhagor o fanylion am allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a gynhyrchwyd a defnydd o ddŵr ar yr ystad weinyddol wedi'u nodi isod:

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol ('000 $tCO_2e$) | Cyfanswm Allyriadau Gros | 9.2 | 8.4 | 6.9 | 6.3 | 5.4 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 1 (Nwy) | 1.5 | 1.3 | 1.1 | 1.1 | 1.1 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 2 (Trydan) | 7.7 | 7.1 | 5.8 | 5.2 | 4.3 |
| Defnydd Ynni Cysylltiedig (GWh) | Trydan | 14.2 | 13.4 | 11.8 | 11.6 | 11.2 |
| | Nwy | 8.4 | 7.1 | 5.8 | 5.8 | 6 |
| Dangosyddion Ariannol (£ miliwn) | Gwariant ar Ynni | 2.3 | 2.1 | 2.1 | 2.1 | 2.0 |
| | Lwfansau Ymrwymiad Lleihau Carbon Ystad gweinyddol (2012 ymlaen) | 0.11 | 0.16 | 0.27 | 0.1 | 0.1 |

| **Gwastraff** | | | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anariannol (tunelli) | **Cyfanswm gwastraff (tunelli)** | | 583 | 500 | 498 | 563 | 350 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | 184 | 127 | 112 | 104 | 41 |
| | | Ailddefnyddiwyd/ Ailgylchwyd | 361 | 314 | 322 | 396 | 222 |
| | | Compostiwyd (bwyd) | 38 | 59 | 64 | 63 | 87 |

| **Dŵr** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (cu.m/person/bl.) | 10 | 8 | 8 | 7.1 | 6.3 |

# Sefydliad moesegol

## Gwrth-lwgrwobrwyo a llygredd

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau sy'n amlinellu ei disgwyliadau ar staff pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r rhain yn cynnwys Telerau ac Amodau Gwasanaeth, Cod y Gwasanaeth Sifil, Cod Ymddygiad Staff a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r holl ddogfennau hyn yn canolbwyntio ar gysyniadau craidd uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a bod yn ddiduedd. Maent yn darparu cyngor clir na ddylai staff gamddefnyddio eu safle swyddogol i hyrwyddo buddiannau preifat na derbyn rhoddion neu letygarwch na buddion eraill gan unrhyw un mewn ffordd y gallai fod yn rhesymol tybio eu bod yn cyfaddawdu crebwyll neu uniondeb.

Mae gofyn i bob aelod o staff ddatgelu unrhyw fuddiannau busnes allanol a allai effeithio ar eu gwaith yn Llywodraeth Cymru a chael rheolwyr i gymeradwyo'r buddiannau hyn. Anfonir negeseuon rheolaidd i atgoffa staff o'r gofyniad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Cangen Gwrth-dwyll sy'n gyfrifol am ymgorffori diwylliant gwrth-dwyll a llygredd a hyrwyddo dull dim goddefgarwch o ymdrin â thwyll a llygredd drwy ymchwilio i bob cyhuddiad. Mae'r Gangen mewn cysylltiad agos â Heddluoedd Cymru a grwpiau arbenigol eraill ac yn cymryd rhan mewn ymarferion paru data cenedlaethol i nodi achosion posibl o dwyll a gwrthdaro buddiannau.

Mae'r Gangen Gwrth-dwyll hefyd yn gyfrifol am gynnal Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Mae gan Lywodraeth Cymru Bolisïau Chwythu'r Chwiban hefyd fel llinell ffôn Adrodd am Dwyll a gallu adrodd am dwyll ar-lein sy'n galluogi staff ac aelodau'r cyhoedd i godi unrhyw bryderon.

Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff yn cwmpasu meysydd fel Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, a Gwyngalchu Arian. Mae'r Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol yn cael ei gweithredu ac mae'n rhan o brosesau diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru wrth ddarparu grantiau neu ymrwymo i gontractau.

Mae gofyn i bob Grŵp gadw Cofrestr Risg Twyll a Llygredd, sy'n nodi meysydd risg uchel ac yn amlinellu'r mesurau rheoli a sefydlwyd i liniaru'r risgiau hyn.

## Parch i hawliau dynol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chyda pharch ac i sicrhau bod Cymru'n rhydd o gaethwasiaeth. Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi wedi'i ymgorffori yn y broses gaffael drwyddi draw. Caiff pob cyflenwr llwyddiannus ei annog i ymrwymo i'r Cod, ac mae gofyn i gontractwyr/partneriaid cadwyn cyflenwi weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn rheoli perfformiad contractau'n barhaus i sicrhau bod arferion cyflogaeth teg yn cael eu dilyn.

Mae'r holl brosesau caffael sy'n werth dros £25,000 yn destun asesiad risg strategol, sy'n ystyried pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth a'r potensial ar gyfer mynd i'r afael â meysydd penodol o'r Cod drwy delerau'r Contract, er enghraifft talu'r cyflog byw.

Yn fewnol, mae'n rhaid i'r holl weithwyr caffael proffesiynol gwblhau hyfforddiant e-ddysgu Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi ar Gaffael Moesegol. Hefyd, datblygwyd modiwl hyfforddiant e-ddysgu y bydd rhaid i holl reolwyr contractau Llywodraeth Cymru ei gwblhau. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion cyflogaeth teg a moesegol iddynt a sut y gallant sicrhau bod y Cod yn cael ei ddilyn.

## Cadw'n staff yn iach a diogel

Mae sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth lwyr, yn aros yn iach a bod ganddynt amgylchedd diogel yn rhan bwysig o ddull iechyd a diogelwch Llywodraeth Cymru.

Yn 2018, sicrhaodd Llywodraeth Cymru achrediad eto i Gyfres Asesu Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol 18001 – fframwaith wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau i gyflwyno system reoli iechyd a diogelwch sy'n cyd-fynd ag arferion gorau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r sefydliad wedi gweithredu nifer o welliannau yn cynnwys datblygu cyfres o asesiadau risg cyffredinol sy'n sicrhau bod gan staff fynediad at systemau gwaith diogel wrth gyflawni eu dyletswyddau; a darparu hyfforddiant effeithiol ac ystyrlon ar-lein ac wyneb-yn-wyneb, i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn ogystal ag edrych ar sut i reoli straen a phwysigrwydd llesiant.

Mae prosesau monitro ac adolygu parhaus yn sicrhau bod y systemau'n parhau i gydymffurfio a'u bod yn effeithiol o hyd, a bod unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwella'n cael eu nodi a'u gweithredu.

Y llynedd, cytunodd Bwrdd Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Llesiant newydd i helpu'r sefydliad i fod yn weithle iachach sy'n cefnogi cydweithwyr i ofalu am eu llesiant corfforol a meddyliol. Yn unol â'r Strategaeth, cyflwynwyd "Awr Lesiant" i roi awr yr wythnos i staff (ar sail pro rata i'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser) i ganolbwyntio ar weithgareddau a fydd yn cynnal neu'n gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol.

## Ochr yr Undebau Llafur

Ochr yr Undebau Llafur yw'r corff ambarél sy'n cydgysylltu safbwyntiau'r tri undeb llafur a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae tîm rheoli'r sefydliad yn gweithio'n agos mewn partneriaeth ag Ochr yr Undebau Llafur, sy'n cynrychioli eu haelodau ar amrywiaeth eang o amodau gwasanaeth a materion eraill cysylltiedig â gwaith. Pan gynigir newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar staff, ymgynghorir yn ffurfiol ag Ochr yr Undebau Llafur gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal ag aelodau fel y bo'n briodol. Mae gan Ochr yr Undebau Llafur a gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru Gytundeb Partneriaeth hirsefydlog sy'n darparu fframwaith ar gyfer eu trefniadau cydweithio.

## Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

Yn unol â Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi cysylltiedig i Gymru, mae cyllidebau'n cael eu dyrannu i hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd allweddol yn y DU a thramor fel lle i dwristiaeth, mewnfuddsoddi, masnach ac allforio. Datblygwyd brand Cymru integredig ar draws sectorau ac mae cynlluniau marchnata manwl yn cael eu datblygu ar gyfer sectorau allweddol perthnasol mewn marchnadoedd targed – i ddatblygu proffil Cymru, ac ysgogi perfformiad penodol pob sector.

Ym maes busnes, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal rhaglenni marchnata integredig, yn cynnwys gweithgarwch print, digidol ac awyr agored ar gyfer cynulleidfaoedd busnes-i-fusnes allweddol – gyda ffocws ar farchnad y DU. Cafwyd cynnydd o 60% yn nifer yr ymwelwyr â tradeandinvest.wales yn 2017-18. Mae'r rhaglen hon hefyd yn cynnwys darparu cymorth i Lywodraeth Cymru fynychu ystod eang o ddigwyddiadau masnach a sector-benodol. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod unrhyw gysylltiadau a wneir yn cael eu mesur a'u meithrin gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae blaenoriaethau allweddol hefyd yn cynnwys buddsoddi mewn platfformau digidol newydd ar gyfer y dyfodol yn ogystal â mewn cynnwys difyr o sylwedd i hyrwyddo Cymru yn y DU a thu hwnt. Bydd yr holl gynnwys yn cael ei fonitro i werthuso lefelau ymgysylltu a'r elw ar fuddsoddiad.

## Cytundebau nawdd

Fel rhan o'r dull ehangach o sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi busnesau yng Nghymru ac yn hyrwyddo Cymru yn y byd fel lleoliad busnes, derbynnir ceisiadau gan sefydliadau allanol i noddi digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'i hamcanion busnes cyffredinol.

Gofynnir i'r rhai sy'n gwneud cais o'r fath ddarparu gwybodaeth am y digwyddiad, y gynulleidfa, y manteision i Lywodraeth Cymru o noddi'r gweithgaredd a'r risgiau posibl os na chefnogir y cais. Yna, caiff y cais ei ystyried yng nghyd-destun sut mae'n perthyn i'r amcanion busnes perthnasol ac a yw'n cynnig gwerth am arian o ran brandio, cysylltiadau cyhoeddus, cyfathrebu, rhwydweithio/cyflwyniadau ac enw da. Byddai disgwyl i unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau a gynhelir yng Nghymru gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg. Yn 2017-18, noddodd Llywodraeth Cymru nifer o sefydliadau a digwyddiadau yn cynnwys Opera Cenedlaethol Cymru, Gwobrau Cyfryngau Cymru, Diwrnod Arloesedd Digidol ac Ynni Clyfar Cymru.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae cyfarwyddydau'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol rhoi manylion yr adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod.

Mae'r cyfrifon adnoddau cyfunol yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r endidau eraill o fewn y grŵp ar ddiwedd y cyfnod, ac o'u gwariant net a'u llifoedd arian am y cyfnod ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau ar draws Llywodraeth Cymru ym maes cyllid a materion eraill, lle bo'r rhain yn briodol, a thros reoli gofyniad net Gweinidogion Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) ac, yn arbennig: i barchu'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson; i ffurfio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol; i ddatgan a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y Llawlyfr, wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; ac i baratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Gweinidogion Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y GIG yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru'n cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu penodi'n Swyddogion Cyfrifol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, dros ddiogelu asedau Llywodraeth Cymru, a thros gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall, wedi'u nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Nodir y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu eraill, fel y disgrifir uchod, ac fe nodir eu priod gyfrifoldebau mewn cytundebau ysgrifenedig rhwng y swyddogion o dan sylw.

Fel Swyddog Cyfrifyddu gallaf gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn cadarnhau, cyn belled â fy mod yn gwybod, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru'n ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr allanol yn gwybod am yr wybodaeth honno.

# Datganiad Llywodraethiant

## Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.


## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethiant a bwriedir iddi reoli risg i lefel resymol. Mae Fframwaith Rheoli Cyffredin Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyaethau sy'n gweithredu'n gyson ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.

Cefnogir y fframwaith llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Datblygwyd y fframwaith llywodraethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol:



## Adolygiad Llywodraethiant

Tua diwedd 2017, cynhaliodd Archwilio Mewnol ymarfer i bennu llinell sylfaen ar gyfer y fframwaith llywodraethiant yn Llywodraeth Cymru, i ddarparu dadansoddiad o'r trefniadau o'u cymharu â'r arferion gorau. Nododd yr adroddiad a gafwyd feysydd posibl ar gyfer gwella trefniadau ac mae cynllun gweithredu wedi'i sefydlu gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant i adeiladu ar y cyfleoedd hyn. Llywiodd y gwaith hwn hefyd yr adolygiad o drefniadau llywodraethiant a gomisiynais yn ystod 2017/18, gan gynnwys strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau uwch. O ganlyniad, caiff strwythur newydd ei roi ar waith yn ystod 2018/19 i hybu tryloywder ac eglurder mewn perthynas â gwneud penderfyniadau. Gwnaed penderfyniad hefyd i gymryd hoe ac adfywio trefniadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Ers Chwefror 2018, dim ond Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru sydd wedi cyfarfod, er bod y Grwpiau wedi cynnal eu cyfarfodydd sicrwydd eu hunain yn ystod y cyfnod i ystyried canlyniadau gwaith archwilio. Daw trefniadau grŵp newydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i rym o Fedi 2018.

## Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei nodau a'i hamcanion, yn rhannol, trwy nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a Noddir gan y Llywodraeth. Mae Swyddogion Cyfrifyddu (neu Brif Weithredwyr) a benodir i bob corff yn gyfrifol am reolaeth eu sefydliad ar arian cyhoeddus ac mae'n ofynnol iddynt lofnodi Datganiad Llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn ffurf briodol o ddogfen ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 12 Aelod, yn Aelodau Anweithredol ac Aelodau Gweithredol. Roedd nifer o aelodau anweithredol yn nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn y rôl yn ystod 2017/18 a thua diwedd y flwyddyn cafwyd ymarfer recriwtio i ddod o hyd i aelodau newydd. Bydd yr Aelodau Anweithredol hyn yn ymuno â'r Bwrdd yn ystod 2018/19.

Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog, Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn "Symud Cymru Ymlaen" a'r blaenoriaethau a nodwyd yn "Ffyniant i Bawb". Cafodd cylch gorchwyl y Bwrdd ei ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2017 i sicrhau ei fod yn nodi'r diben hwn yn glir ac yn llawn. Roeddwn yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cynnal cyfarfod dwyochrog yn rheolaidd ag Aelodau'r Bwrdd a hefyd â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y cyd yn fisol. Rwyf wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn ymgysylltu â'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

| Aelodau Presennol | Yn bresennol |
|---|---|
| Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol | 10/10 |
| Elan Closs Stephens, Cyfarwyddwr Anweithredol | 10/10 |
| James Turner, Cyfarwyddwr Anweithredol | 9/10 |
| Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol | 9/10 |
| Ellen Donovan Cyfarwyddwr Anweithredol (o 27 Chwefror 2018) | 1/1 |
| Jeff Farrar Cyfarwyddwr Anweithredol (o 27 Chwefror 2018) | 1/1 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (o 1 Ionawr 2018) | 2/2 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (o 24 Tachwedd 2017) | 3/4 |
| Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Prif Weithredwr y GIG) | 9/10 |
| Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, (o 29 Ionawr 2018) | 1/1 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Llywodraethiant | 9/10 |
| Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 8/10 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 9/10 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr, Cyllid | 10/10 |
| Gillian Baranski, Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd | 8/10 |
| Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu | 10/10 |

**Ymadawodd yr Aelodau canlynol o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn:**

| | |
|---|---|
| Sir Adrian Webb, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 15 Rhagfyr 2017) | 8/8 |
| James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (hyd at 31 Rhagfyr 2017) | 6/8 |
| Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (hyd at 30 Medi 2017) | 4/5 |
| Sioned Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau (hyd at 30 Ebrill 2017) | 1/1 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o'i Berfformiad

Fel rheol, byddai'r Bwrdd yn adolygu ei berfformiad ar y cyd dros y cyfnod adrodd, gyda chymorth gwerthusiad wedi'i strwythuro. Mae'r adolygiad o berfformiad eleni wedi digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae wedi arwain, hyd yn hyn, at gylch gorchwyl diwygiedig, amlder diwygiedig (bob chwe mis yn lle bob mis) ac aelodaeth ddiwygiedig (gan gynnwys tri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd).

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth) dan arweiniad cyfarwyddwyr anweithredol a chan un Is-bwyllgor gweithredol y Bwrdd (y Pwyllgor Gweithrediadau).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Archwilio a Risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru'n fy nghefnogi ar faterion ariannol. Roedd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol ac yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu. Roedd Pwyllgorau Archwilio a Risg hefyd yn gweithredu ar lefel Grŵp yn ystod 2017/18 gyda'u Cadeiryddion yn aelodau o Bwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru. Nid oedd unrhyw newidiadau yn aelodaeth na strwythur Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn er bod y trefniadau ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau yn cael eu diwygio a bydd y rhain yn cael eu cwblhau yn ystod 2018/19.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Cydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil ac mae'n gyfrifol am dâl ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a holl achosion personol SCS. Roedd Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor wyth gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd. Nid yw'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn pennu fy nghyflog fy hun gan mai Swyddfa Cabinet y DU sy'n delio â hynny

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Gweithrediadau

Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau'n fy nghefnogi i a'r uwch arweinwyr gyda rhedeg y sefydliad ar lefel weithredol, gan ganiatáu i'r Bwrdd gadw ffocws strategol. Roedd y Pwyllgor yn cynnig cyngor ar redeg Llywodraeth Cymru, ac yn goruchwylio ac yn rheoli'r broses, ac yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn. Parhaodd y Pwyllgor i weithredu tan ddiwedd y flwyddyn ond yn ystod 2018/19, fe gaiff ei ddisodli gan dri phwyllgor newydd er mwyn canolbwyntio'n well ar feysydd penodol o weithrediadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## Yr Uwch-dîm Arwain

Drwy gydol 2017/18, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Ddirprwy Ysgrifenyddion a Chyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru. Achubais ar y cyfle a gafwyd yn sgil ymadawiad dau Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol i adolygu arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ar y lefel honno. O ganlyniad rwyf wedi troi'n ôl at y teitl "Cyfarwyddwr Cyffredinol" ar gyfer Arweinwyr pob grŵp. O 29 Ionawr 2018, penodais Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd i arwain Swyddfa'r Prif Weinidog, sef Grŵp newydd a gafodd ei greu i wahanu swyddogaethau Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol oddi wrth Swyddfa'r Prif Weinidog (a oedd wedi'u cyfuno gynt fel Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet). Cafodd y ddwy swyddfa eu gwahanu, a hynny o 1 Ebrill 2018, i gryfhau'r arweinyddiaeth ar y lefel uchaf oll o ran cyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog a materion sy'n ymwneud â'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae'r pum Grŵp sydd bellach yn bodoli wedi'u rhannu ymhellach yn gyfarwyddiaethau sy'n cyd-fynd â'r meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru eu gweinyddu.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol yr Uwch Dîm Arwain yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i roi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gryfhau ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Bydd yr Uwch Dîm Arwain yn mabwysiadu rôl fwy ffurfiol o ran gwneud penderfyniadau corfforaethol fel "Pwyllgor Gweithredol" Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi ymrwymo i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gwaith yn unol â'r nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rwyf yn parhau i hybu ymddygiadau sy'n adeiladu ar weithio ar draws sefydliadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant a'r strategaethau trawsbynciol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn "Llesiant i Bawb". Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd integredig at y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar gynnydd tuag at eu hamcanion llesiant yn flynyddol; cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei set gyntaf o amcanion llesiant ym mis Tachwedd 2016. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u diwygio yn ystod y flwyddyn fel rhan o ddatblygu *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn parhau wrth wraidd holl waith y Llywodraeth. Ymrwymodd y Datganiad Llesiant, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â *Ffyniant i Bawb* i roi gwybod am gynnydd yn rheolaidd ac i adolygu'r strategaeth genedlaethol ganol ei thymor. Caiff hwn ei ddarparu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

### Y Grŵp Busnes

Mae'r Grŵp Busnes yn bodoli i hwyluso rhannu gwybodaeth i sicrhau bod pob Cyfarwyddwr yn gwybod am y materion cyfredol ar draws y sefydliad. Yn ystod 2017/18, roedd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a'u mynychu gan staff ar lefel Cyfarwyddwr ac yn uwch, gan gynnwys fi fy hun, ac roeddent yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu'r Panel Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion chwythu'r chwiban, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon ond gyda gofal mawr, gan gadw cyfrinachedd. Mae'r polisi ar chwythu'r chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth ddylai staff ei wneud os ydynt yn amau cydweithiwr o gamwedd. Cyhoeddir gwybodaeth ar y fewnrwyd hefyd. Rwyf yn hyderus bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn dryloyw, ac yn gadarn ac yn cydymffurfio ag arferion da.

Hysbyswyd pedwar achos i'r Panel yn y flwyddyn:

| Achosion o Chwythu'r Chwiban | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 2 | 2 |
| Wedi'i ddatrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | 1 | 3 |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | 1 |
| Cyngor wedi'i roi i'r chwythwr chwiban | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **4** | **6** |

Yn ogystal â Phanel Chwythu'r Chwiban sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd mewn perthynas â sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig ymateb cyson, cymesur a phriodol i bryderon am sut y mae ein partneriaid cyflenwi a buddiolwyr ein cynlluniau grant wedi ymdrin ag arian Llywodraeth Cymru. Mae'r Panel yn rhoi cyngor i swyddogion ac yn nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy. Aeth y Panel i'r afael â 19 o achosion newydd yn y flwyddyn o'i gymharu â 10 o achosion yn 2016/17. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiben y panel a mwy o ymgysylltu ag ef. Mae hynny wedi digwydd yn sgil adolygiad o'i aelodaeth ac ychwanegu, ochr yn ochr ag arweinwyr gweithredol, gynrychiolwyr o'r pum Grŵp yn y sefydliad. Cafodd wyth achos byw eu trosglwyddo o'r flwyddyn flaenorol. Roedd deg achos yn dal yn agored ar ddiwedd y flwyddyn a chânt eu datrys yn ystod 2018/19. Nid oedd gan yr un ohonynt unrhyw oblygiadau disgyblu gydag Adnoddau Dynol nac o ran rheoli perfformiad.

## Trefniadau Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei gyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd gan ymatebion rheolwyr i faterion a nodir gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau a hefyd gan ymatebion rheolwyr i adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Yn ogystal, ym Mai 2018, mynychais gyfarfod sicrwydd gyda darparwyr sicrwydd arweiniol ar draws Llywodraeth Cymru, i ystyried y sicrwydd sydd ar gael imi ar gyfer 2017/18.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion eraill. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau. O'r sicrwydd yr wyf wedi'i gymryd o'r ffynonellau uchod, rwyf yn fodlon bod risg wedi'i rheoli'n dda a bod systemau llywodraethiant a rheolaeth fewnol yn parhau i weithredu'n effeithiol ac i wella.

### Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd Archwilio Mewnol raglen lawn o waith yn y flwyddyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Cyflwynodd Archwilio Mewnol adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgorau Archwilio a Risg, ar lefel Grŵp a lefel Llywodraeth Cymru, ar gynnydd wrth roi'r cynllun archwilio hwn ar waith. Cyfarfûm yn rheolaidd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol drwy gydol y flwyddyn i drafod materion archwilio a sicrwydd.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae protocol cydweithio sefydledig yn sail i'r dull gweithredu sy'n cael ei gymryd ac mae cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd i i rannu gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ffynhonnell annibynnol hyn o sicrwydd yn rhoi cryn gysur imi o ran sicrhau gwerth am arian a dibynadwyedd y cyfrifon ariannol, yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, ac o ran gweithredu'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth, yn achos y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Yn ei Hadroddiad Barn am Sicrwydd Blynyddol, rhoes Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" ar weithrediad y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau'n cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol, mae sicrwydd rhesymol yn golygu bod ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran rheolaeth neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2017/18, sy'n gyrru'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y safbwyntiau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a roddir:

| Barn Sicrwydd | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 16 | 14 | 24 |
| Sicrwydd Rhesymol | 38 | 29 | 37 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 7 | 9 | 12 |
| Dim Sicrwydd | 0 | 0 | 0 |

Lle y nodwyd gwendidau mewn adroddiadau archwilio, gwnaed arsylwadau priodol i wella'r fframwaith rheolaeth a mynd i'r afael â'r mater a nodwyd.

## Y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd

Ym mis Chwefror, cyflwynodd Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) ddau adroddiad Rheoli Blynyddol a'i Farn i'r Comisiwn gyda'i farn sicrwydd ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol a gafodd Cymru am y cyfnod 1 Gorffennaf 2016 i 30 Mehefinr 2017. Roedd yr adroddiadau yn seiliedig ar waith a wnaed gan EFAT yn unol â'i strategaethau archwilio ar gyfer y Rhaglenni. Rwyf yn falch bod EFAT wedi llwyddo i ddarparu barn ddiamod i'r Comisiwn. Derbyniodd y Comisiwn adroddiadau a barn EFAT yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2018.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg

Yn seiliedig at ei waith dros y cyfnod adrodd, yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2017/18, rhoes y Pwyllgor Archwilio a Risg sicrwydd "rhesymol" ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio mewnol i Lywodraeth Cymru ac ar ddibynadwyedd, uniondeb a natur gynhwysfawr y sicrwydd a roddir imi mewn perthynas â llywodraethiant a rheoli risg. Rwyf yn fodlon bod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gweithredu'n effeithiol ac wedi darparu cymorth da wrth fonitro ac adolygu prosesau risg, rheolaeth a llywodraethiant.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Fe'i gwneuthum yn ofynnol hefyd i'r holl Gyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol ac, ar sail yr wybodaeth hon, i Gyfarwyddwyr Cyffredinol pob Grŵp baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi i mi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Trwy'r Holiadur, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi imi eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi rhoi trosolwg o lywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg o fewn eu priod Grwpiau. Mae'r rhain wedi cynnwys sicrwydd cadarnhaol mewn perthynas â'r Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi ystod o weithgareddau megis y Model Ad-dalu Cymorth Prynu a'r Model Cenedlaethol Categoreiddio Ysgolion.

## Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn y fframweithiau hyn yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

### Gwneud penderfyniadau

Mae adolygiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi nodi rhai gwelliannau y mae eu hangen ym maes llywodraethiant mewn perthynas â'r cymorth ariannol a roddir i fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys buddsoddiadau yn Pinewood a Chylchffordd Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn edrych ar ansawdd y dadansoddiad a'r dystiolaeth a dilysrwydd y rhagdybiaethau sy'n sail i gynllun teithio rhatach ar fysiau sef "Fy Ngherdyn Teithio". Yn ystod y flwyddyn mae Archwilio Mewnol hefyd wedi cynnal adolygiad o Wybodaeth Ariannol mewn Cyngor Gweinidogol lle y gwnaethant lwyddo i ddarparu sicrwydd cyfyngedig yn unig. Nodwyd gwendidau mewn pedwar maes gan gynnwys; proses a gweithdrefn, goruchwylio corfforaethol, cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus. Rwyf yn croesawu'r gwaith craffu hwn ar ein prosesau, sy'n ein helpu i wneud gwelliannau mewn meysydd megis llywodraethiant a chadw cofnodion, gan gynnwys trywydd archwilio dogfennau yn ategu'r rhesymeg sy'n sail i'n penderfyniadau, ac ansawdd ein cyngor i'r Gweinidogion. Yn ogystal â gwelliannau penodol i'n prosesau busnes, rwyf wedi cyflwyno menter "Diogelu'r Dyfodol" a fydd yn gwella hyfforddiant i staff mewn meysydd megis gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol.

### Dileadau

Dengys y cyfrifon gynnydd sylweddol yng ngwerth dyledion sy'n cael eu dileu o'i gymharu â'r llynedd. Er hynny, rwyf yn hyderus nad yw hyn yn arwydd o gymryd risgiau diangen, ond yn hytrach, yn adlewyrchiad o brosesau mwy llym sy'n cael eu rhoi ar waith yng ngoleuni adolygiadau gan Archwilio Mewnol. Er bod y lefel yn uwch, mae'r dyledion sydd wedi'u dileu yn y cyfnod hwn yn hanesyddol eu natur yn bennaf, gan gynnwys dileu'r benthyciad i G24 Innovations Limited a benthyciad a grant ad-daladwy i Kancoat Limited a Cardiff Aviation Limited, gyda dileadau pellach mewn perthynas â McKenzie Interior a Regal Fayre UK Ltd. Rwyf yn fodlon bod y prosesau diwygiedig yn sicrhau bod dyledion yn cael eu rheoli mewn ffordd amserol.

### Cyrff Hyd Braich

Yn sgil digwyddiadau mewn Corff Hyd Braich, cynhaliwyd adolygiad o'n trefniadau nawdd mewnol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi ein Cyrff Hyd Braich. Cafwyd bod y trefniadau hyn yn effeithiol ar y cyfan ond gyda lle i wella i sicrhau dull gweithredu mwy cyson sy'n ychwanegu gwerth ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym wedi sefydlu uned cyrff cyhoeddus newydd i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad ac i gyflawni gweithgareddau nawdd yn fwy effeithiol a chydag ymgysylltu gwell â'n Cyrff Hyd Braich, yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O safbwynt llywodraethu Cyrff Hyd Braich, sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru yn y gorffennol diweddar i gyflenwi nifer o brosiectau trafnidiaeth mawr ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cydnabod yr angen i adolygu llywodraethiant Trafnidiaeth Cymru ar ôl i'w gylch gwaith gwreiddiol gael ei ehangu, o gofio blaenoriaeth y prosiectau sydd bellach yn cael eu cyflenwi.

Yn 2015-16 a 2016-17 amododd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei farn reoleidd-dra ar gyfer Datganiadau Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â dyfarnu contractau gwerthu pren. Yn 2017-18 mae'r rheoleidd-dra wedi cael ei amodi eto mewn perthynas â dyfarnu 50 o gontractau newydd i werthu pren. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae wedi ymrwymo'n llawn i fynd i'r afael â'r materion llywodraethiant o dan arweinyddiaeth eu Prif Weithredwr newydd, a ddechreuodd yn ei rôl yn 2018 ac mae swyddog o Lywodraeth Cymru wedi'i secondio i Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i wella trefniadau llywodraethiant.

## Torri hawlfraint

Honnir bod hawlfraint wedi'i thorri gan Croeso Cymru mewn ffotograff yn nhŷ cwch Dylan Thomas a oedd yn ddiarwybod yn cynnwys ffotograff y mae trydydd parti yn hawlio hawlfraint arno ac aed i gostau wrth ddatrys y sefyllfa hon gyda deiliad yr hawlfraint.

## Materion Twyll

Tua diwedd 2016, cafodd Llywodraeth Cymru ohebiaeth ddienw yn honni twyll yn y defnydd o grantiau Llywodraeth Cymru gan elusen o Bort Talbot. Cwblhaodd Llywodraeth Cymru ei hymchwiliad i'r honiadau hyn yn ystod 2017/18 ac, o ganlyniad, mae wedi mynnu ad-daliad o chwarter o arian grant y Gymuned Ewropeaidd a swm bach o grant domestig Llywodraeth Cymru, sy'n cael eu hadennill trwy weithdrefnau arferol adennill dyled.

Mae Datganiadau Llywodraethiant mewn blynyddoedd blaenorol wedi cynnwys sylwadau am dwyll a nodwyd yn y cynllun Tocynnau Bws Rhatach; mae ymchwiliadau'r heddlu yn dal i fynd rhagddynt ac fe ddisgwylir erlyniadau pellach. Serch hynny, rwyf yn dal yn sicr bod y camau a gymerir i wella ein gallu i wrthsefyll twyll, gan gynnwys defnyddio dadansoddeg data i holi gwybodaeth reoli, yn cynnig rheolaeth fewnol effeithiol yn y maes hwn.

Cadarnhawyd yr hyder hwn yn y flwyddyn gan adolygiad annibynnol o'n Huned Wrth-dwyll, gan wasanaeth Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ar gyfer ymchwilio i dwyll. Barnodd yr asesiad ei fod yn wasanaeth sy'n perfformio'n dda ac yn effeithiol, o gofio ei adnoddau presennol. At y dyfodol, rydym yn edrych ar ddewisiadau i ddarparu ymwybyddiaeth staff a hyfforddiant a gwaith rhagweithiol ym maes gwrth-dwyll ac asesu risg.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol mewn manylebau gofynion trwy gyfrwng Llythyr Agweddau Diogelwch. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriad Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon "Cyber Essentials".

Mae systemau TG corfforaethol Llywodraeth Cymru a'i pholisïau diogelwch cysylltiedig yn parhau i gydymffurfio ag ISO 27001, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, ac yn cyd-fynd ag arferion a gweithdrefnau a argymhellir. Cadarnhawyd hyn gan y rhaglen o waith archwilio a wnaed gan Archwilio Mewnol, adolygiad lefel uchel yn y GE o archwiliad cydymffurfiaeth ISO27001, a chan i sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael gan Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Yn 2017/18, cafwyd 40 o golledion data o'i gymharu â 33 ar gyfer 2016/17. Hysbyswyd pedwar achos o golli data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ond ni chymerwyd camau pellach gan fod y comisiynydd o'r farn bod rheolaethau Llywodraeth Cymru megis hyfforddiant staff, polisïau clir a chyfarwyddiadau desg eisoes yn bodoli. Nodir mân ddigwyddiadau nad oes angen eu hysbysu isod:

| **Crynodeb o Ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â Data Personol a Ddiogelir** | | | |
|---|---|---|---|
| Isod, nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol | | | |
| **Math** | **Natur y digwyddiad** | **2016/17** | **2017/18** |
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 5 | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 2 | 1 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 0 | 1 |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 21 | 34 |
| V | Arall | 5 | 3 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Rwyf yn cymryd sicrwydd o'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, a gadarnhaodd fod trefniadau rheoli yn y maes hwn yn ddigonol, ond rydym yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r rhesymau drostynt.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed trefniadau i baratoi Llywodraeth Cymru ar gyfer gorfodi'r Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data (GDPR) o 25 Mai 2018. Er enghraifft, dechreuodd yr adolygiad o Gofrestrau Asedau Gwybodaeth a Hysbysiadau (Prosesu Teg) Preifatrwydd ac aed ati i adrodd ar yr holl golledion data o fewn yr amser llai a ganiateir o dan GDPR cyn y dyddiad gorfodi. Er hynny, mae paratoi ar gyfer y rheoliadau newydd hyn wedi bod yn gryn her i gorff megis Llywodraeth Cymru o gofio ehangder ac amrywiaeth y data personol yr ymdrinnir ag ef. Rhoes archwiliad parodrwydd ar gyfer GDPR yn Rhagfyr 2017 ganllaw i'r gwaith y mae ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd cryn gynnydd wedi'i wneud erbyn y dyddiad gorfodi ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod pob agwedd ar gasglu, prosesu, cofnodi ac ymdrin â data personol gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio.

## Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

### Awdurdodau Lleol

Rhoddir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Y gydran unigol fwyaf o gyllid grant yw'r Grant Cynnal Refeniw a delir i'r awdurdodau unedol, y gellir ei defnyddio at unrhyw ddiben wrth ddarparu'r Gwasanaethau y mae'r awdurdodau hynny'n gyfrifol amdanynt. Dosberthir y Grant Cynnal Refeniw ar sail fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr Awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol.

Darperir cyllid hefyd i'r Awdurdodau trwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y'u darperir ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, incwm o ardrethi annomestig a bennir yn genedlaethol ac a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru, o'r Dreth Gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf, sy'n cael ei atodi gan eu gallu benthyca eu hunain.

Mae trefniadau tebyg yn berthnasol i'r ddarpariaeth ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sy'n cael eu hariannu trwy gymysgedd o Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu oddi wrth Lywodraeth Cymru a Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, o grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu trwy drefniadau megis ardollau a phraeseptau.

Mae pob Awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid i gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae gan Awdurdodau Unedol swyddog penodedig o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae'r awdurdodau'n cael eu dal i gyfrif gan eu swyddogaethau craffu ac maent hefyd yn destun archwiliadau gwella blynyddol a gynhelir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n ymdrin â gwerth am arian yn ogystal â materion llywodraethiant a galluogrwydd.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, mae telerau ac amodau grantiau yn gyfrifoldeb i'r adrannau polisi perthnasol. Mae'n ofyniad o dan y telerau a'r amodau hyn i roi sylw dyledus i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer cyllid grant. Dylai cadw at y safonau hyn sicrhau y cydymffurfir â threfniadau llywodraethiant ac ariannol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r gyfraith, y polisïau a'r arferion da perthnasol. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol o Lywodraeth y DU.

Yn ystod y flwyddyn, rhoes Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd rybudd i Gyngor Powys o dan ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sgil adroddiad arolygu beirniadol a danlinellodd feysydd o bryder sylweddol i fynd i'r afael â hwy mewn perthynas â'i wasanaethau plant. Yn ogystal, cododd yr adroddiad faterion sylweddol mewn perthynas

ag effeithiolrwydd gwasanaethau corfforaethol y Cyngor. Yn sgil yr adroddiad, ym mis Tachwedd 2017, gwnaed cais am gymorth ffurfiol gan Arweinydd Cyngor Powys i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet y cais ac ymarfer ei bwerau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi cymorth i Bowys gyda'r gwelliant corfforaethol. Wrth wneud hynny, fe gyfunodd waith gwella gwasanaethau cymdeithasol yn un rhaglen, o dan oruchwyliaeth bwrdd gwella a sicrwydd sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol sy'n rhoi cymorth i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr Dros Dro.

Mae penodiadau eraill wedi'u gwneud i gryfhau llywodraethiant a goruchwylio yn y Cyngor ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar wella'r broses o ddarparu a llywodraethu gwasanaethau cymdeithasol a hefyd strategaeth a chapasiti, yn ogystal â pherfformiad ac ansawdd, gweledigaeth, newid sefydliadol a chryfhau'r sefyllfa gyllidebol. Mae Cyngor Powys wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion hyn ond mae'n dal i wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â chryfhau ei arweinyddiaeth a'i gapasiti corfforaethol.

Mae Cynadleddau Gwella a Chymorth, gan gynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, AGGCC a CLILC, yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd i drafod ble y gellid cynnig cymorth ychwanegol i gefnogi gwella'r awdurdodau lleol.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir arian hefyd i dalu costau taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae arian wedi'i dargedu yn cael ei ychwanegu at y dyraniad craidd er mwyn helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Yn ei Ddatganiad Llywodraethiant ar gyfer 2017-18 mae Prif Weithredwr y GIG wedi adrodd bod pob BILl a phob Ymddiriedolaeth y GIG wedi datgan eu hasesiad, yn eu priod Ddatganiadau Llywodraethiant Blynyddol, fod systemau cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi darparu eu nodau ac amcanion polisi ar gyfer 2017-18. Mae chwe BILl a phob un o dair Ymddiriedolaeth y GIG wedi casglu nad oes materion llywodraethiant sylweddol yn y Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol, ond maent wedi nodi meysydd llywodraethiant lle y mae angen gwelliannau. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rai materion rheolaeth fewnol neu lywodraethiant yn ymwneud ag adborth oddi wrth: Llywodraeth Cymru gan gynnwys mesurau arbennig, Asesiad Strwythuredig a Chyd-adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, adroddiadau Archwilio Mewnol a chanfyddiadau ymchwiliad Gwasanaeth Cynghori Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r gofal a roddwyd o gleifion ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd.

2017-18 yw'r bedwaredd flwyddyn i gyfrifon BILl ac Ymddiriedolaethau'r GIG gael eu paratoi o dan drefn ariannol tair blynedd y GIG a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), gydag effaith o 1 Ebrill 2014.

Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn bod holl gyfrifon y GIG ar gyfer 2017-18 yn 'gywir a theg'. Mae chwech o'r deg corff wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros gyfnod statudol drwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu tair blynedd. Cynhyrchodd Aneurin Bevan a Chwm Taf wargedau yn 2017-18 o £5.4 miliwn a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru i'w hailddarparu yn 2018-19.

Ni wnaeth pedwar o'r deg corff gyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd: Gweithiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o fewn ei ddyraniad ar gyfer 2015-16 ond methodd â gwneud hynny ar gyfer 2016-17 a 2017-18; gweithiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o fewn ei ddyraniad ar gyfer 2015-16 ond methodd â gwneud hynny yn 2016-17 a 2017-18; methodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda â gweithio o fewn eu dyraniadau yn ystod pob un o'r tair blynedd dan sylw. Felly, mae'r pedwar corff hwn wedi methu â bodloni eu dyletswydd statudol ar gyfer yr ail gyfnod o dair blynedd, ac o ganlyniad, maent wedi cael barn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer eu cyfrifon yn 2017-18.

Yn 2017-18, dywedodd y pedwar bwrdd iechyd hyn na fyddent yn gallu mantoli'r gyllideb a chynlluniasant ar gyfer diffyg yn eu halldro. I gynnal disgyblaeth ariannol y cyrff hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfansymiau rheolaeth ariannol ar gyfer uchafswm y diffyg yn 2017-18. Mae dau gorff – Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro – wedi gwella eu sefyllfa o ran diffyg yn 2017-18 o'i chymharu â 2016-17, ac roedd eu canlyniadau hefyd yn well na'r cyfansymiau rheoli diffyg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2015-16 a 2016-17, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid afreolaidd ychwanegol o £14.4m yn ystod pob blwyddyn i Fwrdd Iechyd Hywel Dda, fel cymorth strwythurol tymor byr. Yn ystod 2017-18, ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol, gan fod Llywodraeth Cymru ar fin comisiynu adolygiad seiliedig ar sero o sylfaen gost y Bwrdd. Ar 23 Mai 2018, cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw a gadarnhaodd yn rhannol fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn wynebu cyfres unigryw o heriau gofal iechyd sydd wedi cyfrannu at y diffygion a ysgwyddir gan y Bwrdd. Mewn ymateb caiff £27m o gyllid cylchol ychwanegol o ei ddarparu i Hywel Dda o 2018-19 ymlaen.

Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn dal i fod o dan Fesurau Arbennig ac, er gwaetha'r cynnydd a wnaed mewn rhai meysydd pwysig, mae'n dal i wynebu heriau sylweddol. Yn ystod 2017-18, yn ogystal â meysydd eraill sydd o dan fesurau arbennig, cafodd y statws uwchgyfeirio ei godi mewn perthynas â rheolaeth ariannol a meysydd perfformiad allweddol. Rhoddwyd fframwaith i'r Bwrdd Iechyd ar 8 Mai 2018 sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer y 18 mis nesaf.

Mae pob bwrdd iechyd lleol a adroddodd am ddiffygion ariannol yn 2017-18 wedi cael adroddiadau o adolygiadau llywodraethiant ariannol annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent wedi datblygu a chyhoeddi cynlluniau gweithredu i'w rhoi ar waith. Mae cynnydd ar gyflawni'r camau hyn yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd ymyrraeth rheolaidd Llywodraeth Cymru â'r byrddau hyn. Aeth y pedwar bwrdd iechyd a fethodd â mantoli'r cyfrifon yn 2017/18 i ddiffygion o £167.5m.

Mae cymorth arian parod ychwanegol yn parhau i gael ei roi yn ôl yr angen i'r holl fyrddau sydd mewn diffyg ariannol i'w galluogi i gyflawni eu hymrwymiadau arian parod arferol, gan gynnwys gwariant y gyflogres. Bydd modd ad-dalu'r cymorth arian parod hwn yn ystod blynyddoedd ariannol y dyfodol pan fo'n briodol, a phan fo cynlluniau gwell wedi'u datblygu a'u cymeradwyo.

Gan gymryd i ystyriaeth y gwargedau byrddau Iechyd a gafodd eu brocera yn ystod 2017-18, ac effaith newidiadau i gyllid strwythurol anghylchol Hywel Dda, roedd yr alldro net cyffredinol ar gyfer GIG Cymru yn 2017-18 ychydig yn well na sefyllfa 2016-17.

Cymerwyd camau drwy gydol 2017-18 i reoli'r diffygion a gafwyd yn y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw'r dyraniad i'r cyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i dorri ac nid yw cyllideb Llywodraeth Cymru yn gyffredinol wedi'i thorri.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae nifer o risgiau digwyddiadol (heriol ond annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio, er enghraifft, ei chyfrifoldebau pe bai achosion o glefyd pobl neu anifeiliaid yn codi yng Nghymru, ei chyfrifoldeb dros seilwaith trafnidiaeth Cymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru. Yn ogystal â risgiau digwyddiadol, mae Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo nifer o risgiau hirdymor lle mae'r risg yn deillio o'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y canlyniad neu'r gost iddi, megis Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r cynllun "Cymorth Prynu". O ddydd i ddydd mae risgiau gweithredol yn codi, yn gyffredinol, yn sgil yr her o sicrhau digon o gapasiti a galluogrwydd i gynghori ar amcanion polisi allweddol y Prif Weinidog a'i Gabinet, ac i'w cyflawni.

Y mater mwyaf allweddol ar y Gofrestr Risg Corfforaethol yw lefel yr ansicrwydd ynghylch amseriad a chanlyniad y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn ogystal â'i effaith debygol ar Gymru, a allai beri bygythiadau a chyfleoedd i economi Cymru yn gyffredinol. Er bod rhai materion wedi dechrau dod yn gliriach, mae gormod o ansicrwydd o hyd i allu asesu'r effaith gyffredinol.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru'n adolygu adnoddau yn ymwneud â Brexit yn rheolaidd. Mae Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn arwain y gwaith o ddatblygu Polisi Strategol ac yn cydgysylltu gwaith Llywodraeth Cymru ar ymadawiad y DU â'r UE ac yn arddel ein buddiannau a'n blaenoriaethau, fel y'u nodir yn y Papur Gwyn 'Diogelu Dyfodol Cymru' (Ionawr 2017). Roedd dogfennau polisi pellach a gyhoeddwyd yn 2017/18 yn ymwneud â 'Brexit a Datganoli', Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl' a 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' a 'Polisi Masnachu: y materion i Gymru'.

Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn rhoi cyfeiriad strategol ac yn sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol yn cael eu gwneud i sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae Grŵp o Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd sy'n cynrychioli adrannau ar draws Llywodraeth Cymru yn cefnogi Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae is-grwpiau ar Ddeddfwriaeth, Fframweithiau a'r Economi yn cefnogi'r gwaith.

Mae'r tîm yn parhau i gydweithio'n agos â thîm Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac ar draws adrannau polisi perthnasol, ac yn creu cysylltiadau â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill trwy system y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a sianeli eraill. Mae Grŵp Cynghori allanol ar Ewrop yn cynghori Llywodraeth Cymru ar y goblygiadau i Gymru pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ochr yn ochr ag ystod o fforymau rhanddeiliad eraill.

Yn gysylltiedig â'r risg hwn mae gallu a galluogrwydd swyddogion yn Llywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau a'r llwyth gwaith a ddisgwylir yn sgil y Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn dal yn destun pryder. Cafodd rhaglen sylweddol i ddiogelu'r gweithlu at y dyfodol i allu darparu yn effeithiol ac yn hyblyg ei rhoi ar waith yn y flwyddyn a bydd yn gallu cefnogi ail-flaenoriaethu adnoddau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd wedi cynnwys nifer o risgiau newydd yn ystod y flwyddyn sef:

- y risg o dân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru;
- y risgiau sydd ynghlwm wrth ddarparu strategaethau trawsbynciol a nodir yn "Ffyniant i Bawb" a "Symud Cymru Ymlaen";
- nifer o raglenni o bwys a nodwyd yn Ffyniant i Bawb fel gweithgareddau blaenoriaethol sy'n allweddol i ddarparu strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru, megis y Rhaglen Addysg a nodau uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Yn ogystal, yn sgil methiant Carillion Group, cynhaliwyd ymarfer i asesu'r risg sydd i Lywodraeth Cymru. Nododd swyddogion nifer bach o gontractau a osodwyd i Carillion gan Lywodraeth Cymru ond oherwydd camau a gymerwyd adeg gosod y contractau hyn llwyddwyd i ddiogelu buddiannau Llywodraeth Cymru.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Seilir polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru ar ganllawiau "Llyfr Oren" Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli risg ac mae'n anelu at sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai methiant ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi'u hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac maent wedi'u trafod hefyd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Cafodd risgiau grŵp eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Risg y Grŵp ac fe gawsant eu llywio gan gofrestri risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel adrannol.

## Cyfarwyddyd Gweinidogol

Mae fy atebolrwydd yn ei gwneud yn ofynnol imi sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion priodoldeb a gwerth am arian. Os wyf fi, neu fy swyddogion, yn cael ein cyfarwyddo i gymryd cam gweithredu arbennig ond yn credu nad yw'n bodloni'r safon hon, disgwylir imi hysbysu'r Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol ac, os oes angen, ofyn am eu cyfarwyddyd ffurfiol i barhau â'r cam gweithredu hwnnw. Yn ystod y cyfnod y cyfrifon hyn a'u llofnodi, nid oes unrhyw Gyfarwyddydau Gweinidogol wedi'u cyhoeddi gan Ysgrifenyddion Cabinet Cymru na Gweinidogion Cymru.

## Casgliad

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**

17 Medi 2018

# Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 2017-18

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Caiff taliadau cydnabyddiaeth uwch-weision sifil eu pennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori ar dâl a phensiynau Gweinidogion lle caiff tâl ei bennu gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

c) y ffordd o reoli talent mewnol,

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf; a

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellid eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r rheolwyr ar y lefel uchaf (h.y. Aelodau'r Bwrdd).

### Tâl cydnabyddiaeth

Nodir taliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet ac aelodau'r Bwrdd, a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, ar y dudalen nesaf. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Cynulliad o £65,344 (2016-17: £64,000). Ni chaiff buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad eu cynnwys yn y tabl.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth - Gweinidogion

| Gweinidogion | Cyflog 2017-18 £ | Cyflog 2016-17 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] 2017-18 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] 2016-17 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf 2016-17 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Carwyn Jones**<br>Prif Weinidog Cymru | 142,940 | 139,319 | 49,000 | 146,000 | 192,000 | 285,000 |
| **Mark Drakeford**<br>Ysgrifennydd Cabinet | 102,100 | 99,531 | 42,000 | 69,000 | 144,000 | 169,000 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/2016 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/2016 | 102,100 | 97,503 | 34,000 | 66,000 | 136,000 | 164,000 |
| **Lesley Griffiths**<br>Ysgrifennydd Cabinet | 102,100 | 99,531 | 34,000 | 99,000 | 136,000 | 199,000 |
| **Jane Hutt**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 19/05/2016 ac yna Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip o 20/05/2016 i 03/11/2017 | 60,409 | 99,531 | 35,000 | 179,000 | 95,000 | 279,000 |
| **Carl Sargeant**<br>Ysgrifennydd Cabinet hyd at 03/11/2017 | 60,409 | 99,531 | 22,000 | 101,000 | 82,000 | 201,000 |
| **Ken Skates**<br>Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/2016 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/2016 | 102,100 | 97,503 | 32,000 | 42,000 | 134,000 | 140,000 |
| **Kirsty Williams**<br>Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/2016 | 102,100 | 86,559 | 34,000 | 88,000 | 136,000 | 175,000 |
| **Jeremy Miles**<br>Cwnsler Cyffredinol o 04/11/2017 | 41,692 | – | 13,000 | – | 55,000 | – |
| **Mick Antoniw**<br>Cwnsler Cyffredinol o 29/06/2016 i 03/11/2017 | 60,409 | 75,556 | 28,000 | 74,000 | 88,000 | 150,000 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru | 86,785 | 84,519 | 28,000 | 52,000 | 115,000 | 137,000 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 03/11/2017 ac yna Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip o 04/11/2017 | 93,039 | 84,519 | 29,000 | 51,000 | 122,000 | 136,000 |
| **Alun Davies**<br>Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru o 20/05/2016 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 04/11/2017 | 93,039 | 73,575 | 30,000 | 57,000 | 123,000 | 131,000 |
| **Hannah Blythyn**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 35,437 | – | 12,000 | – | 47,000 | – |
| **Dafydd Elis-Thomas**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 35,437 | – | 5,000 | – | 40,000 | – |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 35,437 | – | 11,000 | – | 46,000 | – |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 35,437 | – | 12,000 | – | 47,000 | – |

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – Gweinidogion (parhad)

| Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar yr oedran pensiwn fel y mae ar 31/03/18<br>£000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn adeg oedran pensiwn<br>£000 | CETV ar 31/03/18<br>£000 | CETV ar 31/03/17<br>£000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Carwyn Jones**[1]<br>Prif Weinidog Cymru | 55-60 | 2.5-5 | 745 | 669 | 18 |
| **Mark Drakeford**<br>Ysgrifennydd Cabinet | 15-20 | 2.5-5 | 302 | 241 | 35 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/2016 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/2016 | 20-25 | 0-2.5 | 206 | 177 | 8 |
| **Lesley Griffiths**<br>Ysgrifennydd Cabinet | 30-35 | 0-2.5 | 472 | 414 | 20 |
| **Jane Hutt**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 19/05/2016 ac yna Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip o 20/05/2016 i 03/11/2017 | 55-60 | 0-2.5 | 1,019 | 967 | 29 |
| **Carl Sargeant**<br>Ysgrifennydd Cabinet i 03/11/2017 | 30-35 | 0-2-5 | 354 | 324 | 8 |
| **Ken Skates**<br>Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/2016 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/2016 | 10-15 | 0-2-5 | 98 | 77 | 5 |
| **Kirsty Williams**[1]<br>Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/2016 | 30-35 | 0-2-5 | 370 | 328 | 10 |
| **Jeremy Miles**<br>Cwnsler Cyffredinol o 04/11/2017 | 0-5 | 0-2-5 | 25 | 17 | 3 |
| **Mick Antoniw**<br>Cwnsler Cyffredinol o 29/06/2016 03/11/2017 | 25-30 | 0-2-5 | 442 | 392 | 23 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru | 10-15 | 0-2-5 | 114 | 95 | 5 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru hyd at 03/11/2017 ac yna Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip o 04/11/2017 | 10-15 | 0-2-5 | 208 | 168 | 19 |
| **Alun Davies**<br>Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru o 20/05/2016 ac yna Ysgrifennydd y Cabinet o 04/11/2017 | 20-25 | 0-2-5 | 264 | 227 | 13 |
| **Hannah Blythyn**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 0-5 | 0-2-5 | 18 | 13 | 1 |
| **Dafydd Elis-Thomas**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 55-60 | 0-2-5 | 912 | 897 | 4 |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 0-5 | 0-2-5 | 36 | 26 | 5 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru o 04/11/2017 | 0-5 | 0-2-5 | 28 | 19 | 4 |

[1] Mae'r CETV ar ddechrau'r flwyddyn wedi cael ei ailddatgan ar gyfer yr aelodau hyn i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn gallu cymryd pensiwn eu cyflog terfynol hen ei leihau cyn 65 oed.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth - Gweinidogion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Cynulliad a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod Cynulliad yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Cynulliad oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig, mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio, ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn cyfrannu 19.9% o gyflogau cyfanredol Aelodau. Mae aelodau nad ydynt yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio yn talu cyfraniadau ar raddfa o 10.5%. Mae'r aelodau hynny sy'n cael eu diogelu yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6% neu 10% yn dibynnu ar p'un a ydynt yn cronni buddion ar sail croniad 50fed neu 40fed yn ôl eu trefn.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

### Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau (fel y nodir mewn cyfrifon blaenorol) yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r system a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad i hyn, gall y ffigurau gael eu dylanwadu gan ffactorau eraill fel unigolyn yn penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan, ac felly nid ydynt bob tro yn adlewyrchu'n gywir symiau gwirioneddol y pensiwn a dalwyd neu a enillwyd gan unigolyn mewn blwyddyn. Er hynny, mae'r system hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Uwch-swyddogion | Cyflog 2017-18 £000 | Cyflog 2016-17 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**[1] Ysgrifennydd Parhaol o 06/02/2017 | 155-160 | 20-25 (cyfwerth â blwyddyn lawn 155-160) | * | 85-90 | 155-160 | 110-115 |
| **Andrew Goodall**[2] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 200-205 | 195-200 | – | * | 200-205 | 195-200 |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 20/11/2017 | 40-45 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115-120) | – | 15-20 | – | 60-65 | – |
| **Des Clifford** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 29/01/2018 | 20-25 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115-120) | – | 20-25 | – | 40-45 | – |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol o 01/01/2018 | 30-35 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115-120) | – | 40-45 | – | 70-75 | – |
| **Owen Evans** Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol hyd at 30/09/2017 | 70-75 (cyfwerth â blwyddyn lawn 140-145) | 140-145 | 25-30 | 50-55 | 95-100 | 195-200 |
| **James Price**[3] Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol hyd at 31/12/2017 | 110-115 (cyfwerth â blwyddyn lawn 140-145) | 140-145 | 60-65 | 65-70 | 170-175 | 205-210 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 100-105 | 100-105 | 10-15 | 10-15 | 115-120 | 110-115 |
| **Jeff Godfrey** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 110-115 | 105-110 | 15-20 | 10-15 | 125-130 | 120-125 |
| **Natalie Pearson**[3] Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 75-80 | 75-80 | 10-15 | 10-15 | 90-95 | 85-90 |
| **Gillian Baranski** Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 120-125 | 105-110 (full year equivalent 115-120) | 70-75 | 55-60 | 195-200 | 165-170 |
| **Sioned Evans** Cadeirydd y Grŵp Gweithrediadau hyd at 30/04/2017 | 5-10 (full year equivalent 85-90) | 75-80 | 0-5 | 25-30 | 5-10 | 100-105 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 90-95 | 90-95 | 15-20 | 10-15 | 110-115 | 105-110 |
| **Gawain Evans**[1,3] Cyfarwyddwr Cyllid | 100-105 | 85-90 | * | 70-75 | 100-105 | 155-160 |

Tudalen y pecyn 108

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru (Parhad)

| Uwch-swyddogion | Cyflog 2017-18 £000 | Cyflog 2016-17 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2017-18 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Elan Closs Stephens**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | – | – | 10-15 | 10-15 |
| **James Turner**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | – | – | 10-15 | 10-15 |
| **Ann Keane**[5]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 30-35 | 20-25 | – | – | 30-35 | 20-25 |
| **Ellen Donovan**[6]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol o 27/02/2018 | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | – | – | – | 0-5 | – |
| **Jeff Farrar**[6]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol o 27/02/2018 | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | – | – | – | 0-5 | – |
| **Sir Adrian Webb**[4]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol hyd at 15/12/2017 | 5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | 10-15 | – | – | 5-10 | 10-15 |

[1] Nid yw'r budd pensiwn ar gyfer Shan Morgan a Gawain Evans wedi'i gynnwys uchod gan nad yw'r cyfrifiad rhifyddeg £465-470,000 a £105-110,000 yn eu trefn yn arwydd o'r budd gwirioneddol a gafwyd yn y flwyddyn. Er nad yw'r rhifau a gyflwynir yn arwydd o'r budd gwirioneddol a gafwyd, mae'r fformat yn orfodol ac yn destun archwilio.

[2] Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ar gyfer 2017-18 dewisodd beidio â chael ei gynnwys o dan drefniadau pensiwn y GIG Nid yw'r budd pensiwn ar gyfer 2016-17 wedi'i gynnwys uchod gan nad yw'r cyfrifiad rhifyddeg (£210-215,000) yn arwydd o'r budd gwirioneddol a gafwyd yn y flwyddyn. Optiodd allan o'r cynllun pensiwn yn ystod 2015-16, wedyn yn ôl i mewn ac wedyn allan o'r cynllun pensiwn yn ystod 2016-17.

[3] Mae addasiadau pensiwn ôl-weithredol wedi'u gwneud i ffigurau 2016-17.

[4] Mae cyflog Syr Adrian Webb yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £853 a dalwyd ym mis Ebrill 17 ond a gynhaliwyd yn 2015-16 am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru.

[5] Mae cyflog Ann Keane yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £19,576 (2016-17:£8,629) am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru.

[6] Mynychodd Ellen Donovan a Jeff Farrar gyfarfod y Bwrdd ym Mawrth 2018 ond ni chawsant dâl am hyn tan Ebrill 2018.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru (Parhad)

| Uwch-swyddogion | Pensiwn a gronnir adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/18 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/18 £000 | CETV ar 31/03/17 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan** Ysgrifennydd Parhaol o 06/02/2017 | 95-100 ynghyd â chyfandaliad o 155-160 | 20-22.5 ynghyd â chyfandaliad o 32.5-35 | 1,953 | 1,492 | 434 |
| **Andrew Goodall** Cyfarwyddwr Cyffredinol | – | – | – | 740 | – |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol (o 20/11/2017) | 25-30 | 0-2.5 | 352 | 337 | 10 |
| **Des Clifford** Cyfarwyddwr Cyffredinol (o 29/01/2018) | 25-30 ynghyd â chyfandaliad o 80-85 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 576 | 551 | 21 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol (o 01/01/2018) | 35-40 Ynghyd â chyfandaliad o 80-85 | 0-2.5 Ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 546 | 512 | 28 |
| **Owen Evans** Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol (hyd at 30/09/2017) | 20-25 | 0-2.5 | 244 | 226 | 12 |
| **James Price**[3] Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol (hyd at 31/12/17) | 50-55 | 2.5-5 | 641 | 576 | 28 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 155-160 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 1,118 | 1,086 | 12 |
| **Jeff Godfrey** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 140-145 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 1,029 | 952 | 15 |
| **Natalie Pearson**[3] Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 25-30 ynghyd â chyfandaliad o 75-80 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 522 | 478 | 10 |
| **Gillian Baranski** Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 25-30 | 2.5-5 | 509 | 421 | 72 |
| **Sioned Evans** Cadeirydd y Grŵp Gweithrediadau 30/04/2017 | 15-20 ynghyd â chyfandaliad o 45-50 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 314 | 304 | 1 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 25-30 ynghyd â chyfandaliad o 80-85 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 569 | 520 | 13 |
| **Gawain Evans**[1, 3] Cyfarwyddwr Cyllid | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 105-110 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 7.5-10 | 739 | 616 | 79 |

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Caiff unrhyw daliadau a wneir eu talu ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Gwaith Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yw gweithredu polisi tâl uwch-weision y DU a chymeradwyo unrhyw ddyraniadau, asesu'r cyfraniadau perthnasol a pherfformiad Uwch-weision Sifil yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, un Cyfarwyddwr Cyffredinol a thri Cyfarwyddwr anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Aseswyd nad oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n derbyn y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio'r cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2017-18 oedd £200-205,000 (2016-17: £195,000-200,000). Roedd hyn yn 5.6 gwaith (2016-17: 5.7) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £35,750 (2016-17: £34,750). Ar sail tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio yr Ysgrifennydd Parhaol y gymhareb yw 4.5(2016-17: 4.6). Yn 2017-18 a 2016-17 ni chafodd unrhyw gyflogeion dâl cydnabyddiaeth yn uwch na'r cyfarwyddwr a dalwyd y swm uchaf. Roedd y tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o £17,200 i £205,000 (2016-17: £17,200 i £199,000).

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gydgrynhoi a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

# Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Staff Eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2017-18 | Cyfanswm 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **75,275** | **1,981** | **9** | **77,265** | **76,178** |
| O'r rhain: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 4,881 | 132 | 9 | 5,022 | 5,111 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 69,654 | 1,849 | – | 71,503 | 70,302 |
| Is-gwmnïau | 740 | – | – | 740 | 765 |

* O gyfanswm Llywodraeth Cymru: Cyrff rheoleiddio a chyflawni – 711; Tribiwnlysoedd – 27.

## Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb eu harchwilio)

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 62% | 38% |
| Uwch Wasanaeth Sifil | 59% | 41% |
| Pob Staff | 41% | 59% |

* Mae'n nod gan Lywodraeth Cymru i gael rhaniad o 50:50 erbyn 2020.

## Costau staff

| | Staff a gyflogwyd yn barhaol £m | Arall Staff £m | Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 Cyfanswm £m | Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Cyflogau | 204 | 6 | 210 | 203 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 23 | – | 23 | 22 |
| Costau Pensiwn Eraill | 53 | – | 53 | 48 |
| **Cyfanswm** | **280** | **6** | **286** | **273** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | – | (2) | (1) |
| **Costau net staff** | **278** | **6** | **284** | **272** |
| **Wedi'u cydgrynhoi** | | | | |
| Cyflogau | 2,777 | 167 | 2,944 | 2,871 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 271 | 1 | 272 | 260 |
| Costau Pensiwn Eraill | 372 | – | 372 | 355 |
| **Cyfanswm** | **3,420** | **168** | **3,588** | **3,486** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | – | (2) | (1) |
| **Costau net staff** | **3,418** | **168** | **3,586** | **3,485** |

* Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau swyddfa breifat. Talwyd cyfanswm o £681,621 (wedi'i ailddatgan 2016-17 – £571,445) i gynghorwyr arbennig ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys pensiwn a chostau nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Caiff cyflogau Gweinidogion Cymru eu talu gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny. O ran nifer y staff sydd â chyflog dros £100k, roedd 37 o staff yr oedd eu cyflog FTE yn uwch na £100k ar 31 Mawrth 2018. O'r rhain, roedd 3 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion felly o dan y trothwy o £100k.

## Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun **alpha**. O dan y cynllun hwnnw, darperir buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system bensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol yr aelod (**classic, premium neu classic plus**), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan yr aelod (nuvos), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu, a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. i Os oes gan swyddog fuddion PCSPS a buddion **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn seiliedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau o **classic premium, classic plus, nuvos** and **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/80th o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy deg ymddeol. Mae buddion yn **premium** yn cronni ar y gyfradd o 1/60th o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig, hybrid yw **classic plus** i bob pwrpas gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel ar gyfer **classic** a buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos **premium**. Yn **novos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar diwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn sydd wedi'i ennill gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y cynnydd mewn pensiynau. Mae buddion yn aplha'n cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai 2.3% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partnership**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr.

## Pensiynau (Parhad)

Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau'r cynlluniau **classic, premium** a **classic plus** yw 60, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun **nuvos**, a naill ai 65 neu eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions.

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y cynllun gan Actiwari'r Cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2017-18, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £39,996,547 yn daladwy i'r PCSPS (2016-17: £39,714,603) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0 i 24.5 y cant (2016-17: 20.0 i 24.5) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau eu pennu i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2016-17 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partnership, sef pensiwn cyfranddeiliaid lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £190,298 (2016-17: £184,495 (184,495-16: £165,822) eu talu i un aelod neu ragor o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 o 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £6,569, 0.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol pe bai gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partnership ar ddyddiad y fantolen (2016-17: dim: Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y ddyddiad hwnnw (2015-16: £dim).

Ymddeolodd dau unigolyn yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £13,749.

## Pensiynau (Parhad)

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Caiff asedau'r cynllun eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a chaiff y buddion hyn eu darparu ar sail talu wrth fynd. Caiff manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol eu cynnwys yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Ni chafwyd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar yn 2017-18 na 2016-17.

Ar gyfer 2017-18 156(2016-17:21) mae cyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael rhwng 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2018. Y taliadau iawndal yw £5,894,548 (2016-17: £709,287). Ar gyfer pob achos, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun gorfodol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu talu gan y cynllun pensiwn ac ni chânt eu cynnwys yn y tabl.

| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2017-18 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | | | | |
| <£10,000 | – | 9 | 9 | 1 |
| £10,000 – £25,000 | – | 52 | 52 | 5 |
| £25,000 – £50,000 | – | 51 | 51 | 12 |
| £50,000 – £100,000 | – | 44 | 44 | 3 |
| £100,000 – £150,000 | – | – | – | – |
| £150,000 – £200,000 | – | – | – | – |
| £200,000+ | – | – | – | – |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **–** | **156** | **156** | **21** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **–** | **5,884,548** | **5,884,548** | **709,287** |

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Mewn rhai achosion, taliadau arian parod yw'r rhain, ond mewn achosion eraill mae costau'n cynnwys pethau fel cael mynediad cynnar at gostau pensiwn, costau pensiwn rhwng dyddiad gadael ac oedran ymddeol y cynllun.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Mae'r gostyngiad mewn absenoldeb tymor hir oherwydd salwch o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol wedi parhau wrth i'r Strategaeth Iechyd a Llesiant ddechrau darparu cymorth a chefnogaeth i reolwyr a staff yn fwy cyffredinol. Cafodd cynnydd mewn absenoldeb tymor byr yn nhri mis olaf y flwyddyn, a hynny yn bennaf oherwydd tywydd eithafol, effaith negyddol ar lefel absenoldeb oherwydd salwch, er i ganran y staff sydd heb gymryd absenoldeb salwch aros ar yr un lefel o'r flwyddyn flaenorol.

| Absenoldeb oherwydd Salwch yn Llywodraeth Cymru | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 17,818 | 17,354 | 18,967 | 20,631 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 22,627 | 22,876 | 23,977 | 23,161 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)** | **40,445** | **40,230** | **42,944** | **43,792** |
| Cyfanswm blynyddoedd staff | 5,035 | 5,155 | 5,307 | 5,519 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 5,682 | 5,691 | 5,964 | 6,134 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 2,490 | 2,529 | 2,479 | 2,500 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 44% | 44% | 42% | 41% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 8.0 | 7.8 | 8.1 | 7.9 |

## Datguddiadau Atebolrwydd

| Datganiad Colledion | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 175 | 118 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 8,202 | 2,180 |

Manylion y colledion dros £300,000:

| | | |
|---|---|---|
| Colledion storfa | Stociau o gyffuriau sydd wedi dod i ben | £511,245 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | McKenzie Interior | £312,873 |
| | Cardiff Aviation Ltd | £861,761 |
| | Kancoat Ltd | £3,054,112 |
| | G24 Innovations Ltd | £1,176,081 |
| | Regal Fayre UK Ltd | £365,497 |
| | Achos Llys Traffig Ffyrdd | £1,703,897 |

| Taliadau Arbennig | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y Taliadau Arbennig | 7 | 8 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 1,902 | 543 |

Caiff colledion ar gyfer cwmnïau grŵp eraill eu dangos mewn manylder yn eu cyfrifon eu hunain.

# Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

| | Cyllideb 2017-18<br>Gwariant net £m | Alldro 2017-18<br>Gwariant net £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb<br>Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| **CWMPAS** | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,750 | 7,731 | 19 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 4,286 | 4,286 | – |
| Addysg | 2,535 | 2,408 | 127 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,298 | 1,268 | 30 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 377 | 374 | 3 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 335 | 315 | 20 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **16,581** | **16,382** | **199** |
| **Incwm** | **913** | **818** | **95** |
| **Gwariant gros** | **17,494** | **17,200** | **294** |

Dengys y tabl uchod fformat cwmpasoedd ar gyfer 2017-18 yn dilyn newidiadau a wnaed yn Nhachwedd 2017. Dangosir isod strwythur blaenorol cwmpasoedd yn y flwyddyn ariannol 2016-17. Mae cwmpas Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017-18 wedi newid o 2016-17 gan fod y cyfraniad Yswiriant Gwladol a oedd gynt yn cael ei drin fel Incwm a'i ddangos fel gwariant net yn 2016-17, bellach yn cael ei drin fel Cyllid.

| **CWMPAS** | Alldro 2016-17<br>Gwariant net<br>£m |
|---|---|
| Iechyd, Llesiant a Chwaraeon | 6,063 |
| Llywodraeth Leol | 3,340 |
| Addysg | 2,175 |
| Yr Economi a'r Seilwaith | 823 |
| Cymunedau a Phlant | 768 |
| Yr Amgylchedd a Materion Gwledig | 370 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 307 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **13,846** |
| **Incwm** | **1,815** |
| **Gwariant gros** | **15,661** |

## Egluro amrywiannau dros £10m

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol tanwariant o £19m

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): tanwariant o £13.2m; o hyn mae £10.6m yn ymwneud â thanwariant ar gyllidebau optegol a fferyllol a ddelir yn ganolog yn y MEG yn hytrach nag yn rhan o'r dyraniad â therfyn arian parod o gyrff y GIG. Arweinir y cyllidebau hyn gan y galw ac felly maent yn anodd eu darogan. Cafwyd llithriant o £5.4m hefyd ar gyllidebau refeniw gofal plant. Yn dilyn ailwerthusiad pum mlynedd, cafwyd tanwariant o £6m yn achos cyllidebau a glustnodwyd ar gyfer dibrisiant ar asedau yn asedau y GIG. Cafwyd gorwariant cyfalaf o £9m. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y swm y mae Llywodraeth Cymru'n ei gario ymlaen o fewn cronfa wrth gefn Cymru cafodd nifer o gynlluniau cyfalaf

eu hariannu yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME: tanwariant o £9m: Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud ag amhariad asedau o fewn ystad y GIG. Mae'r gweddill yn ymwneud â symudiadau ar ddarpariaethau'r GIG. Pwynt technegol alinio'r gyllideb £2.6m: Mae'r amrywiannau yn erbyn cyllidebau Trysorlys ei Mawrhydi yn i) a ii) uchod yn wahanol ar hyn o bryd i'r hyn a bennir yn y cynnig cyllidebol a thrwy hynny y Datganiad o Alldro Adnoddau. Mae'r gwahaniaeth yn danwariant ar Ymddiriedolaethau'r GIG a chyllidebau dibrisiant cyrff a noddir.

## Addysg – tanwariant o £127m

Cysylltir y tanwariant yn bennaf â'r gyllideb benthyciadau i fyfyrwyr sy'n cael ei harwain gan y galw ac sy'n anodd ei darogan. Mae'r amhariad DEL blynyddol (yng ngwerth disgwyliedig) y llyfrau benthyciadau a gyfrifwyd trwy fodelu ystadegol £78.8 yn llai nag y cyllidebwyd ar ei gyfer. Yn ychwanegol, roedd gwerth y benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd a'r taliadau a wnaed £46.8m yn llai nag a ragwelwyd (AME). Mae amrywiannau bach eraill yn ffurfio gweddill yr amrywiant.

## Yr Economi a'r Trafnidiaeth – tanwariant o £30m

Cafwyd gorwariant cyfalaf o £39.5m. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y swm y mae Llywodraeth Cymru'n ei gario ymlaen o fewn cronfa wrth gefn Cymru cafodd nifer o gynlluniau cyfalaf eu hariannu yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Cafodd hyn ei osod yn erbyn tanwariant o 34m ar ddibrisiant yn dilyn yr arolwg blynyddol o gyflwr y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd a thanwariant o ostyngiad yn y gofyniad ar gyfer darpariaethau a rhwymedigaethau yn erbyn prosiectau mawr. Cafwyd tanwariant o £41.7m ar gyllidebau AMW, yn bennaf o leihad yn y gofyniad ar gyfer darpariaethau a thaliadau yn erbyn prosiectau mawr. Mae'r gwahaniaeth o £6.5m sy'n weddill yn ymwneud ag addasiadau alinio ar gyfer Banc Datblygu Cymru a rhwymedigaethau pensiwn amgueddfeydd a llyfrgelloedd sydd heb eu cydgrynhoi yn y Datganiad o Alldro Adnoddau.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – tanwariant o £20m

Mae elfen fwyaf y tanwariant (£6.2m) yn ymwneud â chynlluniau refeniw a chyfalaf Buddsoddi i Arbed lle'r oedd llai o gyfleoedd buddsoddi da yn 2017-18. Mae cyfran bellach o'r tanwariant yn ymwneud â darpariaeth (£5.4m) ar gyfer rhwymedigaeth pensiwn sy'n anodd ei ddarogan (ac sydd felly'n cael ei drin fel AME). Cafodd arbedion costau staff o £2.2m eu cynhyrchu yn y flwyddyn i wneud i gyllidebau gyd-fynd â gostyngiad yng nghyllidebau blynyddoedd y dyfodol. Roedd tanwariant arall yn cynnwys: £1.8m o arbedion yn gysylltiedig agystad Llywodraeth Cymru; £1.2m o lithriant ar brosiectau TG Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; ac arbedion o £2m yn erbyn y gyllideb gwybodaeth a Gwasanaethau Cynnal. Mae amrywiannau bach eraill yn ffurfio gweddill yr amrywiant.

## Nodiadau

| Gofyniad Arian Parod Net | Alldro 2017-18 £m | Alldro 2016-17 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w gyhoeddi o Gronfa Gyfunol Cymru | 15,657 | 13,754 |
| Cyllid a dynnir i lawr | (15,330) | (13,507) |
| Cyllid heb ei dynnu i lawr | 327 | 247 |

| Cysoni'r alldro a CSoCNE | Alldro 2017-18 £m | Alldro 2016-17 £m |
|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | 16,382 | 13,846 |
| Llai: Cyfalaf, benthyciadau ac addasiadau | (1,103) | (844) |
| Llai Addasiad Cyfunol | (154) | – |
| Gwariant fesul CSoCNE | 15,125 | 13,002 |

| Cysoni adnoddau i ofynion arian parod | Cyllideb 2017-18 £m | Alldro 2017-18 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2016-17 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **16,581** | **16,382** | **199** | **13,846** |
| Dibrisiant | (364) | (318) | (46) | 257 |
| Amhariadau | (365) | (360) | (5) | (321) |
| Symudiadau yn y darpariaethau | (256) | (216) | (40) | (194) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | 60 | (146) | 206 | (76) |
| Arall | – | 80 | (80) | 43 |
| **Gofyniad arian parod net** | **15,656** | **15,422** | **234** | **13,555** |

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
17 Medi 2018

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cenedlaethol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Alldro Adnoddau, y Datgeliadau Atebolrwydd a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi eu harchwilio. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi, sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Llywodraeth Cymru a'r Grŵp fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 ac o'r arian net sydd ei hangen arni, yr alldro adnoddau net a'r costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno; a'u
- bod wedi eu paratoi yn gywir yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Sail fy marn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU. Mae fy nghyfrifoldebau i o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf i'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau yn gysylltiedig â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch yn gysylltiedig â'r materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol imi gyflwyno adroddiad ichi amdanynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i ddefnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Nid yw Cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi cynnwys a ffurf unrhyw wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd, heblaw am y darnau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi eu harchwilio. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr holl wybodaeth arall i nodi unrhyw anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol archwiliedig, ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn anghywir yn seiliedig ar yr wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu sy'n anghyson â'r wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mewn pob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Oherwydd nad yw Cyfarwyddiadau Trysorlys EM yn nodi ffurf a chynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau a yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi eu paratoi yn briodol yn unol â'r Cyfarwyddiadau hynny.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynglŷn â'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch yn gysylltiedig â'r materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad ichi amdanynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol, y Datganiad Alldro Adnoddau, y Datgeliadau Atebolrwydd a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; ac
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM o dan y gorchymyn hwnnw, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Prif Swyddog Cyfrifyddu i alluogi'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol nad oes camddatganiadau perthnasol ynddynt, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni ystyrir hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
27 Medi 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m wedi'i ailddatgan | Grŵp LIC £m wedi'i ailddatgan |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (34) | (37) | (33) | (49) |
| Incwm gweithredol arall | 2 | (631) | (950) | (1,655) | (1,964) |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **(665)** | **(987)** | **(1,688)** | **(2,013)** |
| Costau staff | 3 | 284 | 3,586 | 272 | 3,485 |
| Gwariant | 3 | 15,174 | 12,014 | 13,937 | 10,940 |
| Cost Darpariaeth | 3 | 332 | 435 | 262 | 330 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **15,790** | **16,035** | **14,471** | **14,755** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **15,125** | **15,048** | **12,783** | **12,742** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:**<br>Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net: | | | | | |
| Elw/colled net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (480) | (611) | (548) | (560) |
| Elw/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | | 9 | 3 | (9) | (24) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **14,654** | **14,440** | **12,226** | **12,158** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 74 i 108 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m wedi'i ailddatgan | Grŵp LIC £m wedi'i ailddatgan |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 17,021 | 20,142 | 16,484 | 19,387 |
| Asedau nad ydynt yn ddiriaethol | 5 | 41 | 51 | 14 | 25 |
| Asedau ariannol | 6 | 4,098 | 3,470 | 3,635 | 3,218 |
| Masnach a symiau eraill i'w derbyn | 8 | 30 | 397 | 15 | 301 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **21,190** | **24,060** | **20,148** | **22,931** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel mewn llaw i'w gwerthu | | – | 1 | – | 4 |
| Stocrestri | 7 | 185 | 245 | 194 | 255 |
| Masnach a symiau eraill i'w derbyn | 8 | 184 | 316 | 236 | 380 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 127 | 444 | 141 | 299 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **496** | **1,006** | **571** | **938** |
| **Cyfanswm asedau** | | **21,686** | **25,066** | **20,719** | **23,869** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 10 | (935) | (1,744) | (824) | (1,592) |
| Darpariaethau | 11 | (287) | (287) | (263) | (261) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,222)** | **(2,031)** | **(1,087)** | **(1,853)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **20,464** | **23,035** | **19,632** | **22,016** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 10 | (106) | (167) | (115) | (181) |
| Darpariaethau | 11 | (848) | (859) | (664) | (684) |
| Rhwymedigaethau Eraill | 13 | (77) | (109) | (83) | (118) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,031)** | **(1,135)** | **(862)** | **(983)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | | **19,433** | **21,900** | **18,770** | **21,033** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | 10,802 | 12,767 | 10,615 | 12,491 |
| Cronfa ailbrisiadau | | 8,631 | 9,133 | 8,155 | 8,542 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **19,433** | **21,900** | **18,770** | **21,033** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 74 i 108 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
17 Medi 2018

# Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Lifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m wedi'i ailddatgan | Grŵp LIC £m wedi'i ailddatgan |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredol:** | | | | | |
| Cost weithredol net | | (15,125) | (15,048) | (12,783) | (12,742) |
| Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | 847 | 1,115 | 117 | 353 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | – | – | (1) | (1) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | 14 | 57 | 35 | 11 | (97) |
| Defnyddio darpariaethau | 11 | (111) | (221) | (67) | (143) |
| **All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu** | | **(14,332)** | **(14,119)** | **(12,723)** | **(12,630)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (304) | (583) | (284) | (474) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | 1 | 14 | 4 | 7 |
| Prynu asedau nad ydynt yn ddiriaethol | | (6) | (10) | (1) | (5) |
| Prynu asedau datblygu | | (35) | (35) | (39) | (39) |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 41 | 41 | 28 | 28 |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (816) | (597) | (582) | (533) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 115 | 112 | 95 | 95 |
| **All-lif arian clir o weithgareddau buddsoddi** | | **(1004)** | **(1,058)** | **(779)** | **(921)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (Cyflenwi) – y flwyddyn bresennol | | 15,330 | 15,330 | 13,507 | 13,507 |
| Elfen gyfalaf taliadau ar gyfer lesoedd cyllid a chontractau PFI ar y fantolen | | (8) | (8) | (9) | (9) |
| **Cyllido Net** | | **15,322** | **15,322** | **13,498** | **13,498** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(14)** | **145** | **(4)** | **(53)** |
| Symudiadau mewn derbyniadau anweithredol sydd i'w hildio i Gronfa Gyfunol Cymru | | – | - | 2 | 2 |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | 9 | (14) | 145 | (2) | **(51)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **141** | **299** | **143** | **350** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **127** | **444** | **141** | **299** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 74 i 108 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

## Grŵp Llywodraeth Cymru

| | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | **12,072** | **7,718** | **19,790** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 13,507 | – | 13,507 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (12,742) | – | (12,742) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 560 | 560 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | (264) | 264 | – |
| Addasiadau eraill | (84) | 2 | (82) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan)** | **12,489** | **8,544** | **21,033** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 15,330 | – | 15,330 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (15,048) | – | (15,048) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | 11 | 596 | 607 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 15 | (15) | – |
| Addasiadau eraill | (30) | 8 | (22) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2018** | **12,767** | **9,133** | **21,900** |

## Craidd Llywodraeth Cymru

| | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016 (wedi'i ailddatgan)** | **10,234** | **7,335** | **17,569** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 13,507 | – | 13,507 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (12,783) | – | (12,783) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 547 | 547 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | (273) | 273 | – |
| Addasiadau eraill | (71) | 1 | (70) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan)** | **10,614** | **8,156** | **18,770** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 15,330 | – | 15,330 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (15,125) | – | (15,125) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 480 | 480 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 13 | (13) | – |
| Addasiadau eraill | (30) | 8 | (22) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2018** | **10,802** | **8,631** | **19,433** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 74 i 108 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg wedi'i ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ychwanegol at y prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol Mae'r crynodeb o Alldro sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i gost weithredol net, ac adnoddau i ofyniad arian parod.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo buddsoddi, eiddo, peiriannau a chyfarpar a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn gyfuniad o Lywodraeth Cymru, y saith Bwrdd Iechyd Lleol, Banc Datblygu Cymru (gynt Cyllid Cymru ccc), Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP, WG Holdco Limited a Career Choices Dewis Gyrfa Limited. Mae'r sefydliadau cyfunol hyn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

Mae is-gwmnïau yn cael eu cyfuno o gyfrifon drafftl, heblaw'r Byrddau Iechyd Lleol a WG Holdco Ltd, gan nad oes unrhyw wahaniaeth o sylwedd rhwng cyfrifon drafft a chyfrifon terfynol. Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Cyn 2017-18 roedd y datganiadau cyfunol yn cael eu paratoi ar sail cynnwys endidau a oedd yn berthnasol. O eleni ymlaen, y sail ar gyfer cynnwys endidau yw a ydynt wedi'u dynodi ac a ydynt yn berthnasol.

## 2. 2. Incwm Gweithredol

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 31 | 32 | 26 | 28 |
| Arall | 3 | 5 | 7 | 21 |
| | **34** | **37** | **33** | **49** |
| **Incwm gweithredol arall nad yw'n incwm yr UE** | | | | |
| Cyfraniadau cyllid iechyd Cyllid y Wlad | – | – | 1,141 | 1,141 |
| Llog Benthyciadau i Fyfyrwyr sydd i'w derbyn | 89 | 89 | 64 | 64 |
| Incwm iechyd | 36 | 446 | 40 | 326 |
| Arall | 13 | (85) | 26 | 32 |
| | **138** | **450** | **1,271** | **1,563** |
| **Incwm gweithredol arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 174 | 181 | 100 | 118 |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin | 315 | 315 | 280 | 279 |
| Incwm arall yr UE | 4 | 4 | 4 | 4 |
| | **493** | **500** | **384** | **401** |
| | **665** | **987** | **1,688** | **2,013** |

O ganlyniad i gynnwys Cyfraniadau cyllid iechyd Cyllid y Wlad yng Nghynnig y Gyllideb 2017-18 ar gyfer Cyllid Llywodraeth Cymru, o 2017-18, cyfrifir am y cyfraniadau cyllid iechyd fel cyllid trwy'r Gronfa Gyffredinol.

## 3. Gwariant

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC (wedi'i ailddatgan) £m | Grŵp LIC (wedi'i ailddatgan) £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[1] | 14,333 | 7,621 | 13,761 | 7,439 |
| Nwyddau a gwasanaethau[1] | 298 | 3,652 | 296 | 3,415 |
| Costau staff | 284 | 3,586 | 272 | 3,485 |
| Rhentu o dan lesoedd gweithredu | 9 | 35 | 8 | 32 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 19 | 27 | 16 | 16 |
| Gwerth teg llyfr benthyciadau i fyfyrwyr | 302 | 302 | 306 | 306 |
| Dibrisiant | 161 | 306 | (481) | (341) |
| Amorteiddio | 4 | 8 | 5 | 8 |
| Asedau sydd wedi'u rhoi gan y Llywodraeth | – | (9) | – | (9) |
| Amhariadau | 58 | 85 | 15 | 63 |
| Elw ar warediadau | (7) | (15) | 15 | 15 |
| Cyllid Pensiwn | (2) | 3 | (3) | (3) |
| Rhyddhau grant yr UE | (1) | (1) | (1) | (1) |
| | **15,458** | **15,600** | **14,209** | **14,425** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd yn nifer y darpariaethau | 332 | 435 | 262 | 330 |
| | **15,790** | **16,035** | **14,471** | **14,755** |

[1] Mae gwariant ar Grantiau a Nwyddau a Gwasanaethau yn adlewyrchu dyraniad Alldro Adnoddau Cwmpasoedd.

### Costau staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol am osod barn am ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yw £368,703 (£379,141 2016-17) ac mae wedi'i gynnwys yn Nwyddau a Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 £ | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 £ |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG | 29,770 | 33,716 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 9,774 | 9,951 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 32,689 | 36,715 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 16,475 | 16,475 |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

Yn 2017-18 roedd costau sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru o £6,467,782 yn cael eu cynnwys yng ngwariant Llywodraeth Cymru.

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 |
|---|---|
| Cyfanswm rhoi ar waith | 4,971,251 |
| Cyfanswm Gweithredol | 1,496,531 |
| **Cyfanswm** | **6,467,782** |

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Asedau'r Rhwydwaith £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 17,610 | 403 | 2,515 | 777 | 511 | 21,816 |
| Ychwanegiadau | 89 | – | 33 | 90 | 298 | 510 |
| Gwarediadau | – | (2) | (7) | (63) | – | (72) |
| Trosglwyddiadau | (34) | – | – | (2) | – | (36) |
| Amhariadau | – | 1 | (46) | (4) | (15) | (64) |
| Ailbrisiadau | 558 | 11 | – | – | – | 569 |
| Ailddosbarthwyd i mewn llaw i'w gwerthu | – | (1) | – | – | – | (1) |
| Ailddosbarthu | 1 | 1 | 163 | 11 | (176) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **18,224** | **413** | **2,658** | **809** | **618** | **22,722** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 2,852 | – | 334 | 541 | 2 | 3,729 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn (wedi'i ailddatgan) | (490) | – | 84 | 65 | – | (341) |
| Gwarediadau | – | – | (2) | (63) | – | (65) |
| Trosglwyddiadau | (5) | – | – | (2) | – | (7) |
| Amhariadau | – | – | 3 | – | – | 3 |
| Ailbrisiadau | 13 | – | 3 | – | – | 16 |
| **Ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan)** | **2,370** | **–** | **422** | **541** | **2** | **3,335** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan)** | **15,854** | **413** | **2,236** | **268** | **616** | **19,387** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2016 | 14,758 | 403 | 2,181 | 236 | 509 | 18,087 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar Mawrth 2017** | | | | | | |
| O dan berchnogaeth (wedi'i ailddatgan) | 15,423 | 401 | 2,143 | 266 | 616 | 18,849 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | – | – | 2 | 1 | – | 3 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 431 | 12 | 91 | 1 | – | 535 |
| **Ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan)** | **15,854** | **413** | **2,236** | **268** | **616** | **19,387** |

# 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

| | Asedau'r Rhwydwaith £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 18,224 | 413 | 2,658 | 809 | 618 | 22,722 |
| Ychwanegiadau | 120 | 19 | 32 | 81 | 332 | 584 |
| Gwarediadau | (120) | (1) | (3) | (36) | – | (160) |
| Trosglwyddiadau | (47) | – | – | – | – | (47) |
| Amhariadau | – | (11) | (80) | (5) | (7) | (103) |
| Ailbrisiadau | 555 | (29) | (167) | – | – | 359 |
| Ailddosbarthwyd i mewn llaw i'w gwerthu | – | – | – | – | – | – |
| Ailddosbarthu | – | – | 92 | 10 | (127) | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **18,732** | **391** | **2,532** | **859** | **816** | **23,330** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 (wedi'i ailddatgan) | 2,370 | – | 422 | 541 | 2 | 3,335 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 151 | – | 82 | 72 | – | 305 |
| Gwarediadau | (120) | – | (2) | (36) | – | (158) |
| Trosglwyddiadau | (2) | – | – | – | – | (2) |
| Amhariadau | – | – | (50) | – | – | (50) |
| Ailbrisiadau | 75 | – | (317) | – | – | (242) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,474** | **–** | **135** | **577** | **2** | **3,188** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2018** | **16,258** | **391** | **2,397** | **282** | **814** | **20,142** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018** | | | | | | |
| O dan berchnogaeth | 15,852 | 381 | 2,282 | 281 | 814 | 19,610 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | – | – | 12 | 1 | – | 13 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 406 | 10 | 103 | – | – | 519 |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **16,258** | **391** | **2,397** | **282** | **814** | **20,142** |
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2018** | **16,258** | **46** | **121** | **30** | **566** | **17,021** |
| **BILl ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2018** | | **345** | **2,276** | **252** | **248** | **3,121** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan) | 15,854 | 33 | 122 | 30 | 444 | 16,483 |
| BILl ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2017 | – | 380 | 2,113 | 238 | 172 | 2,903 |

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)

### Asedau'r Rhwydwaith – ailddatgan

Roedd Cyfrifon Blynyddol Cyfunol 2016-17 yn ymgorffori newid mewn meddalwedd a ddefnyddir i amcangyfrif gweddill oes Asedau'r Rhwydwaith. Yn ystod cylch prisio 2017-18 nodwyd gwall yn y feddalwedd newydd a oedd yn golygu bod data 2016-17 a oedd wedi'i rhoi i Lywodraeth Cymru wedi cael ei gamgyfrif. Gwerth y gwall oedd £218m, a ystyrir yn berthnasol ac a arweiniodd at addasiad cyfnod blaenorol. Mae'r cyfrifon wedi'u hailddatgan i ymgorffori effaith y camgyfrif ar ddata a roddwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag amrywio amodau yn ystod 2016-17.

Mae'r newid wedi arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y gwariant gweithredol o £219m a chynnydd yng Ngwerth Net y Llyfr ar Asedau'r Rhwydwaith o £219m.

### Tir ac adeiladau, gan gynnwys Anheddau

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Llywodraeth Cymru eu prisio ar 31 Mawrth 2015 gan GVA Grimley, Syrfewyr Siartredig, ar sail gwerth agored y farchnad gyda'r 'Appraisal and Valuation Manual', a gynhyrchir ar y cyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Cymdeithas Gorfforedig Priswyr ac Arwerthwyr a'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na chan mlynedd, wedi'u hailddatgan yn ôl y gost gyfredol gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bod pum mlynedd, neu yn flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd eraill am brisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae eiddo arbenigol yn cael eu prisio ar sail cost adnewyddu wedi'i dibrisio, yn unol â'r Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio. Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu prisio gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth.

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru'n cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol a gafodd eu hailbrisio gan y Gwasanaeth Prisio Ardal gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2017. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae'n ofynnol i BILl gymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 a phrisio ei hasedau cyfalaf yn ôl gwerth teg. Diffinnir gwerth teg gan IAS16 fel y swm y gellid cyfnewid ased amdano rhwng partïon bodlon, sy'n meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol mewn trafodiad hyd braich.

Mae hyn wedi'i wneud ar y rhagdybiaeth bod yr eiddo'n cael ei werthu fel rhan o'r fenter barhaus sydd wedi'i meddiannu.

# 5. Asedau nad ydynt yn ddiriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 28 | 55 | 40 | 63 |
| Ychwanegiadau | 6 | 10 | 1 | 5 |
| Gwarediadau | – | (1) | (15) | (15) |
| Ailddosbarthiadau | 25 | 26 | 2 | 2 |
| **Ar 31 Mawrth** | **59** | **90** | **28** | **55** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 14 | 31 | 24 | 38 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 4 | 8 | 5 | 8 |
| Gwarediadau | – | – | (15) | (16) |
| **Ar 31 Mawrth** | **18** | **39** | **14** | **30** |
| **Gwerth Net y Llyfr ar 31 Mawrth** | **41** | **51** | **14** | **25** |
| Gwerth Net y Llyfr ar 1 Ebrill | 14 | 24 | 16 | 25 |

# 6. Asedau ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Datgelu Cyhoeddus Ymdd. y GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | 2,585 | 167 | **276** | **3,028** |
| Ychwanegiadau | 439 | 8 | 109 | 556 |
| Ad-daliadau benthyciadau | (108) | – | (14) | (122) |
| Llog wedi'i gyfalafu | 65 | – | – | 65 |
| Addasiad i'r gwerth teg | (306) | – | (3) | (309) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2017** | **2,675** | **175** | **368** | **3,218** |
| Ychwanegiadau | 506 | (3) | 87 | 590 |
| Ad-daliadau benthyciadau | (119) | – | (27) | (146) |
| Llog wedi'i gyfalafu | 89 | – | – | 89 |
| Addasiad i'r gwerth teg | (302) | – | 21 | (281) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2018** | **2,849** | **172** | **449** | **3,470** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Craidd LIC yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,849** | **172** | **1,077** | **4,098** |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 2,675 | 175 | 785 | 3,635 |

Cynhwysir yn y gweddill sy'n cael ei gario ymlaen £130m (2017 – £121m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

# 6. Asedau ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau (Parhad)

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Cofnodir benthyciadau i fyfyrwyr o fewn buddsoddiadau a benthyciadau yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Gwerth gros y llyfr yn achos Benthyciadau i Fyfyrwyr yw 4,009m (2016-17 – £3,560m), sy'n cynnwys gwerth gros y llyfr, ynghyd ag ychwanegiadau a llog wedi'i gyfalafu, a llai dileadau (a gynhwysir yn yr addasiad i'r gwerth teg, uchod) ac ad-daliadau. Nid yw gwerth gros y llyfr yn cynnwys amhariadau benthyciadau a llog effeithiol. Cedwir y llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Cost rhedeg amhariadau h.y. gwerth teg ac addasiadau i log effeithiol, yw £1,160m (2016-17 – £885m), gan roi'r gwerth cario uchod o £2,849m (2016-17 – £2,675m). Mae'r gwerth amharu yn cael ei gyfrifo gan y model Ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr (y model) sy'n cyfrifo gwerth cyfredol net benthyciadau gan gymryd i ystyriaeth amcangyfrif o werth benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd na chânt eu had-dalu oherwydd rhesymau polisi o achos marwolaeth, anabledd, oedran y myfyriwr neu'r benthyciad, canslo rhannol neu bolisïau eraill. Ystyrir bod y gwerth cario yn frasamcan rhesymol o werth teg benthyciadau myfyrwyr, yn absenoldeb marchnad fywiog, tueddiadau amlwg yn y marchnad neu drafodiadau hyd braich tebyg eraill. Cynhelir y model gan Lywodraeth Cymru.

## Risg a rhagdybiaethau

Cyfrifir gwerth benthyciadau newydd gan ddefnyddio'r model sy'n defnyddio data am demograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau.
Mae modelau wedi'i addasu hefyd ar gyfer benthycwyr sy'n codi gwahanol fathau o benthyciadau – benthyciadau cyn 2012 a benthyciadau ar ôl 2012 (benthyciadau i is-raddedigion, myfyrwyr rhan amser a myfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r modelau'n dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o rhagdybiaethau cymhleth eraill. O gofio pa mor newydd ydynt, nid oes fawr o ddata hanesyddol ar gael am ad-daliadau ar gyfer benthyciadau ar ôl 2012. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu had-dalu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau a ddarperir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018.

Rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y model yw:

- **Cyfradd disgownt** – Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IAS 39 ac wedi defnyddio'r gyfradd fel y'i nodir y mhapur PES, sef RPI plws 0.7%. Hwn yw cyfradd disgownt hirdymor Trysorlys Ei Mawrhydi sef cost cyfalaf hirdymor Llywodraeth Cymru. Anaml y mae hyn yn newid, gydag unrhyw gynnydd neu yn gostwng gwerth cario Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- **Chwyddiant RPI** – Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon OBR (a ddaeth i law Tachwedd 2017) tan 2022-23. Tybir y bydd RPI yn y dyfodol yn dilyn tuedd linynnol o 2023-24 io 2026-27, ac wedyn newid sylweddol i 3.00% o 2027-28 ymlaen. Bydd RPI uwch yn cynyddu llog ar gyfer y mwyafrif o benthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario.

## 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a benthyciadau (parhad)

- **Enillion graddedigion** – Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog byrdymor yn cydymffurfio â rhagolygon OBR tan 2022-23. Rhagdybir bod twf enillion yn y dyfodol yn yn 4.3% o 2026-27, gan mai dyma'r rhagolwg hirdymor, gyda newid llinynnol o werth 2023-24 bob blwyddyn hyd at 2025-26. Bydd cynnydd mewn Enillion Graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr.
- **Trothwy enillion graddedigion** – Ar 18 Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r trothwy ad-dalu ar gyfer pob benthyciad ar ôl 2012 yn cael ei gynyddu o £21,000pa i £25,000pa gydag effaith o 1 Ebrill 2018. Mae'r swm o £25,000 y flwyddyn wedi'i ddefnyddio o fewn y model ar gyfer benthyciadau ar ôl 2012. Bydd cynnydd yn y trothwy'n lleihau'r gwerth cario, gan y câi taliadau'r dyfodol eu lleihau.
- **Dosbarthiad Incwm Graddedigion** – Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar yr Arolwg o'r Llafurlu, Panel Aelwydyd Prydain a data gweinyddol a dddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- **Dileu yn rhannol** – Polisi gan Lywodraeth Cymru yw dileu yn rhannol sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt ny torri cytundeb y benthyciad.
- **Cyfraddau sylfaenol** – Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cydymffurfio â rhagolygon OBR tan 2036-37, ac wedyn y cânt eu pennu'n 4.9%. Mae cap i'r gyfradd sylfaenol yn cael ei gymhwyso i'r gyfradd sylfaenol o 2017-18 ymlaen, gan leihau'r gyfradd sylfaenol i lefel y cap rhwng 2027-28 a 2035-36. Bydd cynnydd mewn Cyfraddau Sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y modelu, ond nid yw newid y rhain i canlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd ac fe allent newid ar yr un pryd.

### 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru megis cyrff y GIG. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar yr esemptiad sydd ar gael ar gyfer peidio â chyfrif am ddyledwyr a chredydwyr byrdymor. Ar gyfer materion cyfalaf difidend cyhoeddus, cyfrifwyd gwerth teg fel asedau net y corff derbyn (wedi'i ddatgan ar ôl tynnu unrhyw ddarpariaethau ar gyfer asedau net rhwymedigaethau a thaliadau) llai swm unrhyw fenthyciad a gynhwysir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

### 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae asedau ariannol eraill yn cynnwys: Buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau eraill a buddsoddiadau, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gyda'r Awdurdodau Lleol; ac asedau a ddelir gan Fanc Buddsoddi Cymru CCC.

## 7. Stocrestri

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Asedau Datblygu | 157 | 157 | 165 | 165 |
| Cyffuriau | 24 | 47 | 24 | 47 |
| Deunydd telathrebu dros ben | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Halen ffyrdd | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Defnyddiau traul eraill | 1 | 38 | 1 | 39 |
| | **185** | **245** | **194** | **255** |

## 8. Symiau derbyniadwy ar gyfer masnach, asedau ariannol ac asedau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer masnach | 114 | 219 | 99 | 213 |
| Treth arall | 24 | 24 | 16 | 16 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 46 | 73 | 121 | 151 |
| | **184** | **316** | **236** | **380** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 18 | 381 | 11 | 19 |
| Rhagdaliadau | 12 | 16 | 4 | 4 |
| Symiau eraill i'w derbyn | – | – | – | 278 |
| | **30** | **397** | **15** | **301** |
| **Cyfanswm y symiau masnachol i'w derbyn ac asedau cyfredol eraill** | **214** | **713** | **251** | **681** |

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gweddill ar 1 Ebrill** | **141** | **299** | **143** | **350** |
| Newid net mewn gweddillion arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (14) | 145 | (2) | (51) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **127** | **444** | **141** | **299** |
| **Roedd y gweddillion canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 126 | 144 | 139 | 153 |
| Banciau masnachol ac arian parod yn y llaw | 1 | 300 | 2 | 146 |

## 10. Symiau masnachol a symiau taladwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 1 | 58 | 6 | 61 |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 558 | 935 | 488 | 860 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | 86 | 86 | 56 | 56 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 280 | 646 | 262 | 599 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | 3 | 3 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid a chontractau PFI | 10 | 19 | 9 | 13 |
| | **935** | **1,744** | **824** | **1,592** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan PFI | 103 | 164 | 110 | 177 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid | 3 | 3 | 5 | 4 |
| | **106** | **167** | **115** | **181** |
| **Cyfanswm symiau taladwy ar gyfer masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill** | **1,041** | **1,911** | **939** | **1,773** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gweddill ar 1 Ebrill** | **927** | **945** | **733** | **758** |
| Darperir yn y flwyddyn | 319 | 557 | 284 | 459 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (2) | (111) | (23) | (93) |
| Trosglwyddo | – | (24) | – | (36) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (109) | (220) | (67) | (143) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **1,135** | **1,147** | **927** | **945** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 287 | 287 | 263 | 261 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 343 | 354 | 253 | 322 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 505 | 506 | 411 | 362 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **1,135** | **1,147** | **927** | **945** |

### Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Arall £m | Iechyd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 5 | 282 | 287 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | – | 354 | 354 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | 506 | 506 |
| | **5** | **1,142** | **1,147** |

Nid yw'r ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru uchod yn sylweddol wahanol i'r rhai ar gyfer y Craidd.

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (parhad)

### (i) Darpariaethau Eraill

Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau pensiwn a chyflogaeth posibl mewn perthynas â chyflogeion blaenorol a darpariaethau amrywiol sy'n sensitif yn fasnachol sy'n tanysgrifennu prosiectau er mwyn gwella rhagolygon twf economaidd.

### (ii) Darpariaethau Iechyd

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol. Ar 30 Mawrth 2017 cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon drefniadau cymorth newydd i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C ac HIV wedi effeithio arnynt oherwydd eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Cafodd un gwasanaeth symlach i Gymru ei gyflwyno ar 1 Tachwedd 2017. Mae hawlwyr yn y cynlluniau newydd wedi cael eu symud i'r cynllun newydd. Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn disodli hen Gronfeydd Skipton a Caxton ac yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer taliadau ex gratia i'r rhai y mae hepatitis C ac HIV yn effeithio arnynt.

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Gweddill Cronfa Risg Cymru ar 31 Mawrth 2018 yw £1063m (2016-17: £867m).

Mae'r ddarpariaeth o Gronfa Risg Cymru yn parhau'n dyst i effaith newidiadau yng nghyfradd y disgownt niwed personol a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar 27 Chwefror 2017, gyda grym o 20 Mawrth 2017. Newidiodd y gyfradd o 2.5% (y lefel sydd wedi parhau ers 2001) i -0.75%. Mae'r newid yn y gyfradd yn arwain at daliadau uwch ar gyfer elfen cyfandaliad hawliadau niwed personol, gan gynnwys y rhai y mae esgeuluster meddygol wedi effeithio arnynt.

Seilir amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio ar yr wybodaeth orau sydd ar gael; ond fe allai newid yn dibynnu ar amgylchiadau'r achosion unigol.

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr | 815 | 849 | 854 | 891 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 115 | 175 | 39 | 70 |
| | **940** | **1,034** | **903** | **971** |

**(i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr**
Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2006 dalu rhwymedigaethau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli.

**(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill**
Ni ddangosir manylion ar rwymedigaethau cyfyngedig a rhwymedigaethau posibl nad ydynt wedi'u meintioli eto oherwydd eu sensitifrwydd a chyfrinachedd masnachol a chyfreithiol.

**(iii) Rhwymedigaethau digwyddiadol nad ydynt wedi'u meintioli**
Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i ymadael â'r UE yn unol ag Erthygl 50. Mae tanio erthygl 50 yn dechrau proses negodi dwy flynedd rhwng y DU a'r UE.

Mae unrhyw newidiadau olynol mewn deddfwriaeth, rheoliadau a threfniadau ariannu'n destun canlyniad y negodiadau hyn, sydd yn eu dyddiau cynnar ond sy'n cael eu hadolygu'n barhaus.

### 12.1 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell –Gwarantau ariannol, Indemniadau a Llythyrau Cefnogaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r rhwymedigaethau digwyddiadol heb eu meintioli canlynol trwy gynnig gwarantau, indemniadau neu drwy roi lythyrau cefnogaeth. Nid oes yr un o'r rhain yn rhwymedigaeth ddigwyddiadol o fewn ystyr IAS 37 gan fod y posibilrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn rhy annhebygol.

**Gwarantau:**

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi. Nid oes yr un o'r gwarantau hyn yn sylweddol.

**Indemniadau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio'r Ysgrifennydd Gwladol rhag yr goll gamau, achosion, costau, hawliadau a galwadau gan drydydd partïon mewn perthynas â: unrhyw ddifrod neu rwymedigaeth a achosir gan neu sy'n deillio o Gyd-gytundeb y partïon ynghylch Trenau Arriva Cymru. Yn ôl yr asesiad mae'r posibilrwydd y bydd y rhwymedigaeth yn aeddfedu'n annhebygol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio cyrff Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol. Mae'r rhwymedigaethau'n cwmpasu 11 sefydliad am £437 miliwn ac mae'r cyfnod rhwymedigaeth yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y potensial i'r rhwymedigaeth aeddfedu'n rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol (parhad)

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2018 oedd £46.3 miliwn.

**Llythyrau o gefnogaeth:**

Mae gan Lywodraeth Cymru rhwymedigaeth uchaf i tanysgrifennu fel cam olaf, gostau ynghylch tir halogedig yn Nhomen Brofiscin o £0.5 miliwn.

**Arall:**

Ni ddangosir manylion ar rwymedigaethau cyfyngedig a rhwymedigaethau posibl nad ydynt wedi'u meintioli eto oherwydd eu sensitifrwydd i gyfrinachedd masnachol a chyfreithiol.

## 13. Rhwymedigaethau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 66 | 98 | 72 | 107 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd) | 11 | 11 | 11 | 11 |
| | **77** | **109** | **83** | **118** |

## 14. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestri | 9 | 10 | (3) | (3) |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau i'w derbyn:** | | | | |
| cyfredol | 52 | 64 | 73 | 35 |
| heb fod yn gyfredol | (16) | (96) | (1) | (68) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| cyfredol | 111 | 152 | 5 | 44 |
| heb fod yn gyfredol | (10) | (14) | (9) | (20) |
| | **146** | **116** | **65** | **(12)** |
| Llog Benthyciadau i Fyfyrwyr | (89) | (89) | (65) | (65) |
| Symud mewn asedau datblygu | (8) | (8) | 5 | 5 |
| Addasiadau ar gyfer symud croniadau: asedau sefydlog | – | 8 | – | (31) |
| Elfen gyfalaf lesoedd cyllid/PFI | 8 | 8 | 9 | 9 |
| Addasiad arall | – | – | – | – |
| Llai symudiad mewn symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a gweddill costau anweithredol eraill | – | – | (3) | (3) |
| | **57** | **35** | **11** | **(97)** |

# 15. Cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

## 15.1 Ymrwymiadau cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio sydd heb eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 142 | 404 | 201 | 289 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | 181 | 181 | 264 | 264 |
| | **323** | **585** | **465** | **553** |

## 15.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd

### 15.2.1 Ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredol

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau o dan lesoedd gweithredol yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Adeiladau** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 27 | 7 | 27 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 22 | 65 | 24 | 64 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 47 | 92 | 54 | 94 |
| | **75** | **184** | **85** | **185** |

### 15.2.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd cyllid

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau o dan lesoedd cyllid yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | – |
| | **4** | **5** | **6** | **8** |
| Llai'r elfen llog | (1) | (1) | (2) | (2) |
| | **3** | **4** | **4** | **6** |

## 15.3 Ymrwymiadau o dan gontractau PFI

Mae gan y byrddau iechyd lleol ddeg contract PFI y mae wyth ohonynt at y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y bwrdd iechyd lleol.

### 15.3.1 Ddim ar y fantolen

#### Contract PFI Bute Avenue

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r contractwr preifat sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae partner y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000/01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £8,637,765 (2016-17: £8,460,103); a'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2018 £m | Ar 31 Mawrth 2017 £m |
|---|---|---|
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 19 | 19 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 69 | 68 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 44 | 64 |
| | **132** | **151** |

### 15.3.2 Ar y fantolen

**Contract PFI A55**

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd cyllid wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiwn gwasanaeth eraill oedd £10,152,153 (2016-17: £7,807,773). Rhoddir cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar<br>31 Mawrth 2018<br>£m | Ar<br>31 Mawrth 2017<br>£m |
|---|---|---|
| **Isafswm Taliadau Lesoedd** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 72 | 83 |
| | **132** | **143** |
| Llai'r elfen llog | **(20)** | **(23)** |
| | **112** | **120** |

| | Ar<br>31 Mawrth 2018<br>£m | Ar<br>31 Mawrth 2017<br>£m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 10 | 10 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 32 | 32 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 14 | 24 |
| | **56** | **66** |

## 15.4 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud contractau na ellir eu dileu (nad ydynt yn lesoedd neu'n gontractau PFI ) ar gyfer gwasanaethau. Mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo, fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan) | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 277 | 277 | 393 | 393 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 252 | 252 | 336 | 336 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 421 | 421 | 349 | 349 |
| | **950** | **950** | **1,078** | **1,078** |

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer nifer o endidau yn flynyddol.

Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo yn rhan olaf y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 er mwyn rhoi sicrwydd i'r corff sy'n eu cael. Gan eu bod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 ac yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 nid ydynt wedi'u datgelu o fewn yr ymrwymiadau uchod.

## 16. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r awdurdodau lleol, cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau gyda chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na staff partïon wedi cynnal unrhyw drafodiadau sylweddol â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Carwyn Jones (Prif Weinidog) yn aelod o Gymdeithas y Cerddwyr ac mae Huw Irranca-Davies (y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol) yn Is-lywydd Ramblers Cymru. Cafodd Cymdeithas y Cerddwyr grant yn 2017-18 o £162,059 ar gyfer Dewch i Gerdded Cymru i wella iechyd.

Mae Dafydd Elis-Thomas (y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon) a Lesley Griffiths (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig) yn is-lywyddion ac mae Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth) yn Llywydd Anrhydeddus Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a gafodd gyllid grant o £4,500 yn 2017-18. Mae Dafydd Elis-Thomas (y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn stiward yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, a dderbyniodd gyllid grant Treftadaeth o £47,736; ac yn aelod o'r Academi Gymreig a weinyddir gan Lenyddiaeth Cymru a dderbyniodd gyllid grant o £70,581 yn 2017-8 ym maes amgueddfeydd, twristiaeth a hyfforddiant datblygu'r Gymraeg.

Mae gŵr Kirsty Williams (Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) yn bartner mewn busnes ffermio a gafodd £56,672 yn 2017-18 o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

Mae Jeremy Miles (y Cwnsler Cyffredinol) yn aelod o Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot, a gafodd gyllid grant o £47,078 yn 2017-18.

Mae James Price a Peter Kennedy (aelodau'r Bwrdd) hefyd ar fwrdd Trafnidiaeth Cymru a gafodd gyllid grant o £17,909,362. Roedd Sioned Evans hefyd yn gyfarwyddwr tan 28/04/17.

Mae gŵr Gillian Baranski (Aelod o'r Bwrdd) yn bartner yng nghwmni Cyfreithiol Geldards LLP a gystadlodd am gontract caffael am Wasanaethau Cyfreithiol gyda Llywodraeth Cymru. Talwyd £2,822,336 i'r cwmni yn 2017-18 am y Gwasanaethau Cyfreithiol hyn.

Mae Elan Closs Stephens yn aelod pwyllgor o awdurdod S4C a gafodd £30,000 yn 2017-18.

Syr Adrian Webb (cyfarwyddwr anweithredol) yw Cadeirydd Cymru y Gronfa Loteri Fawr a gafodd arian yn 2017-18 o £3,895,245 oddi wrth raglenni cymunedol.

Mae Ellen Donovan (cyfarwyddwr anweithredol) hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Cymwysterau Cymru a gafodd gyllid o £7,402,433 gan Lywodraeth Cymru yn 2017-18.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Byrddau Iechyd Lleol Cymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 16.1 Canlyniadau cwmnïau cyfunol o dan berchnogaeth lwyr

| | Ar 31 Mawrth 2018 | | Ar 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfranddaliadau a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfranddaliadau a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Banc Datblygu Cymru PLC (i) | 4,550,154 | 141,109,911 | 13,374,878 | 125,561,047 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP | 1,187,931 | 36,353,776 | 5,145,738 | 35,165,845 |
| WGC Holdco Limited | – | 61,300,000 | – | 55,300,000 |
| Dewis Gyrfa Career Choices Cyfyngedig | (2,389,000) | (24,504,000) | (1,852,000) | (27,679,000) |

(i) buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu. Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r ffigurau a ddatgelwyd.

## 16.2 Mân is-gyrff a buddiannau eraill

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fân is-gyrff na ddatgelir unrhyw ganlyniadau masnachu ar eu cyfer yn y cyfrifon cyfunol hyn. Dyma rai ohonynt:

- DCFW Limited – Design Commission for Wales/Comisiwn Dylunio Cymru
- Hybu Cig Cymru Cyf/Meat Promotion Wales Limited
- Sector Development Wales Partnership Limited
- Life Sciences Hub Wales Limited (Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru)
- Welsh Development Management Limited
- International Business Wales Limited
- Innovation Point Limited (Yr Arloesfa)
- Trafnidiaeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n berchen ar 50% o gyfalaf cyfrannau International Convention Centre Wales Limited, gyda'r 50% arall yn cael ei ddal gan y Celtic Manor Resort Limited.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr – un gyfran gyda gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% i Lywodraeth Cymru yn y cwmni.

Airbus Group Endeavr Wales (gynt EADS Foundation Wales) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir elusennau GIG Byrddau Iechyd Lleol yn y Cyfrifon Cyfunol gan nad ydynt yn destun Gorchymyn Ddynodi cyfredol gan Lywodraeth Cymru.

# 17. Ailddatgan Gwariant Net Cynhwysfawr a Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, 2016-17

## Addasiadau cyfnod blaenorol

Roedd gweddill 206-17 yn unol â'r cyfrifon wedi'u llofnodi yn ymgorffori newid mewn meddalwedd a ddefnyddir i amcangyfrif gweddill oes Asedau'r Rhwydwaith. Yn ystod cylch prisio 2017-18 nodwyd gwall yn y feddalwedd newydd a oedd yn golygu bod data 2016-17 a oedd wedi'i rhoi i Lywodraeth Cymru wedi cael ei gamgyfrif. Gwerth y gwall oedd £218m, a ystyrir yn berthnasol ac a arweiniodd at addasiad cyfnod blaenorol. Mae'r cyfrifon wedi'u hailddatgan i ymgorffori effaith y camgyfrif ar ddata a roddwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag amrywio amodau yn ystod 2016-17.

Mae'r newid wedi arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y gwariant gweithredol o £219m a chynnydd yng Ngwerth Net y Llyfr ar Asedau'r Rhwydwaith o £219m.

| Craidd Llywodraeth Cymru | Gweddill ar 31 Mawrth 2017 | Newidiadau mewn Polisi Cyfrifyddu | Addasiadau cyfnod blaenorol eraill | Gweddill wedi'i ailddatgan ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| **Datganiad wedi'i gydgrynhoi o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | | |
| Gwariant | 14,156 | | (219) | 13,937 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | **14,690** | | **(219)** | **14,471** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | **13,002** | | **(219)** | **12,783** |
| **Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o'r Sefyllfa Ariannol Gynhwysfawr** | | | | |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2018 | 15,635 | | 219 | 15,854 |

| Grŵp LIC | Gweddill ar 31 Mawrth 2017 | Newidiadau mewn Polisi Cyfrifyddu | Addasiadau cyfnod blaenorol eraill | Gweddill wedi'i ailddatgan ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| **Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | | |
| Gwariant | 11,159 | | (219) | 10,940 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | **14,974** | | **(219)** | **14,755** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | **12,961** | | **(219)** | **12,742** |
| **Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o'r Sefyllfa Ariannol Gynhwysfawr – Asedau anghyfredol:** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 19,168 | | 219 | 19,387 |

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, offer a chyfarpar

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Mae eiddo ar brydles, lle'r oedd y les wreiddiol am lai na chan mlynedd, yn cael ei drin fel cost refeniw. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na chan mlynedd, wedi'u hailddatgan yn ôl y gost gyfredol gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bod pum mlynedd, neu yn flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd eraill am brisiadau nad ydynt yn flynyddol. Yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a ddelir ar cost adnewyddu wedi'i dibrisio. Codwyd y mynegeion o fynegai misol diweddaraf y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer Canolbarth Lloegr a Chymru.

### Asedau'r Rhwydwaith

Mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i brisio yn ôl ei gost adnewyddu wedi'i dibrisio yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau'r farchnad ar gael ar eu cyfer.Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll personol. Y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw Systemau Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS), a redir gan ymgynghorwyr allanol W.S. Atkins. Mae syrfewyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad llawn o'r rhwydwaith ar adegau heb fod yn fwy na phum mlynedd. Cynhaliwyd y prisiad hwn yn 2014-15. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon amrywiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond mae strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, yn cael eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Mae cyfathrebu'n cael ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgatagoreiddio o Asedau o dan Adeiladwaith pan fydd y manylion Strwythurol wedi'u darparu gan yr Awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr awdurdod lleol neu oddi yno fel 'creu statws cefnffordd' neu 'tynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr awdurdodau lleol neu iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau eraill o'r Llywodraeth neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu trwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

- Palmant Ffordd a Strwythurau
- Mynegai Baxter
- Cyfathrebu
- Mynegai Baxter
- Tir
- Cynhyrchir mynegeion tir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau

Mae technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau (sy'n cynnwys cerbydau, offer a chyfarpar), ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am grocbris y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

## Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy neu ni ellid eu sicrhau ond am grocbris. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

## A.2 Dibrisiant

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o ddirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau nad ydynt yn gyfredol uchod); a

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd trwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y cost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd trwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau Peiriannau a chyfarpar trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

| | |
|---|---|
| Arwyneb y rhwydwaith: | 20 i 50 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith: | 20 i 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith: | 15 mlynedd |
| Tir ac adeiladau lesddaliadol: | Gweddill oes |
| Anheddau: | Gweddill oes |
| Adeiladau Rhydd-ddaliadol: | hyd at 60 mlynedd |
| Technoleg Gwybodaeth: | 3 i 10 mlynedd |
| Asedau meddalwedd nad ydynt yn ddiriaethol: | 2 i 10 mlynedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau o dan adeiladwaith yn cael eu dibrisio.

Mae lleihadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn cael eu tynnu.

## A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n cael ei dynnu, ac eithrio lle mae'n cyfeirio at brosiect pendant a lle gellir barnu bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

## A.4 Asedau ariannol

### Benthyciadau a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus

Dangosir benthyciadau a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC) a roddir i gyrff cyhoeddus y tu allan i'r ffin gyfunol ar gost hanesyddol llai unrhyw leihad angenrheidiol i ddangos gwerth teg. Dangosir buddsoddiadau eraill, ar ffurf cyd-fentrau ar werth teg.

### Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Yn achos ad-daliadau a wneir trwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir trwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEM i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cal eu hadolygu'n flynyddol.

Yn unol â dehongliad FReM o IAS 39, mae Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy ac yn cael eu cyflawni yn ôl cost wedi'i hamorteiddio, gyda gwerth gros benthyciadau a roddir yn cael ei ddisgowntio i'r gwerth Presennol Net gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Gwneir datgeliadau sy'n ymwneud â risg, sy'n ofynnol o dan IFRS 7, yn cael eu gwneud o fewn y nodyn Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy.

### Asedau anghyfredol

Dynodir asedau nad ydynt yn gyfredol fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer trwy ei werthu yn hytrach na defnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Mae'r asedau anghyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu'n cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg llai costau i werthu.

## A.5 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'u hangen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddiddymu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i SOCNE. Mae gwrthdroi sylweddol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael eu hysgrifennu yn ôl i SOCNE lle ceir tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o gwariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestrau eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwahaniaeth o sylwedd rhwng y cost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.6 Incwm Gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.7 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.8 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion trwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd trwy cronfeydd yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai cyn staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Cyllid Cymru ccc yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr. Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Yr Adran Iechyd. Yr Adran Iechyd ac Ymddiriedolaeth Ies y Nyrsys; a West Yorkshire Pension Scheme a weinyddir gan City of Bradford Metropolitan District Council.

Mae cyflogeion Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno BILI.

## A.9 Costau ymadael cynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i rhwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn y Bank of England i gredydu Pledlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion BILI sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-gyflogeion hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.10 Lesoedd gweithredol

Codir gwariant ar lesoedd gweithredol heb eu cyfalafu, gan gynnwys tir ac adeiladau, ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

## A.11 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

## A.12 Y Fenter Cyllid Preifat/Trafodiadau'r Sector Cyhoeddus neu Breifat

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi penderfynu y bydd rhaid i gyrff y Llywodraeth gyfrif am gynlluniau PFI seilwaith lle mae corff y Llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r BILl yn cydnabod, felly, ased PFI fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbynnir;

b) Taliad am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid; a

c) Taliad am ddisodli'r ased yn ystod y contract 'adnewyddu cylch oes'.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Cydnabyddir yr asedau PFI fel eiddo, offer a chyfarpar, pan ddechreuir eu defnyddio. Mae'r asedau'n cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir y rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd â'r ased PFI. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les cyllid yn unol ag IAS 17. Cyfrifir cost ariannu blynyddol trwy gymhwyso'r cyfradd llog ymhlyg yn y les i rwymedigaeth y les weithredol am y cyfnod ac mae'n cael ei chodi ar Incwm. Mae elfen y taliad unedol blynyddol sy'n cael ei ddyrannu fel rhentiad les cyllid yn cael ei chymhwyso i dalu'r cost ariannu blynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y les dros dymor y contract.

## A.13 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling ar y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.14 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol, ac Asedau Digwyddiadol, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol yn bodoli (hy rhwymedigaeth bresennol neu'n deillio o digwyddiadau blaenorol), mae all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol ac mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio amser darpariaethau disgownt real Trysorlys Ei Mawrhydi.

## A.15 Offerynnau Ariannol

IFRS 7: yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau dod i gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff y sector cyhoeddus.

### Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw gweithredu gweithdrefnau arferol ar gyfer rheoli credyd ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach trwy'r swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Gwneir darpariaethau ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith trwy adolygiad amhariadau blynyddol.

## Risg i'r Farchnad

Risg Arian Cyfred Tramor – mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio Cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, gan alluogi lefel gwariant wedi'u targedu i gael eu bodloni. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon i gyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

## Risg y Gyfradd Llog

Mae faint o log sydd i'w ad-dalu ar fenthyciadau i fyfyrwyr yn destun y gwamaliadau yng nghyfradd llog y farchnad ac RPI. Gall hyn arwain at risg wrth ragamcanu'n gywir faint o log sy'n daladwy ac felly lleihad posibl yn llifoedd arian parod y dyfodol.

## Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth y Senedd trwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

## A.16 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau diwygiedig a newydd wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn, gan eu bod yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn y dyfodol.

Y safonau a allai gael effaith sylweddol o'u mabwysiadu yw:

**IFRS 16 Leases** – i ddod i rym 1 Ionawr 2019. Bydd IFRS 16 yn darparu un model ar gyfer yr holl lesoedd a fydd yn rhoi pob les ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol oni bai fod tymor y les yn 12 mis neu'n llai neu fod gwerth isel i'r ased gwaelodol. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu goblygiadau'r diwygiad hwn ar sector cyhoeddus y DU er mwyn ei gynnwys yn FReM 2019-20.

Safonau nad ystyrir bod ganddynt effaith sylweddol yn y dyfodol yw:

- IFRS 1 First time adoption of IFRS
- IFRS 4 Insurance Contracts wedi'i addasu ar gyfer IFRS 9
- IAS 28 Investments in associates and joint ventures
- IFRS 2 Share based payment
- IFRS 9 Financial Instruments
- IFRS 15 Revenue from Contracts with Customers
- IFRS 17 Insurance Contracts i ddisodli IFRS 4
- IAS 7 Statement of Cash Flows
- IAS 12 Income Taxes
- IAS 40 Investment Property Transfers of Investment Property
- Dehongliad IFRIC: 22: Foreign Currency Transactions and Advance Consideration.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau

2017–2018



OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35909 ISBN digidol 978 1 78937 973 0

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ADRAN 1:** | **CYFLWYNIAD** | | 2 |
| **ADRAN 2:** | **GWELLIANNAU RHEOLI GRANTIAU** | | |
| | (i) | Canolfan Rhagoriaeth Grantiau | 2 |
| | (ii) | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | 5 |
| | (iii) | Aliniad Grantiau – Cyllido Hyblyg | 6 |
| **ADRAN 3:** | **CYLLID** | | |
| | (i) | Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 8 |
| | (ii) | Cyllid gan WEFO | 9 |
| **ADRAN 4:** | **Y CAMAU NESAF AR GYFER RHEOLI GRANTIAU** | | |
| | (i) | Llywodraeth Cymru | 12 |
| | (ii) | WEFO | 13 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

1.0 Mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau yn nodi'r cynnydd a wnaed ar draws Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Am y tro cyntaf, paratowyd yr adroddiad llawn i gyd-fynd â chyhoeddi Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru.

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio grant fel "yr holl daliadau heb eu caffael a delir i gyrff allanol neu unigolion am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi neu rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru". Rhennir grantiau i ddau gategori ar wahân. Grantiau heb eu neilltuo yw'r taliadau a roddir i gyrff iechyd lleol a llywodraeth leol ac mae'r rhain yn cyfrif am £11.5 biliwn o'r cyfanswm o £14.3 biliwn a dalwyd mewn grantiau yn 2017-18. Mae grantiau wedi eu neilltuo yn daliadau a delir pan fo cyflawniadau a meini prawf amlwg yn gysylltiedig â diben y grantiau ac maen nhw'n cyfrif am y £2.8 biliwn o'r cyllid sy'n weddill. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr olaf o'r rhain.

## ADRAN 2: GWELLIANNAU RHEOLI GRANTIAU

### (i) Canolfan Rhagoriaeth Grantiau

2.0 Sefydlwyd Canolfan Rhagoriaeth Grantiau yn 2011 ac y mae wedi arwain ym maes datblygu polisi rheoli grantiau a sgiliau, a meithrin a sefydlu arferion gorau ar draws y sefydliad. Mae'r tîm ar gael i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol, canllawiau a hyfforddiant i Swyddogion grant yn ystod oes cynllun grant / cynnig. Yn ystod y cyfnod 2017/2018 atebwyd dros 1,637 o ymholiadau ar e-bost a rhoddwyd llawer o gefnogaeth wyneb yn wyneb a thros y ffôn i reolwyr grantiau.

2.1 Mae'r tîm wedi parhau i ddarparu'n llwyddiannus ystod o weithgareddau sy'n gysylltiedig â pholisi a chymorth, gan gynnwys diweddariad allweddol i dempled y llythyr dyfarnu safonol a gweithredu Canolfan Diwydrwydd Dyladwy. Ar yr un pryd sicrhau bod Safonau Gofynnol ar gyfer Grantiau yn cael eu dilyn a bod canllawiau grantiau a deunydd hyfforddi'n parhau'n berthnasol ac yn addas i'r diben.

2.2 Yn sgil sefydlu Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd mae'r tîm yn gweithio tuag at ddatblygu Swyddogaeth Diwydrwydd Dyladwy ganolog a Phanel Gwarantu Grantiau a sicrhau mwy o gysondeb a chydymffurfiant o ran trafodion. Mae hefyd yn archwilio dichonoldeb cyflwyno proses gwneud cais ar lein. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am dargedau cyflawnadwy y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

Cyfathrebu

2.3 Mae Strategaeth Gyfathrebu 2018-19 yn cael ei datblygu. Y prif nod yw adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd. Yn ystod y cyfnod 2016-17 cyflawnodd y tîm nifer o weithgareddau a amlinellwyd yn strategaeth 2016-17. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyhoeddi tri Bwletin Grantiau, yn cwmpasu awgrymiadau a chynghorion megis gair i gall ynghylch arfer da wrth lunio llythyr Dyfarnu, negeseuon atgoffa ynghylch gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni megis hysbysu sefydliadau'r trydydd sector o fwriadau cyllido yn unol â'r Cod Ymarfer a phwysigrwydd amseriad a'r defnydd cywir o *PayGrants.*
- Cynnal 14 o sesiynau Llythyr Dyfarnu *'Hot Shot'* a Chlinigau Galw Heibio ledled Cymru.
- Cyflwyno dulliau arloesol newydd i'r broses o reoli grantiau er mwyn gwella cydymffurfiant a gwarant, gan gynnwys y Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol a datganiad Llywodraethu a Gwarant yn rhan o'r llythyr Dyfarnu.

2.4 Bwriedir cynnal arolwg rhanddeiliaid allanol ym mis Mehefin 2018, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal arolwg dair blynedd ar ôl cwblhau'r arolwg gwreiddiol.

Diwydrwydd Dyladwy

2.5 Mae'r ganolfan Diwydrwydd Dyladwy ('yr Hyb') yn cael ei defnyddio gan swyddogion i rannu gwybodaeth â chydweithwyr er mwyn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau. Y nod yw sicrhau mai dim ond i gyrff allanol sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus y dyfernir cyllid. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi'r defnydd o'r Hyb gan staff Llywodraeth Cymru i warchod rhag twyll, colli arian cyhoeddus Cymru a rhag gwneud drwg i enw da.

2.6 Mae'r Hyb wedi'i hen sefydlu erbyn hyn ac fe'i defnyddir gan staff ar draws Llywodraeth Cymru. Crëwyd oddeutu 5,300 o gofnodion yn 2017/18 gyda mwy na 360 o staff yn ymgymryd â gweithgareddau diwydrwydd dyladwy.

2.7 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ac i ymateb i ymrwymiad a wnaed i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2017, crëwyd Safonau Gofynnol Diwydrwydd Dyladwy. Maent yn cynnwys y canllawiau diweddaraf a rhestrau cyfeirio newydd, a gosodir y safonau angenrheidiol ar gyfer dyfarnu cyllid Llywodraeth Cymru.

Cronfa Ddata Twyll Genedlaethol

2.8 Yn ystod 2017, daeth Llywodraeth Cymru yn aelod sy'n tanysgrifio i'r Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol (NFD). Mae hyn yn caniatáu mynediad i weithgareddau twyllodrus yr adroddir amdanynt gan aelodau, gan gynnwys banciau, sefydliadau ariannol eraill a chyrff penodol yn y sector cyhoeddus.

2.9 Gwneir defnydd helaeth o'r system o fewn Llywodraeth Cymru bellach. Ar hyn o bryd mae dros 90 o staff, rheolwyr grantiau yn bennaf, yn defnyddio'r system i wella eu prosesau diwydrwydd dyladwy. Mae'r Uned Gwrth-dwyll hefyd yn cysylltu â rhannau eraill o'r sefydliad, caffael, rheoli dyledion a WEFO i ddod o hyd i feysydd a fyddai'n elwa o ddefnyddio'r system.

Adolygiad o'r Darpariaethau Gwrth-dwyll

2.10 Comisiynodd yr Ysgrifennydd Parhaol adolygiad allanol o allu Llywodraeth Cymru o ran darpariaethau gwrth-dwyll. Y bwriad oedd cael cyngor a sicrwydd bod ein dull ni o fynd i'r afael â thwyll, o fewn ac yn erbyn Llywodraeth Cymru, yn ddigonol ac yn effeithiol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, ac i nodi unrhyw opsiynau amgen o wella'r darpariaethau Gwrth-dwyll.

2.11 Ar y cyfan aseswyd uned Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru fel uned a oedd yn perfformio'n dda ac yn darparu mwy na'r disgwyl o ystyried ei hadnoddau. Gwnaed hynny drwy wneud ymchwilydd arbenigol yn Bennaeth yr Uned, gweithio'n effeithiol drwy feithrin perthynas gadarnhaol gyda Heddluoedd Cymru a thrwy sicrhau adnoddau ymchwilio ychwanegol o fannau eraill yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Archwilio Mewnol. Serch hynny, nododd yr adolygiad y gellid cryfhau'r canlynol yn bennaf; ymwybyddiaeth a hyfforddiant gwrth-dwyll, gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol ac asesu risg.

Gweithio gydag eraill

2.12 Dros y deuddeng mis diwethaf mae tîm y Ganolfan Ragoriaeth wedi meithrin perthynas gref gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth y DU. Bu cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y grŵp Arferion Gorau Grantiau a hwyluswyd gan Swyddfa'r Cabinet, a rhannwyd y cynnydd a wnaed yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Safonau Gofynnol a thempledi o ddogfennaeth gyfreithiol megis y llythyr dyfarnu grant safonol. Defnyddiwyd y rhain i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Canolfan Rhagoriaeth Grantiau yn Swyddfa'r Cabinet.

2.13 Ym mis Gorffennaf 2017 cafodd y tîm ymweliad llwyddiannus gan gydweithwyr swyddfa grantiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd yr ymweliad yn fodd i ddangos i gydweithwyr sut y mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn gweithredu, ac mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn cyflwyno cysyniad tebyg. Dros y deuddeng mis

nesaf bwriad y tîm yw rhannu mwy o syniadau a gwybodaeth â gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Hyfforddiant

2.14 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn darparwyd hyfforddiant fwy neu lai yn ôl y galw. Darparodd tîm y Ganolfan Ragoriaeth raglen o sesiynau '*Hot Shot'* yn cwmpasu'r llythyr Dyfarnu Grant a oedd yn cynnwys gwybodaeth am newidiadau ac ychwanegiadau i'r templed, er enghraifft y Datganiad Sicrwydd. Wrth i waith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd symud yn ei flaen, datblygir rhaglen hyfforddi sydd wedi ei diweddaru.

### (ii) Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Adolygiad Archwilio o Raglen Cronfeydd Strwythurol Cymru

2.15 Yn ystod y cyfnod, ni chafwyd archwiliadau newydd gan Lys Archwilwyr Ewrop na'r Comisiwn Ewropeaidd (DG Regio a DG Empl) ar Raglenni WEFO. Roedd archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd wedi cychwyn adolygiad ar draws yr aelod-wladwriaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol i brosesau monitro a sefydlwyd gan wledydd i gofnodi allbynnau'r Gweithrediadau (Grantiau) a rhaglenni. Roedd WEFO yn un o'r Awdurdodau Rheoli a ddewiswyd i'w cynnwys yn yr adolygiad. Cyhoeddwyd yr adroddiad eleni ac roedd y canlyniadau yn gadarnhaol iawn a chyfeiriwyd at WEFO gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn cynadleddau dilynol fel enghraifft o arfer da.

2.16 Mae'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT), rhan o Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd Llywodraeth Cymru, wedi cwblhau nifer o adolygiadau systemau o'r rhaglenni gyda'r canlyniadau yn gyffredinol yn gadarnhaol. Mae'r adolygiadau hyn yn rhan o'u hadolygiad o'r Cyfrifon Blynyddol ac yn cyfrannu tuag at eu Hadroddiad Rheoli Blynyddol (ACR).

2.17 Cyhoeddir Adroddiadau Rheoli Blynyddol EFAT bob mis Ionawr i gwmpasu Cyfrifon blwyddyn flaenorol Cyllid y Comisiwn Ewropeaidd sy'n rhedeg o fis Gorffennaf i fis Mehefin. Roedd yr adroddiad diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 yn cwmpasu'r cyfrifon hyd at fis Mehefin 2017. Y prif ddangosydd yn yr adroddiadau hyn yw'r raddfa gwallau sy'n cynrychioli'r swm o wariant afreolaidd a nodwyd yn ystod eu hadolygiadau fel canran o'r sampl a brofwyd.

2.18 Y raddfa gwallau a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod hwn oedd 0.05%. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd drothwy o 2% ar gyfer y raddfa hon. Pe bai'r Adroddiad Rheoli Blynyddol (ACR) yn dangos graddfa o 2% neu uwch, gosodir sancsiynau ar y rhaglenni. Ystyr "gwall" yn y cyd-destun hwn yw unrhyw swm a godwyd ar gyllid y

Comisiwn Ewropeaidd na ddylid fod wedi ei godi. Gallai hyn ddigwydd am nifer o resymau technegol ac nid yw gyfystyr â thwyll neu unrhyw wariant anaddas.

2.19 Cyflawnwyd y raddfa gwallau eithriadol o 0.05% yn sgil y newidiadau yn null WEFO o fynd ati i wirio ceisiadau; rydym wedi cyflwyno rhai camau gwirio mewnol, sy'n ein galluogi ni i roi mwy o bwyslais ar wirio ar ddechrau prosiect a chanolbwyntio ar feysydd allweddol lle mae risgiau'n bosibl. Mae hyn yn helpu i ddod ag unrhyw faterion a allai fod yn arwyddocaol i'r wyneb cyn iddi fynd yn anodd gwneud newidiadau.

2.20 Cychwynnodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o Gyllid Ewropeaidd yn ystod y cyfnod. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod WEFO yn barod ar gyfer Brexit a sefydlu'r cynlluniau ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit. Mae'r adolygiad hwn yn parhau. Clustnodwyd y dyddiad adrodd ar hyn o bryd ar gyfer Mai 2018.

2.21 Yn ystod y cyfnod, cyflwynodd WEFO y pecynnau Terfynu ar gyfer Rhaglen 2007 – 2013 i'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod oes y rhaglen hawliwyd £1.8 biliwn o gyllid a'r canlyniad oedd cyfanswm buddsoddiad o £3.4 biliwn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd ar fin cael y pecynnau Terfynu a hyd yn hyn dim ond mân ymholiadau a wnaed gan yr Archwilwyr.

2.22 Mae WEFO yn cofrestru'r holl faterion archwilio a godir ac mae'n monitro'r gwaith a wneir i ymdrin â nhw drwy ei Bwyllgor Rheoli Risg Rhaglenni.

2.23 Mae rhaglen 2014 - 2020 yn datblygu'n dda ac ymrwymwyd i 71% o'r rhaglen. Bydd y ddarpariaeth fwy neu lai ar yr un lefel ag yr oedd yn yr un cyfnod yn y rhaglen ddiwethaf. Dim ond canllaw bras yw hwn oherwydd bod y rhaglenni yn wahanol iawn o un cylch cyllid i'r nesaf. Ond mae'n galonogol gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi hen gyflawni ei thargedau ar gyfer y rhaglenni yn y cylch diwethaf o'i gymharu â'r sefyllfa ar bwynt tebyg saith blynedd yn ôl.

2.24 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal adolygiad blynyddol ffurfiol o'r cynnydd mewn rhaglenni mewn cyfarfod ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU. Ar draws Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), roedd y neges yn amlwg. Roeddent yn fodlon iawn â'r cynnydd yng Nghymru; nid felly'r sefyllfa ar gyfer y DU gyfan.

2.25 Yn ddiweddar, mae WEFO wedi adolygu ei dogfen ar Systemau Trefniadaeth a Rheolaeth. Fe'i derbyniwyd gan EFAT.

### (iii) Alinio Grantiau – Cyllido Hyblyg

2.26 Dros y deuddeng mis diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da wrth adolygu'r cynlluniau grant presennol, gan roi pwyslais arbennig ar wella canlyniadau a lleihau'r baich gweinyddu ar y rhai sy'n derbyn y grantiau.

2.27 Enghraifft o hyn yw'r prosiect Cyllido Hyblyg, sy'n cefnogi a hyrwyddo cynllunio a chomisiynu ar y cyd a defnyddio cyllid yn fwy effeithiol wrth geisio cyflawni nodau ac amcanion cyfansoddol y rhaglen. Mae'r rhyddid ychwanegol yn caniatáu dull mwy strategol o ddarparu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

2.28 Mae'r prosiect wedi alinio nifer o raglenni cyllid presennol, gyda'r nod o gefnogi pobl neu gymunedau dan fygythiad sydd wedi eu sefydlu dros y blynyddoedd gan Lywodraeth Cymru. Er mai nod y rhain yw mynd i'r afael â phroblemau gwahanol megis cam-drin domestig, cefnogi teuluoedd, cymorth sy'n gysylltiedig â thai neu aelwydydd heb waith, mae llawer yn gyffredin rhyngddynt hefyd. Ategir pob rhaglen gan grant penodol, maent i gyd yn ceisio atal neu liniaru anfantais, hwyluso ymyrraeth gynnar, darparu cymorth ac atgyfnerthu pobl a chymunedau.

2.29 Bydd mwy o ryddid ariannol a mwy o hyblygrwydd, a ganiateir gan y prosiect, yn galluogi awdurdodau lleol i weithio'n wahanol. Bydd mwy o gyfle i wasanaethau cynllunio gefnogi ymgyrch y Llywodraeth i sicrhau dulliau gweithredu hirdymor mwy ataliol yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.30 Mae'r prosiect yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynllunio a chomisiynu ar y cyd a defnyddio cyllid yn fwy effeithiol wrth geisio cyflawni nodau ac amcanion cyfansoddol y rhaglen. Mae'r rhyddid ychwanegol hefyd yn caniatáu dull mwy strategol o gyflawni er lles y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. I helpu i brofi a oes modd gwireddu'r buddion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i sefydlu saith cynllun braenaru ar gyfer y dull newydd a hyblyg hwn o weithredu ar draws 10 grant a nodi unrhyw wersi a all fod o fudd wrth lunio polisïau yn y dyfodol.

2.31 Y saith awdurdod lleol â'r cynlluniau braenaru a fydd yn profi dull o weithredu yn 2018-19 yw Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Conwy a Phen-y-bont ar Ogwr.

2.32 Bydd gan y cynlluniau braenaru hyn hyblygrwydd 100% ar draws y deg grant. Bydd gan y 15 o awdurdodau lleol hyblygrwydd gwell o 15% o ran symud ar draws nifer llai o grantiau yn 2018-19.

2.33 Bydd hyn yn sbardun wrth iddyn nhw symud tuag at syniadau mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau. Cyflwynodd pob awdurdod braenaru gynllun cyflawni unigol i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllido hyblyg yn 2018-19. Mae'n cynnwys manylion ynghylch eu gweledigaeth, dulliau newydd y byddant yn eu mabwysiadu i gyflawni canlyniadau gwell i bobl, ac unrhyw newidiadau i'r ffordd o reoli'r rhaglenni hyn.

## ADRAN 3 - CYLLID

3.0 Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl gyllid a manylion grantiau i'r gwahanol sectorau ledled Cymru. Gall y cyllid ddod yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru neu o WEFO. Mae'r data a gyflwynir ar gyfer 2016/17 yn seiliedig ar y system 'allweddi diwydiant', a gyflwynwyd yn benodol i roi darlun clir o gyllido fesul sector, ac yn benodol y Trydydd Sector.

### (i) Cyllid gan Lywodraeth Cymru

**Tabl 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru fesul Blwyddyn Ariannol**

| | 2015 / 16 | 2016 / 17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Grant a ddarparwyd (£bn) | £13.6 | £13.8 | £14.3 |

**Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru**

3.1. Y nifer o gynlluniau grant a wnaeth gynigion newydd yn 2017 / 18 oedd 323, 269 ohonynt wedi'u neilltuo a 53 ohonynt heb eu neilltuo.

3.2. Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau'r cyllid wedi'i neilltuo a ddarparwyd i bob sector dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Tabl 2: Cyllid Grant Wedi'i Neilltuo fesul Sector a Blwyddyn Ariannol**

| Cyllid wedi'i neilltuo (£m) | 2015 / 16 | 2016 / 17 | 2017/18 | 2017-18 Nifer y cynlluniau grantiau |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | £1,339 | £1,329 | £1,334 | 123 |
| GIG | £14 | £19 | £19 | 15 |
| Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | £37 | £37 | £36 | 15 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | £53 | £31 | £36 | 11 |
| Cyllid i Addysg | £448 | £434 | £434 | 41 |
| Y Sector Preifat | £676 | £689 | £675 | 110 |
| Y Trydydd Sector | £248 | £251 | £270 | 94 |

**Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru**

**Sylwer:** Mae nifer y cynlluniau grant sy'n cefnogi sefydliadau newydd ar draws pob sector yn wahanol i gyfanswm y cynlluniau grant sy'n darparu cynigion newydd

(wedi'u neilltuo) y cyfeirir atynt uchod yn 3.1 – 269. Er enghraifft, mae cynllun Grantiau'r Iaith Gymraeg yn berthnasol i bedwar o'r sectorau uchod, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Addysg, y Sector Preifat a'r Trydydd Sector, gan ei fod yn darparu cyllid i sefydliadau ar draws mwy na sector unigol.

### (ii) Cyllid gan WEFO

### Trosolwg o'r Rhaglenni Cyfredol

3.3. Mae'r ddarpariaeth o raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014 – 2020 yn datblygu'n dda. Mae WEFO wedi cymeradwyo 177 o weithrediadau â chyfanswm gwerth cyllid yr UE yn £1,465 miliwn, fel yr oedd ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Mae hyn gyfystyr ag oddeutu 71% o werth posibl rhaglen gyllid gyflawn yr UE, yn seiliedig ar raddfa gynllunio o €1.17/£1. Mae 71 o weithrediadau ychwanegol yn y cam cynllunio busnes gyda chyfanswm gwerth grant o £346 miliwn.

**Tabl 3: Gweithrediadau a gymeradwywyd ac sy'n cael eu datblygu ar gyfer 2014-2020**

| | **ERDF Gorllewin Cymru (£m)** | **ERDF Dwyrain Cymru (£m)** | **ESF Gorllewin Cymru (£m)** | **ESF Dwyrain Cymru (£m)** | **Cyfanswm (£m)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad | 1030.9 | 173.8 | 687.7 | 173.8 | **2066.2** |
| **Cymeradwywyd** | | | | | |
| Gwerth y Grant | 683.3 | 112.9 | 559.5 | 109.7 | **1465.4** |
| Nifer y Gweithrediadau | 68 | 26 | 49 | 34 | **177** |
| **Cynllunio Busnes** | | | | | |
| Gwerth y Grant | 239.98 | 44.98 | 45.66 | 15.38 | **346** |
| Nifer y Gweithrediadau | 34 | 10 | 20 | 7 | **71** |

**Ffynhonnell: WEFO**

3.4. Os bydd cytundeb Pontio rhwng y DU a'r UE, bydd y rhaglenni presennol yn cael eu darparu fel arfer. Mae'r UE eto i gyhoeddi ei ganllaw ar gyfer dod â'r rhaglenni i ben, ond o dan gytundeb Pontio, y cerrig milltir allweddol fyddai:

- Newidiadau olaf i'r rhaglenni i'w cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd erbyn diwedd 2020
- Cymeradwyaeth olaf WEFO ar gyfer prosiectau newydd, neu newidiadau i brosiectau presennol erbyn dechrau 2023
- Gwariant prosiect gan fuddiolwyr yn gymwys hyd at ddiwedd 2023

- Ceisiadau terfynol i WEFO erbyn tua mis Ebrill 2024
- Ceisiadau terfynol wedi'u harchwilio gan WEFO i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn dechrau 2025

3.5. Pe bai'r DU yn gadael yr UE ym mis Mawrth 2019 heb gytundeb Pontio, yna bydd yn rhaid inni ddibynnu ar warant Trysorlys ei Mawrhydi (HMT). Mae hyn yn peri risg mawr i Gymru gan nad yw'n eglur iawn o hyd beth yw union delerau'r warant, er gwaetha'r ceisiadau rheolaidd am atebion gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft cwestiynau fel a ganlyn:

- A fydd y warant yn caniatáu hyblygrwydd ar draws prosiectau a gafodd eu cymeradwyo ar 29 Mawrth 2019, neu a fydd ein rhaglenni yn troi'n rhestr o brosiectau digyswllt yn unig?
- A wnaiff Trysorlys ei Mawrhydi gadarnhau na ddaw'r cyllid ar gyfer y warant o Floc Cymru?
- Beth yn union yw gwerth y warant? Sut a phryd y bydd hyn yn cael ei bennu?
- Beth yw trefniadau'r torbwynt ar gyfer ymblethu cyfrifoldebau'r Comisiwn Ewropeaidd a Thrysorlys ei Mawrhydi?

3.6. Fodd bynnag, fel strategaeth i fanteisio i'r eithaf ar warant Trysorlys ei Mawrhydi a darparu rhaglenni i ddiwallu anghenion brys cymunedau ledled Cymru, mae'r nod o ymrwymo 100% i'r rhaglenni erbyn mis Mawrth 2019 yn gwneud synnwyr.

3.7. Mae WEFO yn disgwyl cyrraedd y targed hwn ar ôl i'r newidiadau i'r rhaglenni a drafodir gyda'r Comisiwn Ewropeaidd gael eu cymeradwyo, a disgwylir i hyn ddigwydd erbyn diwedd yr haf. Serch hynny, mae'n parhau i fod yn darged heriol. Mae risgiau hefyd y gall WEFO asesu a monitro, lliniaru drwy herio cefnogaeth a dylanwadu, ond yn y pendraw, nid rheoli. Er enghraifft, mae rhai cynigion prosiect yn dibynnu'n fawr ar gynnydd yn eu hamgylcheddau rheoliadol ac ar gytundebau masnachol yn cael eu cwblhau ar draws amrywiaeth o bartneriaid posibl.

3.8. Mae'r tabl canlynol yn cwmpasu cyllid a ddarparwyd yn uniongyrchol i sefydliadau gan WEFO. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018 roedd y prosiectau a gafodd eu cymeradwyo ar gyfer rhaglenni 2014 - 2020 yn foddhaol, gyda'r pwyslais yn bennaf ar y prif brosiectau a fydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r allbynnau yr ymrwymwyd gennym i'w darparu yn y Rhaglenni Gweithredol y cytunwyd arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Tabl 4: Cyllid WEFO 2016-17 Neilltuo Grantiau'r UE fesul Sector**

| **Sector** | **2017-18 £m** |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 60.2 |
| Addysg Uwch ac Addysg Bellach | 35.6 |
| Preifat | 0.6 |
| Cyhoeddus Arall | 0 |
| Trydydd | 7.8 |
| Llywodraeth Cymru | 27.2 |
| **Cyfanswm** | **132.4** |

**Ffynhonnell: WEFO**

3.9. Mae'r ffigwr £132.4 miliwn yn gwneud cyfanswm cyllid yr UE a neilltuwyd yng nghylch cyllido 2014 - 2020 yn £1,465.4 miliwn neu oddeutu 71% o werth tybiedig y cyllid a neilltuwyd ar gyfer Cymru. Mae nifer o brosiectau sylweddol yn aros i gael eu cymeradwyo yn ystod 2019 - 20 yn cynnwys buddsoddiadau yn ymwneud â'r Metro, prosiectau Cyfalaf eraill megis Ynni'r Môr ac estyniadau i brosiectau sylfaenol cyfredol a fydd yn parhau tan ddiwedd y cyfnod rhaglennu presennol.

## ADRAN 4: Y CAMAU NESAF AR GYFER RHEOLI GRANTIAU

### (i) Llywodraeth Cymru

Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd – Grantiau a Ffrwd waith Sicrwydd

4.0. Amlygodd yr Adroddiad Blynyddol Interim ar Reoli Grantiau 2016-17 waith arfaethedig y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd. Mae'r ddwy ffrwd waith a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn. Ym mis Ebrill 2018, cyflwynwyd cynigion i'r Bwrdd Effeithlonrwydd a oedd yn ymwneud â Model Gweithredu Targed diwygiedig i reoli grantiau yn Llywodraeth Cymru a chynllun treialu offeryn ceisiadau a dyfarniadau ar lein.

Model Gweithredu Targed (TOM):

4.1. Mae'r TOM arfaethedig yn adlewyrchu'r prosesau grant o'r dechrau i'r diwedd ac yn nodi pa swyddogaethau y gellid eu gweithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon gan un tîm i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu gweithredu mewn modd cyson a chydsyniol. Cynlluniwyd y TOM ar gyfer grantiau wedi'u neilltuo yn unig.

4.2. I grynhoi, cafodd y bwrdd argymhelliad y dylai perchnogaeth y cynlluniau grant barhau dan ofal swyddogion polisi; yn cynnwys datblygu canlyniadau cynlluniau grant, arfarnu ceisiadau ac argymell pwy ddylai gael cyllid grant. Serch hynny, byddai'r prosesau mwy cyffredin sydd eu hangen i greu a darparu cynlluniau grant megis hysbysebu cynlluniau grant, datblygu ffurflenni cais a phrosesu taliadau, yn elwa ar ddull o weithredu mwy safonol gan ddefnyddio un tîm yn unig.

4.3. Argymhellodd y TOM hefyd y dylid cyflwyno dwy swyddogaeth newydd yn y broses grantiau.

- Panel Grantiau a Sicrwydd - Daw hwn â rhanddeiliaid allweddol ar draws Llywodraeth Cymru at ei gilydd. Bydd y rhain yn cynnwys y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau, cymorth gwladwriaethol, timau cyfreithiol, archwilio mewnol, TAW a thimau polisi er mwyn darparu cyngor, her a sicrwydd ar ddechrau cyfnod datblygu cynllun grant. Y nod yw darparu cyngor ymarferol i reolwr y grant i sicrhau bod cynlluniau newydd yn alinio â blaenoriaethau Gweinidogol, yn ychwanegu gwerth ac yn lleihau risgiau ym mhrosesau'r cynllun grant.

- Gweithrediad Diwydrwydd Dyladwy Canolog -Bydd hwn yn darparu diwydrwydd dyladwy corfforaethol a chamau gwirio trefn lywodraethol y sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu. Ar hyn o bryd cyflawnir tasgau diwydrwydd dyladwy gan wahanol swyddogion ar draws y Llywodraeth, yn aml yn yr un sefydliadau.

Byddai swyddogaeth diwydrwydd dyladwy canolog yn osgoi dyblygu ac yn gwella cysondeb, yn darparu mwy o gefnogaeth i feysydd polisi ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymdrin â sefydliadau allanol yn fwy unffurf. Byddai diwydrwydd dyladwy prosiectau (canlyniadau, gallu'r sefydliad i ddarparu'r prosiect a gwerth am arian) yn parhau dan ofal y timau polisi.

4.4. Y bwriad yw y bydd y panel sicrwydd a'r timoedd diwydrwydd dyladwy mewn grym erbyn yr hydref 2018. Disgwylir i fodel gweithredu diwygiedig fod mewn grym cyn cyhoeddi'r adroddiad nesaf.

Adolygiad TGCh

4.5. Diben y ffrwd waith yw cynnal adolygiad o atebion TGCh sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws Llywodraeth Cymru, yn benodol er mwyn canfod a ydynt yn addas fel platfform digidol ar gyfer ceisiadau, arfarniadau a hawliadau. Y nod yw gwella cysondeb a chydymffurfiaeth a lleihau'r baich gweinyddu ar randdeiliaid wrth iddyn nhw wneud cais am grantiau, a gwella'r trywydd archwilio drwyddo draw.

4.6. Mae swyddogion wedi adolygu'r offerynnau presennol yn Llywodraeth Cymru y gellid eu defnyddio i gefnogi'r broses o ymgeisio am grant a dyfarnu grant a chefnogi cyfres o gynlluniau grant peilot posibl i ddechrau profi'r cais a ffefrir erbyn mis Medi 2018.

4.7. Mae'r ffrwd waith yn ystyried ceisiadau a dyfarniadau yn unig ac nid y broses o reoli grant o'r dechrau i'r diwedd. Bwriedir trefnu cynllun treialu offeryn gwneud cais a dyfarnu ar lein ar gyfer yr hydref 2018.

Arolwg Allanol

4.8. Fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor yn yr Adroddiad Interim ar reoli Grantiau 2016-17, cynhaliwyd arolwg allanol dilynol yn 2018, y tu allan i gyfnod yr adroddiad presennol. Bydd unrhyw ganfyddiadau ac unrhyw weithrediadau yn sgil y rheini yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2018-19.

### (ii) WEFO: Brexit a'r Camau Nesaf ar gyfer Rheoli Grantiau

4.9. Mae cyllid yr UE wedi bod yn sbardun allweddol i dwf economaidd a swyddi yng Nghymru a bydd angen cynnal yr ymdrech barhaus i adeiladu ar lwyddiannau rhaglenni'r gorffennol pan fydd y DU yn gadael yr UE. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau yn ymrwymedig i sicrhau y bydd cyllid amgen o ffynonellau yn y DU yn adlewyrchu lefelau cyfredol cyllid yr UE ar gyfer datblygiad economaidd rhanbarthol yng Nghymru.

4.10. Ar 14 Rhagfyr 2017 lansiodd y Prif Weinidog y papur polisi ‘Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit’. Gwahoddwyd partneriaid i gynnig sylwadau ar egwyddorion a chynigion ar gyfer cyllid rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit. Digwyddodd yr ymgysylltu rhwng 14 Rhagfyr 2017 a 23 Mawrth 2018. Yn gyffredinol mae ymateb cadarnhaol i’r egwyddorion a osodwyd yn y papur, sy’n cefnogi’r cyfeiriad a gynigiwyd gennym ni.

4.11. Mae’r ymateb yn cael ei werthuso’n annibynnol, a bydd yr wybodaeth yn rhan o’r cyngor sy’n cael ei baratoi i’r Cabinet ar gyfer y camau nesaf. Yna bydd Llywodraeth Cymru yn cychwyn ar broses fanwl o ddatblygu polisi gyda’n partneriaid ledled Cymru.

4.12. Hefyd, mae WEFO yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni gwariant llawn ar raglenni presennol yr UE cyn diwedd mis Mawrth 2019. Mae mewn cysylltiad â’r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch addasiadau i’r Rhaglenni Gweithredol presennol, yn cynnwys ychwanegu Blaenoriaeth ESF newydd. Bydd WEFO hefyd yn parhau i gefnogi noddwyr prosiectau i sicrhau y cyflawnir prosiectau yn unol â’r cynllun ac y bydd cyfnod pontio didrafferth i unrhyw drefniadau cyllid rhanbarthol newydd. Mae gweithredu fel partneriaid yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn, ac mae pawb sy’n ymwneud â phrosiectau a ariennir gan yr UE yn canolbwyntio’n fanwl ar gyflawni hyn.

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Awst 2018

Annwyl Mr Ramsay,

**Craffu ar Gyfrifon 2016-17**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mai ynghylch Craffu ar Gyfrifon 2016-17. Atodaf ymateb i bob un o'r eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor yn Atodiad A.

Fe wnaethoch ysgrifennu ataf eto ar 31 Gorffennaf yn dilyn y sesiwn i ffarwelio â Chyn-archwilydd Cyffredinol Cymru. Edrychaf ymlaen at drafod y materion a godwyd yn y llythyr hwnnw pan fydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cwrdd ym mis Hydref.

Roeddwn am fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i roi gwybod i'r pwyllgor fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi cyfrifon blynyddol 2017-18 ym mis Medi. Mae hyn yn hwyrach yn y flwyddyn nag arfer ac os bydd aelodau'r pwyllgor yn dymuno hynny, gallaf roi rhagor o fanylion am yr amserlen ar 15 Hydref.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Atodiad A

## CRAFFU AR GYFRIFON 2016-17 – LLYTHYR DILYNOL GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS

### Adroddiad archwilio am atal twyll

Mae'r adolygiad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth wedi'i gwblhau ac adroddir yn fanylach ar y canlyniad yn yr Adroddiad Grantiau Blynyddol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Cyfrifon Blynyddol. I grynhoi, aseswyd bod uned gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru yn uned sy'n perfformio ar lefel uchel. Er hynny, gwnaed sawl argymhelliad a fydd yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys yr angen am fwy o hyfforddiant am gwrth-dwyll.

### Adroddiadau Llywodraeth Cymru ar berfformiad

Rwy'n sylweddoli bod y Pwyllgor wedi dweud sawl gwaith bod lle i ddarparu rhagor o wybodaeth yn y Cyfrifon Blynyddol am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni amcanion y Llywodraeth. Fodd bynnag, mater i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Ysgrifennydd Parhaol yw'r trefniadau sy'n ymwneud â sut  y darperir gwybodaeth am berfformiad yn unol â'r amcanion. Mae perfformiad yn unol â'r gyllideb flynyddol, ynghyd â dangosyddion eraill nad ydynt yn rhai ariannol, megis gwybodaeth am wrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwyo a materion amgylcheddol yn cael ei adrodd yn y Cyfrifon Blynyddol.

### Cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM)

Mae'r FReM yn cynnwys canllawiau cyfrifyddu technegol ar gyfer llunio datganiadau ariannol. Mae hefyd yn amlinellu'r gofynion o ran fformat a chynnwys yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol sy'n cynnwys yr adroddiad perfformiad, yr adroddiad atebolrwydd a'r datganiadau ariannol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'n dilyn y canllawiau adrodd ar berfformiad gan nad ydym yn cyhoeddi gwybodaeth am gynnydd yn unol ag amcanion y Llywodraeth, fel y nodwyd uchod.   Er hynny, rydym yn adrodd ar berfformiad o ran y gyllideb a dangosyddion eraill nad ydynt yn rhai ariannol a hefyd yn amlygu'r pethau allweddol a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf. Yn ystod 2017-18, roedd hyn yn cynnwys cyflwyno pwerau deddfwriaethol newydd yng Nghymru a chynnydd o ran datganoli trethi a pharatoi ar gyfer Brexit. Mae Gweinidogion Cymru yn adrodd ar wahân am amcanion y Llywodraeth.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Galluogi'r darllenydd i ddeall sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ac i gwestiynu a gafodd ei wario mewn ffordd ddoeth.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio darparu adroddiadau clir a thryloyw am alldro yn unol â'r gyllideb yn y Datganiad Alldro sy'n elfen allweddol o'r cyfrifon blynyddol. Er bod yr adroddiad presennol yn gallu bod yn gymhleth oherwydd y gofyniad i reoli'r gyllideb Cwmpasau a'r gyllideb DEL, ymdrinnir â'r broblem hon drwy alinio'r gwaith ar y Cyfrifon a'r gyllideb sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae gwelliannau i gynnwys a fformat y Cyfrifon Blynyddol hefyd wedi arwain at gynnwys ffeithlun sy'n dangos sut y gwariwyd arian cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno yn ein Hadroddiad Blynyddol er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddeall yn well sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

**Canllawiau i gyrff a noddir**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i gyrff a noddir ar sut i lunio Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol drwy ddefnyddio cyfarwyddyd cyfrifon. Mae'r cyfarwyddyd cyfrifon yn ymdrin ag agweddau allweddol sy'n ymwneud â llunio cyfrifon, gan gynnwys yr angen i gydymffurfio'n llawn â'r FReM oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Mae hefyd yn nodi bod rhaid trafod unrhyw amrywiad arfaethedig o'r FReM â Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

**Polisi cronfeydd ar gyfer cyrff a noddir ac effaith cyflwyno Cronfa wrth gefn Cymru**

Mae Cronfa wrth gefn Cymru yn ffordd o ddwyn ymlaen unrhyw danwariant ar gyllidebau adnoddau. Felly, nid yw'n effeithio ar allu cyrff a noddir i ddwyn ymlaen unrhyw arian nad yw wedi cael ei wario. Ystyrir mai terfyn o 2% yw'r lefel briodol o arian wrth gefn y caiff corff a noddir ei gadw yng nghyd-destun rheoli arian y sector cyhoeddus fel y nodir yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru". Nid yw'r hyblygrwydd sydd gan gyrff a noddir i reoli cyllidebau adnoddau dros sawl blwyddyn wedi newid; rheolir cyllidebau o fewn terfynau'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael o fewn y Prif Grwpiau Gwariant priodol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon